

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan  
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)</b>	<b>THE EXECUTIVE (BUDGET)</b>
<b>DYDD LLUN 1 MAWRTH 2021 10.00 o'r gloch</b>	<b>MONDAY 1 MARCH 2021 10.00 am</b>
<b>CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)</b>	<b>VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)</b>
Swyddog Pwyllgor	<b>Ann Holmes 01248 752518</b> Committee Officer

## **AELODAU/MEMBERS**

### **Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS,  
Robin Wyn Williams

### **Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.  
Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **MATERION BRYS A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

### 3 **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3, 2020/21** (Tudalennau 1 - 30)

I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 4 **MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF – CHWARTER 3, 2020/21** (Tudalennau 31 - 46)

I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 5 **MONITRO'R CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 3, 2020/21** (Tudalennau 47 - 54)

I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 6 **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2021/22** (Tudalennau 55 - 98)

I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 7 **GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED – FFI OEDD A THALIADAU 2021/22** (Tudalennau 99 - 104)

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro.

### 8 **CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HYN - PENNU'R FFI SAFONOL** (Tudalennau 105 - 108)

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro.

### 9 **FFIOEDD A THALIADAU 2021/22** (Tudalennau 109 - 150)

I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.  
Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

- 10**     **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2021/22**  
(Tudalennau 151 - 174)  
I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 11**     **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22 I 2023/24**  
(Tudalennau 175 - 194)  
I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 12**     **CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL AR GYFER 2021/22**  
(Tudalennau 195 - 204)  
I gyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>1 MAWRTH 2021</b>
<b>PWNC:</b>	<b>MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2020/21</b>
<b>DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	<b>MARC JONES</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD:</b>	<b>BETHAN HUGHES OWEN</b>
<b>FFÔN:</b>	01248 752663
<b>E-BOST:</b>	BETHANOWEN2@YNYSMON.GOV.UK
<b>AELODAU LLEOL:</b>	Amherthnasol
<b>A - Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau</b>	
<p>1. Ar 10 Mawrth 2020, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2020/21 gyda gwariant net gwasanaeth o £142.146m i'w gyllido ariannu o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm ar gyfer argyfyngau cyffredinol a chynlluniau wrth gefn eraill sy'n dod i gyfanswm o £1.115m. Gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor o £0.051m i £1.393m.</p> <p>2. Roedd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys arbedion gofynnol o £0.307m. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyllidebau gwasanaethau unigol ac adlewyrchir cyflawniad neu ddiffyg cyflawniad y rhain yn y tanwariant/gorwariant net a ddangosir. Roedd y targed arbedion ar gyfer 2020/21 yn sylweddol is na blynyddoedd blaenorol oherwydd cynnydd o 3.8% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn gynydd i'w groesawu yn dilyn nifer o flynyddoedd o ostyngiad mewn cyllid a arweiniodd at dargedau arbedion sylweddol bob blwyddyn o dros £2m. Unwaith eto, mae'r setliad dros dro ar gyfer 2021/22 yn dangos cynnydd o 3.4% yng nghyllid Llywodraeth Cymru. Nid yw'r gyllideb ddrafft y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2021 yn gofyn am weithredu unrhyw dargedau arbedion ac mae'n gofyn am gynydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor. Mae'r sefyllfa y tu hwnt i 2021/22 yn dal yn aneglur ar hyn o bryd.</p> <p>3. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £557m hyd yma i dalu'r costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan Gyngorau wrth ddelio â'r pandemig, sydd wedi cynnwys cost prynu cyfarpar diogelu personol, cefnogi'r Sector Gofal Oedolion, darparu gwasanaethau ychwanegol i'r digartref, helpu gyda chostau trosglwyddo i weithio gartref, cyllido cost taliadau wythnosol i rieni plant a fyddai fel arfer yn cael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer yr incwm a gollwyd gan Gyngorau o ganlyniad i gau gwasanaethau. Hyd yma mae'r Cyngor wedi hawlio £5.88m mewn cyllid ychwanegol a derbyniwyd £5.15m ohono. Mae'r gwariant net hyd yma a'r gwariant net rhagamcanol hyd at ddiwedd y flwyddyn yn ystyried y cyllid ychwanegol hwn.</p> <p>4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3, 31 Rhagfyr 2020. Mae'r sefyllfa a rhagwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan hefyd wedi'i chrynhoi. Wrth i ni symud yn nes at ddiwedd y flwyddyn ariannol mae mwy o sicrwydd ynghylch y rhagamcaniadau a wnaed, o'i gymharu â chwarter 2, er y dylid nodi y gall y sefyllfa newid yn gyflym yn yr argyfwng presennol sydd ohoni wrth i'r Cyngor barhau i ymateb i'r pandemig.</p> <p>5. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a rhagwelir ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.472m. Mae hyn yn 1.04% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2020/21.</p>	

**6. Argymhellir:-**

- (i) Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21;
- (ii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C;
- (iii) Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
- (iv) Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D;
- (v) Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD - Gyda phwy yr ymgynghorwyd?**

**Beth oedd eu sylwadau?**

1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)</b> (gorfodol)	Ystyriwyd yr adroddiad gan yr UDA ac mae'r sylwadau a wnaed wedi'u cynnwys yn yr adroddiad
2	<b>Cyllid / Swyddog Adran 151</b> (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro</b> (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed gan yr UDA
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Amherthnasol
5	<b>Eiddo</b>	Amherthnasol
6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	Amherthnasol
7	<b>Sgriwtini</b>	Ystyriwyd yr adroddiad gan Banel Sgriwtini Cyllid ac adroddwyd arno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
8	<b>Aelodau Lleol</b>	Amherthnasol
9	<b>Cyrff allanol / eraill</b>	Amherthnasol

**E - Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)**

1	<b>Economaidd</b>	
2	<b>Gwrthdodi</b>	
3	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	
4	<b>Amgylcheddol</b>	
5	<b>Cydraddoldeb</b>	
6	<b>Cytundebau Canlyniadau</b>	
7	<b>Arall</b>	

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2020/21
- Atodiad B – Tabl Alldro Dros Dro 2020/21
- Atodiad C – Crynodeb o Gyllidebau Wrth Gefn 2020/21
- Atodiad CH – Adolygiad o'r prosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21
- Atodiad D - Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2020/21
- Atodiad DD - Gwybodaeth am fonitro Staff Asiantaeth 2020/21
- Atodiad E - Gwybodaeth am fonitro Ymgynghorwyr
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl am y gwariant ar Ymgynghorwyr

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- 2020/21 Cyllideb Refeniw (fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2020 ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2020).

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2020/21

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £8.760m a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £0.197m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro ar gyfer 2019/20 at falans cyffredinol o £7.060m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyffredol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu cyllido o'r Gronfa wrth gefn Gyffredinol yn 2020/21:-

Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith	Swm £m	Pwrpas
Balans agoriadol drafft	-7.060	Y gronfa wrth gefn gyffredinol drafft archwiliedig ar 31 Mawrth 2020.
15 Mehefin 2020	0.085	Ychwanegu i'r gronfa wrth gefn glustnodedig o £100k i £185k i gyllido'n llawn y gwaith o beintio Pier Biwmares.
<b>Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor</b>	<b>-6.975</b>	<b>Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid ar ôl gwneud addasiadau'n dilyn archwiliad.</b>

Yn unol â'r alldro cyffredol a ragamcener ar gyfer 2020/21, tybir y bydd tanwariant o £1.472m. Os yw'r duedd hon yn parhau, mae'n debygol y bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn cynyddu i £8.447m yn erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn uwch na'r isafswm o £7.1m a bennwyd ar gyfer y gronfa wrth gefn gyffredinol ac ar gyfer 2020/21 ac a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020. Yn ei gyllideb gyfalaf drafft, mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu defnyddio £0.921m fel cyfraniad tuag at gyllido'r rhaglen gyfalaf.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

2.1 Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanol ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £1.906m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2021. Amcangyfrifir gorwariant o £0.160m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal â hyn, rhagwelir gorwariant o £0.274m mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor - mae £0.556m ohono i'w briodoli i ddiffyg o ran casglu'r Dreth Gyngor gyffredinol am y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd gwarged o £0.282m ar Bremiwm y Dreth Gyngor o gymorth i ostwng rhan sylweddol o'r diffyg Dreth Gyngor. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £1.472m yn y gyllideb refeniw gyffredol yn ei chyfanrwydd yn 2020/21, sef 1.04% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

2.2 Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (oddeutu £100k neu uwch):-

Tabl 1

	(Tan)/Gorwariant £'000
Dysgu	(1,278)
Oedolion	(295)
Gwasanaethau Plant	(216)
Eiddo	141
Gwastraff	(290)
Adnoddau Dynol	(185)
TGCh	136
Trawsnewid	(152)
Costau nad oedd cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant,	142
costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg	400
Y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor	274
Arall (Cyfanswm amrywiadau llai na £100k)	(149)
<b>Cyfanswm yr Amrywiadau gor/(tan)wariant</b>	<b>(1,472)</b>



### 3. Eglurhad o'r Amrywiadau Sylweddol

#### 3.1 Dysgu Gydol Oes

##### 3.1.1 Cyllideb Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Gan fod y mwyafrif o ysgolion ar gau yn ystod tymor yr haf, heblaw am un wythnos pan oeddent ar agor, bydd costau a gafwyd gan ysgolion yn is na'r arfer e.e. cyflenwadau a gwasanaethau, athrawon llanw a ffioedd arholiadau. Bydd unrhyw danwariant sy'n deillio o hynny'n cynyddu balansau ysgolion. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cymryd dim o'r tanwariant yn ôl. Ni fydd y sefyllfa gyffredinol o ran cyllidebau datganoledig ysgolion yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

##### Addysg Ganolog

**3.1.2** Roedd tanwariant o £620k (44.27%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd Chwarter 3. Y rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £1,278k (26.91%). Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw, felly, oherwydd i ysgolion orfod cau yn sgil y Pandemig Coronafeirws, nid oes unrhyw alw, neu mae'r galw wedi gostwng, fel yr amlygir isod yn 3.1.3. Gallai'r gwasanaethau hyn a arweinir gan y galw newid wrth i'r flwyddyn academaidd a'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi.

**3.1.3** Mae nifer o achosion o or a thanwariant ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y mwyaf syleddol ohonynt isod.

- Rhagwelir tanwariant o £358k ar brydau ysgol oherwydd nad oedd galw am brydau ysgol yn ystod 4 mis cyntaf y flwyddyn ariannol pan oedd ysgolion ar gau, yn cynnwys y cyfnod clo atal byr a'r cyfyngiadau presennol. Mae'r Cyngor yn sybsideiddio prydau ysgol, felly, mae llai o alw yn arwain at lai o wariant yn erbyn y gyllideb prydau ysgol.
- Bu llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol ers dechrau 2019/20, gan fod un ar ddeg o blant wedi gadael lleoliadau all-sirol ar ôl iddynt droi'n 16+ oed neu ddychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn. Dim ond pump lleoliad newydd a gafwyd. Rhagwelir tanwariant o £719k ar leoliadau all-sirol. Gan fod hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw, gallai'r tanwariant fod yn sylweddol is pe bai mwy o alw yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol.
- Rhagwelir tanwariant o £175k yn y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhai o'r darparwyr ar gau yn ystod y pandemig, sy'n golygu nad oes unrhyw grantiau wedi'u dosbarthu.
- Mae rhai cyllidebau yn y gwasanaeth dan bwysau ond mae'r tanwariant a ragwelir yn gwneud yn iawn am hynny. Rhagwelir y bydd gorwariant o £47k ar Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Môn a Gwynedd. Hefyd mae pwysau cyllidebol yn ymwneud â'r Clwb Gofal (colli incwm) ac addysg bellach.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £144k (13.36%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, ond mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn orwariant o £54k (4.20%). Mae hyn deillio o golli incwm yn sgil cau'r Oriol, sy'n dod i £157k. Mae hyn yn rhagdybio y bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r gorau i ddigolledu awdurdodau lleol am incwm a gollwyd. Nid yw cyllid ar gyfer y celfyddydau bellach yn gymwys dan y cynllun Grant Caledi Covid-19 Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, gwnaed cais ar gyfer colledion chwarter 3. Mae cyllid arall ar gael i gefnogi'r celfyddydau, gwrthodwyd y prif gais a wnaed gan yr Oriol i'r Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol tra bod rhai o'r ceisiadau llai wedi'u derbyn. Mae Llyfrgelloedd yn helpu i ostwng gorwariant y gwasanaeth a disgwylir y bydd tanwariant o £116k o ganlyniad i swyddi gweigion ac arbedion ar staff llanw tra bydd llyfrgelloedd ar gau oherwydd Covid-19. Disgwylir ychydig o orwariant ar grantiau diwylliant ac archifau.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £1,083k (5.54%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £295k (1.10%) yn y gwasanaeth am y flwyddyn. Darparwyd cyllideb ychwanegol o £1.028m i'r gwasanaeth fel rhan o bennu cyllidebau 2020/21 oherwydd bod cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion o dan bwysau yn 2019/20. Mae arian wrth gefn o £251k hefyd wedi'i gynnwys wrth bennu cyllidebau ar gyfer Galw yn y Gwasanaeth Oedolion nad yw wedi'i ystyried yn y rhagolwg fel y soniwyd.

**3.2.2** Mae'r elfennau o fewn yr amrywiant alldro a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau i'r Henoed: Rhagwelir gorwariant o £31k am y flwyddyn. Mae amryw o elfennau sy'n creu'r gorwariant, mae swyddi gwag ym maes asesu a rheoli gofal sy'n creu tanwariant o £112k, mae incwm ychwanegol yn deillio o daliadau gohiriedig sydd wedi arwain at danwariant rhagamcanol o £32k mewn gofal preswyl. Fodd bynnag, gwrthbwysir y tanwariant hwn gan orwariant a ragwelir o £57k ar gyfer gofal nysio oherwydd cynnydd yn y galw a disgwylir i ofal cartref orwario £139k, yn bennaf oherwydd costau llefydd gweigion.
- Anableddau Corfforol (PD): Rhagwelir tanwariant o £80k – mae'r tanwariant mwyaf yn ymwneud ag asesu a rheoli gofal (£93k) oherwydd swydd wag a chyllid grant ar gyfer swyddi eraill. Offer ac addasiadau (£34k). Mae llai o gymhorthion a gwaith addasu yn cael ei wneud oherwydd pandemig Covid-19. Disgwylir i Gymorth Cartref orwario (£46k).
- Anableddau Dysgu (LD): Rhagwelir gorwariant o £297k – rhagwelir gorwariant o £132k ar ofal preswyl oherwydd y galw ychwanegol am leoliadau cost uchel i unigolion ag anghenion gofal cymhleth. Mae hwn yn wasanaeth a arweinir gan y galw ac yn bennaf mae'n comisiynu nifer fechan o leoliadau costus iawn i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Rhagwelir y bydd gorwariant o £3k ar ofal dydd, ynghyd â gorwariant o £14k ar asesu a rheoli gofal. Rhagwelir y bydd gorwariant o £454k ar lety â chymorth a llety arall. Roedd disgwyl arbedion o £300k yn y maes hwn o ganlyniad i ymarfer tendro, fodd bynnag, ni chafodd hynny ei weithredu oherwydd Covid-19. Gohiriwyd y broses dendro. Rhagwelir tanwariant sylweddol o £231k ar ofal cartref wrth i fwy o unigolion dderbyn taliadau uniongyrchol a threfnu eu gofal cartref eu hunain.
- Iechyd Meddwl (MH): Rhagwelir tanwariant o £253k - rhagwelir y bydd tanwariant o £13k ar ofal preswyl. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw ac, unwaith eto, ceir nifer fechan o leoliadau costus iawn. Felly, mae'n bosibl y bydd y sefyllfa'n newid wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Rhagwelir tanwariant o £257k ar gymorth cymunedol oherwydd swyddi gwag. Rhagwelir gorwariant ar Ofal Cartref (£16k) a Byw â Chymorth (£31k), a oedd yn ymwneud yn bennaf â chynnydd mewn costau lleoli oedolion.

- Uned Ddarparu a Rheoli a Chymorth: Rhagwelir tanwariant o £134k. Mae hyn o ganlyniad i swyddi gwag ar draws gwahanol elfennau'r uned a chanolfannau dydd na fu ar agor oherwydd cyfyngiadau Covid.

**3.2.3** Dengys y ffigyrau ar gyfer Chwarter 3 bwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau yn ystod y chwarter. Er mwyn ymchwilio'n llawn i'r materion hyn, bydd yr adran yn ystyried pob llinell benodol sydd wedi arwain at y gorwariant sylweddol a ragwelir. Yn achos pob un, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:-

- Natur y tueddiadau cylchol (tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn a mis ar ôl mis);
- Y rhesymau tu ôl i'r tueddiadau;
- Camau pellach y gellir eu cymryd i reoli galw.

Adroddir ar unrhyw adborth i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwitini Cyllid.

### **3.3 Gwasanaethau Plant**

**3.3.1** Roedd gorwariant o £291k (3.52%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £216k (1.97%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o adeiniau yn y Gwasanaethau Plant yn tanwario, a rhagwelir y bydd tanwariant o £166k yn y maes comisiynu a Gwaith Cymdeithasol. Disgwylir gorwariant o £110k ar blant ag anableddau, sy'n well na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 2 (£193k).

**3.3.2** Rhagwelwyd y byddai tanwariant o £449k yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal yn chwarter 2 oherwydd tanwariant disgwylidig o £1,000k ar leoliadau all-sirol. Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf bu cynnydd yn y galw am leoliadau all-sirol ac mae staff sy'n cael eu penodi i gartrefi'r grwpiau bach wedi golygu y rhagwelir y bydd y tanwariant diwedd blwyddyn bellach yn £20k. Roedd gwasanaethau plant ag anableddau yn rhagweld gorwariant o £193k ar ddiwedd chwarter 2 oherwydd lleoliadau arbenigol cost uchel a fydd, yn y pen draw, yn cael eu symud i Gartref Arbenigol Grŵp Bach y Cyngor pan fydd yn weithredol. Ar ddiwedd chwarter 3, mae'r rhagolwg ychydig yn well gan ragweld gorwariant o £110k sy'n deillio o gyfuniad o ostyngiad mewn costau staffio a'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Yn y gyllideb Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol mae gwahaniaeth o £81k yn y tanwariant am y flwyddyn, gan ragweld tanwariant o £166k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn wedi deillio o gyllid ychwanegol o'r gronfa drawsnewid a defnydd gofalus o'r cyllid Cronfa Gofal Integredig.

**3.3.3** Oherwydd y pandemig, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gostyngiad bychan yn nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod Lleol. Rhagwelir y bydd atgyfeiriadau'n cynyddu ac, yn wir, mae'n bosibl y bydd rhaid i ni ddod â rhai plant i mewn i ofal. Felly, rhaid i ni ystyried gofynion ariannol y pwysau hwn yn ystod y misoedd nesaf.

### **3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**3.4.1** Roedd tanwariant o £20k (1.34%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £25k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae tanwariant o £25k (2.14%) ar ddiartrefedd oherwydd swydd wag ond, ac eithrio hynny, disgwylir i'r gwariant fod o fewn y gyllideb.

## **3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

### **3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)**

- 3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £163k (9.98%) yn y gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanol yw tanwariant o £25k (1.33%).
- 3.5.1.2** Rhagwelir y bydd tanwariant o £5k ar elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o'r gorwariant o £20k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae atal prosiect Wylfa Newydd a therfynu cytundebau partneriaeth gyda Horizon a'r Grid Cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar allu'r gwasanaeth i gyflawni ei dargedau incwm mewn perthynas â chodi tâl am staff. Ailgyfeiriwyd staff i weithio ar ymateb yr Awdurdod i'r Coronafeirws. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn gymwys ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru. Mae pwysau eraill ar y gyllideb yn cynnwys dylunio graffeg a thanysgrifiadau datblygu economaidd, a allai ddod i gyfanswm o £35k o orwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r swydd wag Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle wedi helpu i gyllido llawer o'r pwysau ar y gyllideb.
- 3.5.1.3** Rhagwelir y bydd tanwariant o £50k yn yr adain Cyrchfan eleni, sy'n gynydd o £45k o'r hyn a ragwelwyd yn ystod chwarter 2. Mae ansicrwydd ynghylch gallu'r gwasanaeth i gyflawni ei dargedau incwm ar gyfer angorfeydd, cofrestriadau badau dŵr personol a ffioedd lansio. Roedd incwm o ffioedd lansio wedi gwella tra oedd y cyfyngiadau symud wedi'u llacio yn ystod yr haf. Fodd bynnag, mae angorfeydd a chofrestriadau yn parhau i fod yn broblem. Fodd bynnag, mae swydd wag y Rheolwr Cyrchfan a'r arbedion ar wardeiniaid traethau a staff tymhorol yn lleihau effaith y pwysau ar y gyllideb.
- 3.5.1.4** Mae'r adain Hamdden wedi cael ei tharo'n galed oherwydd i'r holl ganolfannau hamdden gael eu cau ddechrau'r flwyddyn ac oherwydd y cyfnod atal byr a'r cyfnod clo presennol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu'r gwasanaeth am yr incwm a gollwyd hyd at ddiwedd chwarter 3 a bydd yn ei ddigolledu am chwarter 4. Mae gorwariant o £295k gan yr adran am y cyfnod, mae'r arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru'n dod i £227k, sy'n gadael gorwariant o £68k ar gyfer yr adran. Rhagwelir gorwariant o £30k ar ddiwedd y flwyddyn.

### **3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

- 3.5.2.1** Roedd tanwariant o £182k (10.93%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod. Fodd bynnag, yr alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £63k (2.96%).
- 3.5.2.2** Roedd tanwariant o £124k yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod, gyda alldro rhagamcanol yn danwariant o £50k, sy'n well na'r gorwariant a ragwelwyd o £36k yn chwarter 2. Disgwylir i'r gorwariant ar reoli cŵn/plâu fod yn £20k am y flwyddyn yn bennaf oherwydd bod angen addasu targedau incwm i adlewyrchu'r newid yn y galw am y gwasanaeth. Rhagwelir y bydd lechyd yr Amgylchedd yn tanwario £30k, sy'n well na'r gorwariant disgwyliedig o £18k yn chwarter 2. Mae hyn o ganlyniad i arbedion staff parhaus yn ogystal ag incwm grant. Rhagwelir y bydd y gorwariant ar Gofrestryddion yn dal i fod yn £35k, a'r rheswm am hyn yw ein bod yn aros am gadarnhad ynghylch y ffaith y bydd y diffy incwm sy'n deillio o'r pandemig yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Rhagwelir tanwariant mewn Trwyddedu (£45k) ac lechyd a Diogelwch Corfforaethol (£35k) oherwydd swyddi gweigion.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £58k yn yr adain Gynllunio am y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £13k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd gorwariant o £30k ar reoli cynllunio oherwydd diffyg yn y cyllidebau incwm yn ystod hanner cyntaf y cyfnod clo. Fodd bynnag, mae incwm ffioedd cynllunio wedi cynyddu yn chwarter 3 sydd yn ei dro yn golygu bod cyllidebau rheoli cynllunio yn sicrhau cyllideb gytbwys. Rhagwelwyd y byddai rheoli adeiladu yn gorwario £6k yn chwarter 2, fodd bynnag, unwaith eto mae lefelau incwm wedi cynyddu o fewn yr adain hon nes y sicheir cyllideb gytbwys. Mae tanwariant o £5k ar gyfer Polisi Cynllunio ac £8k ar gyfer Gweithredu a Chadwraeth yn deillio o incwm grant a gafwyd ac o reoli costau cynnal yr adeiniau.

### **3.6 Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

#### **3.6.1 Prifffyrdd**

**3.6.1.1** Roedd tanwariant o £50k (0.90%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod. Fodd bynnag, y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £17k (0.27%). Mae hyn yn welliant o'r gorwariant o £6k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.

**3.6.1.2** Mae tan neu orwariant bach mewn nifer o feysydd yn gwneud yn iawn am hyn. Y gorwariant mwyaf sylweddol yw £130k ar Ffilyd oherwydd diffyg mewn incwm gan wasanaethau eraill yn sgil y cyfyngiadau Covid. Mae'r gorwariant hwn wedi cynyddu £20k o chwarter 2. Mae disgwyl y bydd gorwariant o £90k mewn incwm meysydd parcio oherwydd argyfwng Covid, fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn iawn am gyfran o'r incwm meysydd parcio a gollwyd oherwydd bod llai o bobl yn defnyddio meysydd parcio yn gyffredinol, ond ni fyddant yn digolledu'r Cyngor am yr incwm a gollwyd oherwydd y penderfyniad a wnaed yn lleol i beidio â chodi tâl ar ôl 10 y bore. Mae nifer o feysydd yn tanwario mewn adeiniau eraill yn gwneud yn iawn am orwariant yn y meysydd uchod. Rhagwelir o hyd y bydd tanwariant o £50k o ran gwaith stryd. Mae tanwariant o £50k ar gefnogaeth adrannol o ganlyniad i swydd wag ac arbedion mewn costau trafnidiaeth ac mewn costau cyflenwadau a gwasanaethau. Hefyd mae tanwariant mewn Cludiant Cyhoeddus a Chludiant Cymunedol Môn o ganlyniad swyddi gweigion am ran o'r flwyddyn a gostyngiad cyffredinol mewn cyflenwadau a gwasanaethau.

**3.6.1.3** Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gorwariant o £30k yn y gyllideb gwaith sy'n cynnwys gwaith cynnal a chadw'r gaeaf a difrod stormydd. Gan y gall tywydd y gaeaf effeithio ar y gyllideb hon, mae'n anodd rhagweld yn gywir a fydd y ffigur hwn yn cael ei effeithio rhwng nawr a diwedd y flwyddyn. Gallai unrhyw gostau gaeaf sylweddol waethygu'r alldro a amcangyfrifwyd y chwarter hwn, fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £54k sydd ar gael i helpu i gyllido unrhyw gostau sylweddol a allai godi yn ystod y gaeaf.

#### **3.6.2 Gwastraff**

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £478k (833%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir y bydd tanwariant o £290k (3.61%) yn y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn gynydd o £85k ar y tanwariant o £205k a ragwelwyd yn chwarter 2. Gyda Pharc Adfer bellach yn cael ei ddefnyddio, rhagwelir y bydd tanwariant o £150k ar Waredu Gwastraff yn chwarter 2 yn cynyddu i danwariant o £250k yn chwarter 3. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn manteisio ar gyfradd is fesul tunnell o wastraff ers dod yn bartner ym mhartneriaeth Parc Adfer gyda phedwar awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru.

- 3.6.2.2** Mae'r rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gorwariant ar gasglu gwastraff (£210k), toiledau cyhoeddus (£10k), Gweinyddu (£10k) a thanwariant sy'n gwneud yr iawn am hyn o fewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth. Bu cynnydd yn y gorwariant ar Gasglu Gwastraff o £150k i £210k o ganlyniad i gynnydd mewn costau a chostau cysylltiedig ar gyfer gweithredu'r contract newydd. Disgwylir i'r gorwariant ar doiledau cyhoeddus wella o £10k, i orwariant o £10k yn sgil grant gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyllido'r costau Covid-19. Yn flaenorol, rhagwelwyd y byddai gorsaf gynhyrchu trydan Penhesgyn yn sicrhau cyllideb gytbwys ond bellach, disgwylir tanwariant o £30k. Rhagwelir tanwariant o £350k ar ailgylchu, mae hyn yn gynnydd o £260k o'r tanwariant o £90k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae'r tanwariant ar ailgylchu yn deillio o swydd wag, incwm dros ben o ddeunyddiau eildro a llai o wariant ar gyflenwadau a gwasanaethau, yn ogystal â bod yr adran wedi llwyddo i wneud cais am gyllid ychwanegol drwy'r Grant Economi Cylchol. Yn flaenorol, roedd disgwyl i'r gwasanaeth glanhau danwario o £10k yn chwarter 2, ond rhagwelir y bydd bellach yn tanwario £40k oherwydd y contract glanhau.
- 3.6.2.3** Bydd y tanwario ar ailgylchu yn caniatáu i £200k gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodol y Cyngor, a sefydlwyd i ddarparu cyllid i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan y Cyngor ar 8 Medi 2020.

### **3.6.3 Eiddo**

- 3.6.3.1** Sefyllfa'r Gwasanaeth am y cyfnod yw tanwariant o £198k (43.69%), ond rhagwelir gorwariant o £141k (15.82%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant cymedrol o gymharu â'r gorwariant o £156k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.
- 3.6.3.2** Y prif reswm am y gorwariant rhagamcanol yn y gwasanaethau Eiddo yw rhagolwg bydd tangyflawni ffioedd proffesiynol wedi'u cyfalafu gan £160k oherwydd yr oedi yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd i'w briodoli'n rhannol i'r nod clo. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf o fewn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi lleihau'r gwaith sy'n ennill ffi o fewn Eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith hwn gynyddu yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan fydd prosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynd rhagddynt. Mae gwariant cyfleustodau yn is na'r disgwyl, a fydd yn darparu tanwariant o £10k ar gyfer y flwyddyn ariannol.

### **3.7 Trawsnewid**

- 3.7.1** Roedd gorwariant o £115k (10.17%) yn y swyddogaeth Trawsnewid am y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £201k (13.74%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £25k ar y tanwariant o £176k a ragwelwyd ar gyfer chwarter 2.
- 3.7.1.1** Roedd tanwariant o £115k (17.76%) yn y swyddogaeth AD yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £185k (13.74%) erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n debyg i'r hyn a adroddwyd yn chwarter 2. Disgwylir i swyddi gweigion greu tanwariant o £36k. Rhagwelir y bydd tanwariant o £150k ar hyfforddiant canolog. Mae hyn oherwydd i'r feirws Covid-19 atal hyfforddiant arferol rhag digwydd.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £117k (5.08%) yn yr Adain TGCh am y cyfnod a disgwylir gorwariant o £136k (4.87%) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn hanesyddol, mae cyllidebau meddalwedd wedi bod yn annigonol ac mae disgwyl o hyd y bydd gorwariant o £137k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cynyddu trwyddedau Citrix a VASCO i ganiatáu gweithio gartref ar raddfa eang yn ystod y nod clo a thu hwnt wedi cynyddu'r pwysau ar y gyllideb ymhellach, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r Cyngor drwy ddarparu 50% tuag at y costau TGCh ychwanegol. Rhagwelir gorwariant o £199k yn y swyddogaeth, sy'n cynnwys caledwedd a'r rhwydwaith, mae hyn yn cael ei leihau gan danwariant o £146k ar gostau staffio ac asiantaethau ac ymgynghori, ynghyd â £20k ar Cyswllt Môn.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £117k (19.79%) yn Trawsnewid Corfforaethol am y cyfnod a disgwylir tanwariant o £152k (17.81%) erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n gynydd o £48k yn y tanwariant ers chwarter 2. Disgwylir i holl feysydd y gyllideb danwario, gyda'r tanwariant mwyaf sylweddol yn £58k ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd. Rhagwelir y bydd tanwariant o £60k ar Cyswllt Môn, yn bennaf ar gostau staffio.

### **3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £54k (2.112%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod, a'r alldro rhagamcanol yw tanwariant o £96k (3.09%). Mae hyn yn welliant ar y gorwariant o £66k a ragwelwyd yn chwarter 2, o ganlyniad i dderbyn grant ar gyfer gweinyddu grantiau Covid.

**3.8.2** Disgwylir gorwariant o £46k ar Refeniw a Budd-daliadau am y flwyddyn oherwydd gostyngiad o £153k mewn incwm costau llys. Mae'r adain Gyfrifeg yn edrych ar orwariant o £71k, yn bennaf oherwydd taliadau banc o £36k. Disgwylir gorwariant o £51k ar staff Cyfrifeg a rhagwelir y bydd diffyg o £16k ar incwm staff grant oherwydd bod y tîm grantiau wedi'i adleoli i wneud gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19. Disgwylir tanwariant o £59k yn yr adain Archwilio Mewnol sy'n deillio o swyddi gwag. Disgwylir tanwariant o £154k yn yr adain Caffael oherwydd eu mentrau caffael, h.y. cyllidebau prynu wedi eu canoli ac ad-daliadau ar gardiau caffael.

### **3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £100k (8.43%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir y bydd tanwariant o £13k (0.78%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynydd o £7k ar y tanwariant a adroddwyd yn ystod chwarter 2.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £19k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n llai na'r gorwariant o £25k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i adennill lefelau incwm ar ôl y cyfnod clo. Disgwylir gorwariant o £14k ar staff asiantaethau i lenwi swyddi gwag/absenoldebau staff yn yr Adran Gyfreithiol.

**3.9.3** Yn yr un modd, mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn rhagweld llai o gostau yn chwarter 3, gyda'r tanwariant wedi cynyddu o £2k i danwariant o £32k. Rhagwelir tanwariant ym mhob un o'i swyddogaethau, gyda'r tanwariant mwyaf o fewn gwasanaethau'r Pwyllgorau (£26k).

### **3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd gorwariant o £50k (1.93%) yn y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd ar gyfer y cyfnod, a'r sefyllfa a ragwelir yw y bydd gorwariant o £61k (2.19%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £110k ar y gorwariant o £171k a ragwelwyd yn chwarter 2.

**3.10.2** Mae yna adeiniau yn yr adran sy'n rhagweld gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn, tra bod tanwariannau sy'n gwneud i fyny am hynny mewn adeiniau eraill. Mae'r prif feysydd sy'n peri pryder yn y maes Corfforaethol arall, a disgwylir gorwariant o £133k o gymharu â £227k yn ystod chwarter 2. Mae hyn oherwydd costau pensiwn hanesyddol cynyddol o £148k yn dilyn prisio'r gronfa bensiwn, sy'n cael ei wneud bob tair blynedd, ym mis Mawrth 2019. Disgwylir gorwariant o £24k ar gostau cwnsela staff, er bod y swm yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn chwarter 2. Disgwylir tanwariant o £25k ar yr ardoll prentisiaid a rhagwelir tanwariant o £56k ar gostau cefnogi Aelodau a threuliau. Mae hyn yn gynydd o £21k yn y tanwariant a ddisgwyliwyd yn chwarter 2 oherwydd bod cyfarfodydd ar-lein yn cael eu cynnal yn sgil cyfyngiadau Covid-19.

### **3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd tanwariant o £33k (7.07%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £43k (6.87%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ymwneud â'r gyllideb weddilliol yn dilyn ailstrwythuro'r tîm rheoli yn 2019/20 a thanwariant bychan ar gludiant a chyflenwadau swyddfa cyffredinol.

## **4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Disgwylir gorwariant o £160k (0.93%) ar Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant o £142k ar fudd-daliadau a roddwyd o ganlyniad i gynydd yn y nifer sy'n hawlio dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oherwydd cynnydd yn y nifer sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn sgil effeithiau economaidd yr argyfwng Covid-19, er y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i dalu cyfran o'r gost ychwanegol hon.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, sy'n dod i gyfanswm o £1,115k. Mae'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn £371.5k, ar gyfer pwysau cyllidebol ad-hoc annisgwyl a gyfyd yn ystod y flwyddyn. Mae cyllideb wrth gefn cyflogau a graddio o £150k wedi'i chynnwys ar gyfer costau cyflogau a graddio nad oes cyllideb ar eu cyfer, megis taliadau diswyddo. Roedd cyllidebau wrth gefn gwerth £593k wedi'u cynnwys yn y gyllideb a gellir ond eu defnyddio ar gyfer y costau a gymeradwywyd. Cynhwyswyd £251k ar gyfer galw ychwanegol yn y Gwasanaethau Oedolion ac mae hwn wedi cael ei ddefnyddio'n barod i gyllido cynnydd mewn galw am wasanaethau i'r Henoed. Cynhwyswyd cyllideb wrth gefn risg o £235k yn y gyllideb hefyd i gyfrannu at gostau unrhyw ddyfarniad cyflog ar gyfer 2020/21 sydd yn uwch na'r 2% ychwanegol y cyllidebwyd ar ei gyfer wrth osod y gyllideb. Erbyn hyn, cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 2.75%. Bydd hyn yn golygu cost ychwanegol o £340k i'r Cyngor, felly, bydd y gyllideb wrth gefn risg yn cael ei defnyddio tuag at y dyfarniad cyflog. Bydd y balans o £105k yn cael ei gyllido o'r gyllideb wrth gefn cyflogau a graddio. Yn dilyn hynny, gwnaed dyraniad ychwanegol o £115k i'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer gweithgareddau adfer yn sgil Covid-19. Roedd hyn yn cynyddu cyfanswm y cyllidebau wrth gefn i £1,230k. Mae yna gronfeydd wrth gefn llai hefyd ar gyfer y Bid Twf Rhanbarthol, STEM a gweithwyr ar eu pen eu hunain. Mae Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r gyllideb wrth gefn ac mae'n dangos fod £166k wedi'i drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.



## **5. Casglu'r Dreth Gyngor**

- 5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2019. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Gasglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor £556k yn brin o'r targed oherwydd erydiad parhaus i sail y dreth yn sgil nifer sylweddol o eiddo hunanarlwyo yn trosglwyddo i drethi busnes. Mae Covid-19 yn cael effaith hefyd ar gasglu'r Dreth Gyngor a chynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg i adlewyrchu'r effaith hwn.
- 5.2** Mae'n bosibl y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad dreth gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £282k yn uwch na'r gyllideb. Mae'r gwarged hwn yn is na'r disgwyl ar ôl diddymu'r premiwm am 6 mis o ganlyniad i bandemig Covid.

## **6. Arbedion Cyllidebol 2020/21**

- 6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £307k o gyllidebau'r gwasanaethau ar gyfer 2020/21. Mae £244k o'r arbedion hyn yn debygol o gael eu cyflawni, fodd bynnag, ni ddisgwylir i £63k o arbedion gael eu cyflawni. Bydd y diffyg mwyaf sylweddol yn y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, lle y bydd yn anodd cyflawni £57k o arbedion yn ymwneud ag incwm meysydd parcio oherwydd oedi a achoswyd gan y pandemig Coronafeirws. Ceir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## **7. Buddsoddi i Arbed**

- 7.1** Ymgwymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £814k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2020/21. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nac eraill, er bod y pandemig coronafeirws wedi effeithio ar y cynnydd a wneir i gwblhau'r prosiectau hyn. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Os na fydd prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2021/22 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## **8. Costau Asiantaethau ac Ymgynghori**

- 8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £470k ar staff Asiantaeth gyda'r costau uchaf yn y maes gofal cymdeithasol. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.
- 8.2** Gwariwyd £104k ar wasanaethau ymgynghori yn chwarter 3, ac roedd hyn yn sylweddol is na'r £227k a wariwyd ar wasanaethau ymgynghori yn ystod chwarter 3 y llynedd. Mae hyn oherwydd bod y cyfyngiadau Coronafeirws wedi arwain at oedi mewn prosiectau a ffrydiau gwaith lle mae angen defnyddio ymgynghorwyr. Mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth a gwybodaeth ychwanegol am y gwariant i'w gweld yn Atodiad E.

## 9. Cyllid Grant Covid-19 gan Lywodraeth Cymru hyd yma

9.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â chostau ychwanegol ac incwm a gollwyd ar gyfer eitemau'n gysylltiedig â Choronafeirws. Oni bai am y cyllid hwn, byddai'r alldro a ragwelir yn orwariant sylweddol. Dengys Tabl 2 isod fod y Cyngor wedi hawlio £4.182m ar gyfer costau ychwanegol yn deillio o'r pandemig yn ystod y tri chwarter cyntaf. Nid oedd £69k yn gymwys, ond ystyriwyd bod £4.113m yn gymwys ac mae £3.793m wedi cael ei dalu i'r Cyngor yn barod, sy'n gadael balans o £0.320m yn weddill ar gyfer chwarter 2 a 3. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cyllid grant hwn yn cael ei ymestyn i chwarter 3 a 4 y flwyddyn ariannol hon.

**Tabl 2 - Gwariant cysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill a Medi 2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

	Gwas.Cym. Oedolion £'000	Marwolaethau Ychwanegol £'000	Prydau		Di- gartrefedd £'000	Glanhau Ysgolion £'000	Cefnogaeth Gymunedol £'000	TG/Gweithio Gartref £'000	Hunan ynysu £'000	Ychwanegiad SSP £'000	Cyfanswm £'000
			Ysgol an ddim £'000	Cyffredinol £'000							
Hawliwyd	1,390	23	695	1,262	459	69	69	168	42	5	4,182
Ni chaniatawyd	1	0	9	14	0	0	36	9	0	0	69
<b>Balans Dyledus</b>	<b>1,389</b>	<b>23</b>	<b>686</b>	<b>1,248</b>	<b>459</b>	<b>69</b>	<b>33</b>	<b>159</b>	<b>42</b>	<b>5</b>	<b>4,113</b>
Talwyd	1,267	20	585	1,202	445	46	33	159	36	0	3,793
<b>Balans yn Weddill</b>	<b>122</b>	<b>3</b>	<b>101</b>	<b>46</b>	<b>14</b>	<b>23</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>6</b>	<b>5</b>	<b>320</b>

## 9.2 Incwm a gollwyd oherwydd Cyfyngiadau Covid-19 a Gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae incwm y Cyngor wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, megis cau canolfannau Hamdden a'r effaith ar ffioedd meysydd parcio yn ystod y Cyfyngiadau Symud a'r Cyfnod Atal Byr a'r Cyfnod Clo, presennol. Mae risg hefyd y gosodir cyfyngiadau pellach er mwyn helpu i leihau lledaeniad Covid-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am incwm cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Mae'r Cyngor wedi hawlio £1,783k gan Lywodraeth Cymru o hynny mae £20k wedi ei wrthod. Mae £1,357k wedi ei dalu hyd yma a disgwylir i £406k arall gael ei dalu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 30 Rhagfyr 2020 i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Colli Incwm o Wasanaethau yn ystod y Pandemig**

Crynodeb	Morwrol £'000	Amgueddfeydd £'000	Hamdden £'000	Lleoedd Agored £'000	Addysg £'000	Gwaredu Gwastraff £'000	Meysydd Parcio £'000	Gwasan aethau Oedolion £'000	Gwarchod y Cyhoedd £'000	Incwm Rhent £'000	March nadoedd a Chlybiau teithio £'000	Cyfanswm £'000
Hawliwyd	37	125	844	6	317	2	242	33	116	49	12	1,783
Ni chaniatawyd	0	0	0	0	0	0	0	20	0	0	0	20
<b>Balans Dyledus</b>	<b>37</b>	<b>125</b>	<b>844</b>	<b>6</b>	<b>317</b>	<b>2</b>	<b>242</b>	<b>13</b>	<b>116</b>	<b>49</b>	<b>12</b>	<b>1,763</b>
Talwyd	37	89	618	6	274	2	222	13	37	49	10	1,357
<b>Balans yn Weddill</b>	<b>0</b>	<b>36</b>	<b>226</b>	<b>0</b>	<b>43</b>	<b>0</b>	<b>20</b>	<b>0</b>	<b>79</b>	<b>0</b>	<b>2</b>	<b>406</b>

## 10. Casgliad

- 10.1** Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd arferol y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau yn 2020/21 ac, felly, nid yw'r perfformiad ariannol yn adlewyrchu'r hyn fyddai'n digwydd mewn blwyddyn arferol. Mae'r tanwariant rhagamcanol o £1.47m i'w groesawu ac mae'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen, ond ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylid nodi bod yr £1.47m yn dal i fod yn amcanestyniad a gallai nifer o faterion effeithio ar y ffigur alldro terfynol, gan gynnwys y galw am wasanaethau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn a swm y Dreth Gyngor na fydd y Cyngor yn gallu ei chasglu yn y pen draw.
- 10.2** Mae'r sefyllfa ar gyfer 2021/22 hefyd yn ansicr h.y. pa mor gyflym y bydd y Cyngor yn gallu symud allan o'r cyfnod clo symud a darparu'r lefel arferol o wasanaeth a chynhyrchu'r lefel incwm a gyllidebwyd. Mae'r cymorth ariannol parhaus gan Lywodraeth Cymru yn ffactor pwysig i'w ystyried h.y. os bydd y costau ychwanegol a'r incwm a gollir yn sgil y pandemig yn parhau ar y lefel bresennol am gyfnod sylweddol ac os na all Llywodraeth Cymru ddarparu'r un lefel o gymorth ariannol, yna bydd yn rhaid i'r Cyngor gyllido'r costau ychwanegol hyn o'i gronfeydd wrth gefn ei hun, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal cronfeydd cyffredinol a neilltuedig digonol.

**Alldro refeniw Rhagamcanedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2021 – Chwarter 3**

Gwasanaeth/Swyddogaeth	Cyllideb Flynyddol 2020/21	Ch3 2020/21 Cyllideb hyd yma	Ch3 Gwariant gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo	Ch3 2020/21 amrywiant	Q3 gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo	Ch3 Amcan wariant i 31 Mawrth 2021	Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2021 gor/(tan) wariant yn Ch3	Rhagamcan gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2020/21	Ch 2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant	Gor/(tan) wariant Drafft y Flwyddyn Ddiwethaf 2019/20 (yn amodol ar Archwiliad)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000	£'000
<b><u>Dysgu gydol Oes</u></b>										
Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion	47,579	36,799	35,378	(1,422)	-3.86%	47,579	0	0.00%	0	0
Addysg Ganolog	4,748	1,401	781	(620)	-44.27%	3,470	(1,278)	-26.91%	(1,041)	(272)
Diwylliant	1,285	1,074	930	(144)	-13.36%	1,339	54	4.20%	74	29
<b><u>Gwasanaethau Oedolion</u></b>	26,911	9,548	20,631	1,083	5.54%	26,616	(295)	-1.10%	(309)	1,085
<b><u>Gwasanaethau Plant</u></b>	10,951	8,271	8,562	291	-3.52%	10,735	(216)	-1.97%	(543)	156
<b><u>Tai</u></b>	1,168	1,471	1,451	(20)	-1.34%	1,143	(25)	-2.14%	(25)	(77)
<b><u>Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo</u></b>										
Priffydd	6,287	5,547	5,497	(50)	-0.90%	6,270	(17)	0.27%	6	(192)
Eiddo	891	453	255	(198)	-43.69%	1,032	141	15.82%	156	44
Gwastraff	8,030	5,741	5,263	(478)	-8.33%	7,540	(290)	-3.61%	(205)	(208)
<b><u>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u></b>										
Datblygu Economaidd	1,882	1,635	1,472	(163)	--9.98%	1,857	(25)	-1.33%	15	0
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,131	1,670	1,488	(182)	-10.93%	2,068	(63)	-2.96%	62	(117)
<b><u>Trawsnewid</u></b>										
Adnoddau Dynol	1,346	1,129	1,014	(115)	-10.17%	1,161	(185)	-13.74%	(185)	(35)
TGCh	2,794	2,300	2,417	117	5.08%	2,930	136	4.87%	113	(85)

Gwasanaeth/Swyddogaeth	Cyllideb Flynyddol 2020/21	Ch3 2020/21 Cyllideb hyd yma	Ch3 Gwariant gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo	Ch3 2020/21 amrywiant	Q3 gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo	Ch3 Amcan wariant i 31 Mawrth 2021	Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2021 gor/(tan) wariant yn Ch3	Rhagamcan gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2020/21	Ch 2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant	Gor/(tan) wariant Drafft y Flwyddyn Ddiwethaf 2019/20 (yn amodol ar Archwiliad)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000	£'000
Trawsnewid Corfforaethol	853	592	475	(117)	-19.79%	701	(152)	-17.81%	(104)	(192)
<b>Adnoddau</b>	3,109	2,546	2,492	(54)	-2.11%	3,013	(96)	-3.09%	66	(170)
<b>Busnes y Cyngor</b>	1,669	1,181	1,082	(100)	-8.43%	1,656	(13)	-0.78%	(6)	(2)
<b>Costau Corfforaethol a Democrataidd</b>	2,785	2,575	2,625	50	1.93%	2,846	61	2.19%	171	(99)
<b>Rheolaeth Gorfforaethol</b>	626	468	435	(33)	-7.07%	583	(43)	-6.87%	(40)	(70)
Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu dyledion drwg/lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau						400	400	0.00%	200	241
<b>Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth</b>	<b>125,046</b>	<b>94,403</b>	<b>92,247</b>	<b>(2,155)</b>	<b>-2.28%</b>	<b>122,740</b>	<b>(1,746)</b>	<b>-1.23%</b>	<b>(1,595)</b>	<b>36</b>
Ardollau	3,599	3,599	3,599	0	0.00%	3,599	0	0.00%	0	0
Rhyddhad Treth Dewisol	95	0	0	0	0.00%	116	21	22.11%	13	11
Cyllido Cyfalaf	6,939	3,068	2,098	(970)	31.63%	6,036	(3)	-0.05%	16	(277)
Gyllidebau wrth gefn Cyffredinol ac Eraill	1,065	1,065	1,065	0	0.04%	1,065	0	0.00%	0	(447)
Gwasanaethau Cefnogol – Cyfraniad CRT	(700)	0	0	0	0.00%	(700)	0	0.00%	0	(86)
Budd-daliadau a Roddwyd	6,103	753	753	0	0.00%	6245	142	2.33%	210	248
<b>Cyfanswm Cyllid Corfforaethol</b>	<b>17,100</b>	<b>8,484</b>	<b>7,514</b>	<b>(960)</b>	<b>-11.43%</b>	<b>16,360</b>	<b>(160)</b>	<b>0.93%</b>	<b>239</b>	<b>(551)</b>
<b>Cyfanswm 2020/21</b>	<b>142,146</b>	<b>102,888</b>	<b>99,761</b>	<b>(3,125)</b>	<b>-3.04%</b>	<b>139,100</b>	<b>(1,746)</b>	<b>-1.23%</b>	<b>(1,356)</b>	<b>(515)</b>

Gwasanaeth/Swyddogaeth	Cyllideb Flynyddol 2020/21	Ch3 2020/21 Cyllideb hyd yma	Ch3 Gwariant gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo	Ch3 2020/21 amrywiant	Q3 gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo	Ch3 Amcan wariant i 31 Mawrth 2021	Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2021 gor/(tan) wariant yn Ch3	Rhagamcan gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2020/21	Ch 2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 Gor/(tan) wariant	Gor/(tan) wariant Drafft y Flwyddyn Ddiwethaf 2019/20 (yn amodol ar Archwiliad)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000	£'000
<b>Cyllido</b>										
Trethi Annomestig	(24,313)	(18,702)	(19,722)	0	0.00%	(24,313)	0	0.00%	0	0
Y Dreth Gyngor	(39,749)	0	0	0	0.00%	(39,193)	556	-1.53%	608	207
Premiwm y Dreth Gyngor	(1,393)	0	0	0	0.00%	(1,675)	(282)	29.01%	(404)	
Grant Cynnal Refeniw	(76,692)	(58,993)	62,212)	0	0.00%	(76,692)	0	0.00%	0	0
<b>Cyfanswm Cyllid 2020/21</b>	<b>(142,146)</b>	<b>(77,695)</b>	<b>(81,934)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(141,872)</b>	<b>274</b>	<b>-0.19%</b>	<b>204</b>	<b>207</b>
<b>Cyfanswm yr alldro yn cynnwys efaith y cyllido</b>	<b>0</b>	<b>25,192</b>	<b>17,827</b>	<b>(3,125)</b>	<b>-12.40%</b>	<b>(2,772)</b>	<b>(1,472)</b>	<b>-1.04%</b>	<b>(1,152)</b>	<b>(308)</b>

Crynodeb o'r Sefyllfa Alldro ar Gyllidebau wrth gefn 2020/21

	Cyllideb £	Trosglwyddiadau £	Cyllideb Ddiwygiedig hyd yma £	Ymrwymedig hyd yma £	Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma £	Rhagolwg Cyllideb £
Cyllideb Wrth gefn Cyffredinol	371,550	- 90,200	281,350	53,560	227,790	-
Cyflogau a Graddio Cronfa Wrth Gefn	150,000	- 12,727	137,273	9,037	128,236	-
Clusnodedig	708,770	- 62,800	645,970	-	645,970	-
<b>Cyfanswm Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Arall</b>	<b>1,230,320</b>	<b>-165,727</b>	<b>1,064,593</b>	<b>62,597</b>	<b>1,001,996</b>	<b>0</b>

**Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21**

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Dyranriad ar gyfer 2020/21 £	Gwariwyd 2020/21 £	Cyllideb sy'n Weddill 2020/21 £	Balans ar 31 Rhagfyr 2020 £	Diweddariad
Adnoddau	System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau	Datrysiaid sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau	170,000	0	0	0	0	Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach.
TG	Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG)	Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor	10,800	0	0	0	0	Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach.
TG / Trawsnewid	System Rheoli Cysylltiadau gyda'r Cwsmer (CRM)	Prynu a gweithredu system CRM	255,000	100,132	53,456	46,676	46,676	Mae'r CRM yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth gyda rhan 2 o grantiau cymorth busnes yn cael eu gweinyddu drwy'r system yn ogystal â system archebu ar gyfer mynychu Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref. Mae'r CRM yn cael ei integreiddio ar hyn o bryd â'r llinell o system fusnes a ddefnyddir gan y contractwr a benodir i'r contract casglu gwastraff ar gyfer yr Awdurdod. Mae Covid wedi effeithio ar gynnydd ar ffurflenni eraill ond mae gwaith ar ffurflenni eraill fel y'i henwebwyd gan y Bwrdd Trawsnewid yn parhau lle bo hynny'n bosibl. Y wybodaeth ddiweddaraf - Mae'r integreiddio â'r systemau gwastraff yn mynd rhagddo'n dda ac yn gynt na'r amserlen ar gyfer datblygu, mae derbyn taliad casglu Gwastraff Gwyrdd a chreu contractau yn fyw yn y CRM ac mae dros 500 o daliadau wedi'u gwneud ers eu lansio ym mis Tachwedd.
TG / Adnoddau	Porth Taliadau	Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap	27,000	13,583	0	13,583	13,583	Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach.



Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Dyraniad ar gyfer 2020/21 £	Gwariwyd 2020/21 £	Cyllideb sy'n Weddill 2020/21 £	Balans ar 31 Rhagfyr 2020 £	Diweddariad
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwella gwydnwch y systemau Cynllunio	Systemau cynllunio awtomataidd newydd	118,000	15,374	0	15,374	8,047	Yn anffodus, collwyd y dyddiad 'mynd yn fyw' a drefnwyd ar gyfer Enterprise oherwydd gwallau ac anawsterau annisgwyl o fewn y system yr oedd angen eu datrys. Felly, mae'r profion wedi parhau gyda dyddiad arfaethedig newydd o ddechrau mis Ebrill i 'fynd yn fyw'. Mae gwaith ar y gweill hefyd i gynnwys modiwl Gorchymyn Cadw Coed newydd a modiwl adrodd Ash Die Back o fewn Salesforce yn ogystal â gwaith i hwyluso anfon copïau o hysbysiadau penderfyniadau cynllunio yn awtomatig drwy e-bost yn uniongyrchol o'r system at Aelodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Mae'r holl Staff Cynllunio hefyd wedi cael ffôn symudol gwaith i alluogi gweithio o bell yn well ac effeithlon.
Adnoddau	Gwella Systemau Casglu Arian	Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) gysylltu i'r system rheoli arian	150,000	42,799	30,459	12,340	12,340	Mae'r gyllideb bellach wedi ei hymrwymo'n llawn o fewn y gyllidebau bid. Ail ddechreuwyd gwaith gweithredu yn ystod Chwarter 2 yn dilyn diwedd cyfnod ffyrlo rhai swyddogion prosiect Capita ac roedd cynnydd yn Chwarter 3. Mae gwaith profi'r ffolder allforio GL y gellir ei wneud gartref bron wedi ei gwblhau ac mae trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith profi lle na ellir ei wneud gartref. Unwaith mae hyn wedi ei gwblhau, gellir dechrau gweithredu cysoni incwm / e-ddychweliadau, sy'n cynnwys prosesau newydd i'r gwasanaethau a datganiadau banc electronig pwrpasol gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomeiddio pellach yn symud ymlaen drwy ddatblygu API's i alluogi diweddariad incwm awtomatig drwy'r system rheoli incwm ar gyfer gwasanaethau mewnol megis hamdden, addysg a priffyrdd ac yn allanol ar gyfer DWP. Bydd y gwaith gweithredu yn parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf o ganlyniad i Covid-19 achosi oedi a gwaith ail-dendro rhai prosesau meddalwedd gan wasanaethau mewnol. Bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl.

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Dyraniad ar gyfer 2020/21 £	Gwariwyd 2020/21 £	Cyllideb sy'n Weddill 2020/21 £	Balans ar 31 Rhagfyr 2020 £	Diweddariad
Dysgu Gydol Oes	Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad - Addysg	Gweithredu modiwlau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn y system Rheoli Gwybodaeth ONE	67,000	0	0	0	0	Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach.
Dysgu Gydol Oes	Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad - Oriol Môn	Gwefan ar gyfer yr Oriol	20,000	11,474	0	11,474	11,474	Bu rhywfaint o oedi gyda'r cwmni a Covid-19. Mae'r wefan a'r siop ar-lein a'r system EPOS bellach i gyd yn fyw ac mae'r anfonebau sy'n weddill yn cael eu talu lonawr 2021 (Chwarter 4).
TG / Trawsnewid	Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig	Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol	£70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2	50,000	51,463	-1,463	47,667	Mae'r ddau Dechnegydd Digidol Dros Dro yn parhau â'r gwaith datblygu ar y ffurflenni a'r ffurflenni ategol a ddatblygwyd ar gyfer cymorth Covid.
Gwarchod y Cyhoedd	Gwella Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrasiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 Gyngor yng Nghymru.	£10,000 y flwyddyn an 4.5 blwyddyn	10,000	0	10,000	45,000	Dim cynnydd i'w adrodd yn 2020/21. Oherwydd Covid-19 a phwysau ar Ddiogelu'r Cyhoedd, ni fu unrhyw allu i frw ymlaen.
<b>Cyfanswm</b>				<b>243,362</b>	<b>135,378</b>	<b>107,984</b>	<b>184,787</b>	

Adolygu Arbedion Effeithlonrwydd 2020/21

Gwasanaeth/Swyddogaeth	Arbedion Cyllidol 2020/21  £'000	Arbedion y mae modd eu cyflawni 2020/21  £'000	Arbedion y mae'n bosib na fyddant yn cael eu cyflawni 2020/21  £'000	Sylwadau
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	68	11	57	<p>Ar hyn o bryd, mae arbedion o £10k yn annhebygol o gael eu cyflawni drwy leihau'r gost o redeg fflyd cerbydau'r Cyngor drwy fuddsoddi mewn cerbydau sy'n defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon a gwella gweithdrefnau gweinyddu er mwyn lleihau amser lle ni ddefnyddir hwy. Y rheswm am hyn yw'r gostyngiad sylweddol yn y defnydd o gerbydau fflyd oherwydd Covid-19. Derbyniwyd pedwar cerbyd LPG ym mis Gorffennaf a fydd yn fwy effeithlon o ran tanwydd ond ni fydd y budd yn cael ei wireddu tan y flwyddyn ariannol nesaf.</p> <p>Mae arbediad o £47k drwy gynyddu ffioedd meysydd parcio hefyd yn annhebygol o gael ei gyflawni. Mae arbediad yn dibynnu ar:-</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gweithredu opsiwn ddi-arian parod ond gohiriwyd hyn tan 3 Awst oherwydd Covid-19.</li> <li>2. Cynnydd mewn prisiau - caewyd meysydd parcio yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol oherwydd cyfyngiadau Covid. Ailagorwyd pob un ohonynt wedyn ond penderfynodd EMRT beidio â gweithredu taliadau mewn meysydd parcio trefol tan ddiwedd mis Medi er mwyn annog defnydd o Ganol Trefi. Yn ogystal, mae'r Grŵp Llywio Parcio wedi penderfynu peidio â gweithredu taliadau newydd tan 2021-22. Gan mai penderfyniadau lleol yw'r rhain, ni fydd y golled incwm yn gymwys yn llawn ar gyfer grant Covid-19 Llywodraeth Cymru. Nod y Gwasanaeth fydd amsugno'r diffyg drwy danwariant mewn manau eraill o fewn y gyllideb Priffyrdd.</li> </ol> <p>Mae arbediad o £11k drwy aildrefnu rota y tu allan i oriau'r tîm atgyweirio eiddo ar y trywydd iawn i'w gyflawni'n llawn.</p>
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	65	59	6	<p>Mae arbediad o £22k wedi'i weithredu'n llawn drwy leihau capasiti gweinyddol y Tîm Rheoli Datblygu. Cyflawnwyd hyn gan y buddsoddiad diweddar yn y system gynllunio.</p> <p>Mae'n annhebygol y bydd y cynnydd disgwylidig mewn incwm o £1k yn cael ei gyflawni o ystyried y pandemig presennol a'i effaith ar gynulliadau a digwyddiadau grŵp.</p> <p>Mae arbediad o £37k drwy ddileu gweddill y gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored ar ôl trosglwyddo'r asedau o reolaeth y Cyngor wedi'i gyflawni'n llawn.</p> <p>Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer gwasanaethau morol wedi cynyddu, er nad yw'r arbediad o £5k yn debygol o gael ei gyflawni oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 a byrhau'r tymor agored.</p>

Gwasanaeth/Swyddogaeth	Arbedion Cyllidol 2020/21  £'000	Arbedion y mae modd eu cyflawni 2020/21  £'000	Arbedion y mae'n bosib na fyddant yn cael eu cyflawni 2020/21  £'000	Sylwadau
Tai	101	101	0	<p>Cyflawnwyd arbediad o £27k drwy ddileu swydd wag Swyddog Datblygu Strategol.</p> <p>Mae arbedion o £4k drwy leihau cost cymorth gweinyddol i'r Pennaeth Tai yn cael eu cyflawni.</p> <p>Bydd arbediad o £36k drwy gyfalafu'r costau staffio sy'n gysylltiedig â darparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei gyflawni.</p> <p>Mae'r arbedion a gynigiwyd o £19k drwy addasu'r taliadau i'r Cyfrif Refeniw Tai i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yn debygol o gael eu cyflawni yn ystod yr adolygiad diwedd blwyddyn.</p> <p>Nododd adolygiad o'r gyllideb gwasanaeth £15k o gyllideb nas defnyddiwyd sydd bellach wedi'i dileu. Nid oedd gorwariant ar ddiwedd C2, felly, mae'r arbediad hwn yn cael ei gyflawni.</p>
Trawsnewid	5	5	0	Cydnabuwyd arbediad o £5k drwy ddileu cyllidebau ar gyfer llinellau ffôn defnydd isel a ffonau symudol. Nid oes unrhyw arbedion llinell pellach wedi'u nodi hyd yma ond os na chanfuwyd hynny, darganfyddir yr arbedion o fannau eraill yng nghyllideb yr adran, fel yn 2019/20.
Adnoddau	60	60	0	<p>Cynigiwyd arbediad o £10k drwy leihau cyllidebau postio o ganlyniad i fuddsoddiadau yn y systemau Cyflogres a Budd-dal Tai sydd wedi caniatáu trosglwyddo gwybodaeth yn electronig yn hytrach na phostio dogfennau papur. Mae'r gwariant ar gyfer C2 ychydig yn uwch na'r gyllideb, ond mae hyn yn debygol o ganlyniad i amseriad y gwariant.</p> <p>Disgwylir i ddull corfforaethol o brynu rhai ryddhau arbediad o £50k. Mae gwariant yn C3 o fewn y gyllideb.</p>
Busnes y Cyngor	8	8	0	Disgwylir i leihau'r gost o gynnal digwyddiadau Dinesig greu arbediad o £8k am y flwyddyn. Mae gwariant yn C3 o fewn y gyllideb.
<b>Total</b>	<b>307</b>	<b>244</b>	<b>63</b>	

Costau Asiantaeth rhwng Medi a Rhagfyr 2020

Gwasanaeth	Swm £	Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas defnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol)	Parhaol / Dros Dro	Pwrpas
Economaid ag Adfywio	10,943	Grant	Dros Dro	Methu recriwtio EHO â chymwysterau llawn ar gyfer samplu bwyd
	<b>10,943</b>			
Ysgolion	1,843	Cyllideb Craidd	Dros Dro	Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol
	<b>1,843</b>			
Gwastraff	54,100	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Staff tymor byr - nid yw staff ar gael drwy'r Matrics Adnoddau Dynol
	52,745	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r Matrics Adnoddau Dynol
	38,269	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r Matrics Adnoddau Dynol
	<b>145,114</b>			
Gwasanaethau Plant	56,742	Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	109,033	Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	24,961	Cyllideb Graidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	<b>190,736</b>			
Gwasanaethau Oedolion	101,975	Cyllideb Craidd	Dros Dro	Prosiect DOLS
	17,171	Cyllideb Craidd	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	<b>85,617</b>			
Trawsnewid	13,572	Cyllideb staffio nas defnyddiwyd	Dros Dro	Mamolaeth
	<b>13,572</b>			
<b>Cyfanswm</b>	<b>470,410</b>			

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch3 2020/21**

<b>Crynodeb o Wariant Ymgynghori fesul Gwasanaeth</b>				
<b>Gwasanaeth</b>	<b>Ch1</b>	<b>Ch2</b>	<b>Ch3</b>	<b>Cyfanswm 2020/21</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Addysg Ganolog	8,685	10,033	875	<b>19,593</b>
Diwylliant	0	0	1,950	<b>1,950</b>
Economaidd ac Adfywio	1,125	36,501	54,255	<b>91,881</b>
Eiddo	0	0	0	<b>0</b>
Priffyrdd	0	17,655	6,428	<b>24,083</b>
Ysgolion	0	0	0	<b>0</b>
Gwastraff	12,883	40,257	11,033	<b>53,140</b>
CRT	0	1,200	2,500	<b>3,700</b>
Tai	0	0	600	<b>600</b>
Corfforaethol a Democrataidd	0	0	0	<b>0</b>
Gwasanaethau Oedolion	0	0	0	<b>0</b>
Gwasanaethau Plant	2,466	56	4,811	<b>7,333</b>
Corfforaethol	0	0	0	<b>0</b>
Trawsnewid	630	1,386	13,122	<b>15,138</b>
Busnes y Cyngor	11,847	2,582	0	<b>14,429</b>
Adnoddau	9,515	0	8,450	<b>17,965</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>47,151</b>	<b>109,671</b>	<b>104,023</b>	<b>260,845</b>
Cyllidwyd o:				
Cyllideb Graidd	46,016	72,640	40,379	<b>159,035</b>
Grant	630	1,386	11,018	<b>13,034</b>
Cyfraniad Allanol	505	35,645	52,626	<b>88,776</b>
Arian wrth Gefn	0	0	0	<b>0</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>47,151</b>	<b>109,671</b>	<b>104,023</b>	<b>260,845</b>

Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 3 2020/21

	Swm £	Categori – rheswm dros benodi			Ffynhonnell y Cyllid(Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol)	Disgrifiad o'r gwaith a wnaed
		Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol	Maint y gwaith	Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth		
<b>Cyfanswm Ch 1 Ebrill - Mehefin Cyfanswm Ch 2 Gorffennaf – Medi</b>	<b>47,151  109,671</b>					
Addysg Ganolog	875		✓		Craidd	Ffioedd Proffesiynol - Gwasanaeth i'r Gwasanaeth Dysgu
<b>Cyfanswm Addysg Ganolog</b>	<b>875</b>					
Diwylliant	900		✓		Cyllideb staffio nas defnyddiwyd	Gwaith Cwricwlwm wedi'i gwblhau ar gyfer Oriol Môn
	750			✓	Grant	Sgriptio ffilmiau
	300			✓	Craidd	Ailosod y cwmpawd - ffi'r comisiwn - blaendal
<b>Cyfanswm Dywylliant</b>	<b>1,950</b>					
Rheoleiddio, Economaid ac Adfywio	500			✓	Craidd	t.mewnwelediad ac agili.t.asesiadau
	2,400			✓	Allanol	Cynhyrchu dogfen ddrafft - cam 1 yr Astudiaeth o'r Effaith Economaidd
	400			✓	Allanol	Adroddiad Prisio ar Ganolfan Gymunedol Newry
	29,594	✓			Allanol	Cais Morlais TWAO
	5,311	✓			Allanol	Prosiect Morlais G2624
	846	✓			Allanol	Cymorth Ceisiadau - Glannau Caerdybi
	3,432	✓			Allanol	Wylfa - cyngor ar ôl arholiad
	2,694	✓			Allanol	Cymorth Ceisiadau - Morlais
	4,948			✓	Allanol	Gwerthusiad o Brosiectau IsadeileddSeilwaith Strategol Llangefni a Chaerdybi
	3,001			✓	Allanol	Effaith economaidd Gogledd Ynys Môn - Anfoneb Estyniad EZ Amlwch

	Swm £	Categori – rheswm dros benodi			Ffynhonnell y Cyllid(Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol)	Disgrifiad o'r gwaith a wnaed
		Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol	Maint y gwaith	Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth		
	300			✓	Craidd – Incwm Cynllunio	Annedd Gweithiwr Menter Wledig - Gwenfro Isaf Llanbedrgoch
	490			✓	Craidd	Gwiriadau strwythurol
	189	✓			Craidd	Samplu cyw iâr lemwn
	150	✓			Craidd	Gel diheintio - prawf generig
<b>Cyfanswm Economaidd a Rheoleiddio</b>	<b>54,255</b>					
<b>Pryffyrdd</b>	975			✓	Grant	Darparu Gwasanaethau Cynghori ar Ddiogelu Radiolegol
	3,953			✓	Craidd	Arolwg SCRIM 2020/2021 ar Ynys Môn 185km
	1,500			✓	Craidd	Adroddiad Adolygiad Cymheiriaid
<b>Cyfanswm Pryffyrdd</b>	<b>6,428</b>					
<b>Gwastraff</b>	1,563	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Darparu Cymorth Technegol Allanol - Caffael contract casglu a glanhau gwastraff newydd
	19	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	DUoS Offtake
	92	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Ffi Mesuryddion a Setliad
	4,845	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Cymorth Technegol Nwy Tirlenwi Penhesgyn
	375	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Tirlenwi Penhesgyn - Monitro Nwy Perimedr
	1,798	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Cais Amrywio Trwyddedau Amgylchedd Tirlenwi Penhesgyn SEMP
	1,688	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Adolygiad Darpariaeth Ariannol Safle Tirlenwi Penhesgyn
	55	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Taliadau dadansoddi
	600	✓		Gwaith Penodol	Cyllideb Graidd Benodol	Ymgymryd â gwaith ymgynghori PAS 100 ym Mhenhesgyn
<b>Cyfanswm Gwastraff</b>	<b>11,033</b>					



	Swm £	Categori – rheswm dros benodi			Ffynhonnell y Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol)	Disgrifiad o'r gwaith a wnaed
		Parhaus – i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol	Maint y gwaith	Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth		
CRT	1,500			Yes	Craidd	Tanysgrifiad Datrys Ffurflenni Deallus Perllan
	1,000			Yes	Craidd	AccuServ Orchard Connect - gwasanaethau a reolir
<b>Cyfanswm CRT</b>	<b>2,500</b>					
Tai	600			✓	Craidd	Cyflog Bwyd Da Môn
<b>Cyfanswm Tai</b>	<b>600</b>					
Gwasanaethau Plant	203			✓	Grant	Gwasanaeth Ieuenctid 15 lle - hylendid bwyd lefel 1
	4,609			✓	Grant	Diwygio Gweithlyfr presennol Hylendid Cegin Medi 2020 – CDGO11
<b>Cyfanswm Gwasanaethau Plant</b>	<b>4,811</b>					
Trawsnewid	8,640	✓			Craidd	Cefnogaeth ar gyfer system rheoli cynnwys Contensis a ddefnyddir ar gyfer y wefan gorfforaethol
	4,482	✓			Grant	Aseswr - Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant
<b>Cyfanswm Trawsnewid</b>	<b>13,122</b>					
Adnoddau	7,450	✓			Cyllideb Graidd Benodol	Contractau Cadw Gwasanaethau'r Trysorlys
	1,000			✓	Cyllideb Graidd Benodol	Gwasanaethau uwchraddio rhyddhau blynyddol 2020
<b>Cyfanswm Adnoddau</b>	<b>8,450</b>					
<b>Cyfanswm Ch3 – Hydref - Rhagfyr</b>	<b>104,023</b>					
<b>Cyfanswm Cronnus 2020/21 – Ebrill i Rhagfyr</b>	<b>260,845</b>					



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>Adroddiad i:</b>	PWYLLGOR GWAITH
<b>Dyddiad:</b>	1 MAWRTH 2021.
<b>Pwnc:</b>	ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB, TRYDYDD CHWARTER 2020/21 - CYFALAF
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS
<b>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</b>	MARC JONES (EST. 2601)
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Rhif Ffôn: E-bost:	JEMMA ROBINSON 01248 752675 JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk
<b>Aelodau Lleol:</b>	Amherthnasol
<b>A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn chwarter 3.</li> </ul>	
<b>B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?</b>	
Amherthnasol	
<b>C - Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol.</li> <li>Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.</li> </ul>	
<b>CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?</b>	
Ydi	
<b>D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</b>	
Gosod y Gyllideb Gyfalaf.	
<b>DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?</b>	
<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)</b> Mae'r adroddiad wedi cael ei adolygu gan yr UDA ac mae sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol.
<b>2</b>	<b>Cyllid / Adran 151(mandadol)</b> Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
<b>3</b>	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)</b> Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac mae'r UDA wedi ystyried ei sylwadau.
<b>4</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>
<b>5</b>	<b>Eiddo</b>
<b>6</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</b>
<b>7</b>	<b>Caffael</b>
<b>8</b>	<b>Sgriwtini</b>
<b>9</b>	<b>Aelodau Lleol</b>

## E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)

1	<b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?</b>	Mae'r gyllideb gyfalaf yn ariannu buddsoddiadau mewn asedau a seilwaith sydd raid wrthynt fel y gall y Cyngor gyflawni'r amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Gyfalaf.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol tra bydd eraill e.e.prosiectau CGC yn lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau drutach.
3	<b>A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:-</b>	Mae cyllido'r prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, yn enwedig Llywodraeth Cymru.
4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan mewn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	Mae Cynllun Corfforaethol a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21 wedi bod yn destun proses ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn.
5	<b>Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg</b>	Mae rhai o'r prosiectau a ariennir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar y rhaglen gydraddoldeb e.e. mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grantiau cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Gymraeg.

### F - Atodiadau:

Atodiad A - Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 3 2020/21

Atodiad B - Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

### FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

- Cyllideb Gyfalaf 2020/21, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2019/20, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2020; a
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 1, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Medi 2020 ac Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Tachwedd 2020

## 1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Hwn yw'r adroddiad ar fonitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi cynnydd Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.
- 1.2 Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf (a oedd yn cynnwys amcangyfrif ynghylch llithriad) o £17.050m yn 2020/21 ar gyfer gwasanaethau ac eithrio gwasanaethau tai, ynghyd â Rhaglen Gyfalaf o £ 20.255m ar gyfer y CRT. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Lithriad Cyfalaf o £12.109m i'w ddwyn ymlaen o 2019/20, gan ddod â'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau ac eithrio rhai tai i £22.336m, a £19.032m ar gyfer y CRT. Ers gosod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u hariannu gan grant, sef cyfanswm o £14.616m . Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i £ 55.984m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT YN 2020/21

- 2.1 Isod mae tabl cryno o'r gwariant Cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2020, y gyllideb broffiliedig hyd at 31 Rhagfyr 2020 a manylion am sut y cyllidir y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21: -

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Cyllideb a Broffiliwyd £'000	Gwariant Gwirionedd ol £'000	Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000	Cyfanswm Gwariant £'000	% y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario	% y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario
Tai - Cronfa Gyffredinol	1,928	872	885	0	885	102	46
Tai - CRT	19,032	7,715	7,125	230	7,355	95	39
Dysgu Gydol Oes	11,849	2,813	2,494	61	2,555	91	22
Economaidd ac Adfywio	3,844	2,001	1,895	44	1,939	97	50
Priffyrdd	7,539	3,462	3,070	168	3,237	94	43
Rheoli Gwastraff	5,399	420	14	408	422	100	8
Eiddo	2,673	1,750	1,607	1	1,609	92	60
Trawsnewid	529	264	93	94	188	71	35
Cynllunio	1,324	145	26	51	77	53	6
Gwasanaethau Oedolion	1,867	355	282	72	354	100	19
<b>Cyfanswm</b>	<b>55,984</b>	<b>19,797</b>	<b>17,491</b>	<b>1,130</b>	<b>18,622</b>	<b>94</b>	<b>33</b>
<b>Cyllidwyd gan:</b>							
Grant Cyfalaf	22,775						
Derbyniadau Cyfalaf	793						
Bethyca â Chefnogaeth	7,955						
Bethyca Digefnogaeth	6,278						
Cyfraniad Refeniw	16,163						
Cronfeydd Wrth Gefn	619						
Benthyciad	1,401						
<b>Cyfanswm Cyllido</b>	<b>55,984</b>						

- 2.2 Hyd at ddiwedd y trydydd chwarter gwariwyd 93% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 30% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb broffiliedig ar gyfer chwarter 3 wedi ei gwario, sef ar gynlluniau fel cynlluniau Lliniaru Llifogydd ym Miwmares a Phentraeth, Cynllun Seilwaith Strategol yng Nghaerdybi a Chynllun Parcio a Rhannu yn y Gaerwen. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae eu cyllidebau wedi'u proffilio tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, megis Cynlluniau Diogelwch Ysgolion, cynllun Ffyrdd Gwydn, pwyntiau gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan, y grant Economi Gylchol a'r maes chwarae antur ym Mharc y Morglawdd. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae yna nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2020/21 a rhoddir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 95% o'i gyllideb broffiliedig a 39% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd tanwariant sylweddol yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Daeth y pandemig coronafeirws â'r holl gontractau cynnal a chadw a gynlluniwyd i stop tuag at ddiwedd chwarter 4 2019/20 a bu'r safleoedd ar gau yn ystod y cyfnod clo am y rhan fwyaf o chwarter 1 2020/21. Bwriad y Gwasanaeth Tai oedd ailgychwyn gwaith ar nifer o safleoedd tuag at ddiwedd chwarter 1 2020/21, a oedd yn cynnwys contractau cynnal a chadw allanol a gynlluniwyd. Cyflawnwyd y nod hwn yn llwyddiannus, a gwnaed yr holl waith mewn modd diogel i warchod trigolion a gweithlu'r contractwr. Wrth ailgychwyn gwaith canolbwyntiwyd ar gwrdd ag amodau llym a chydymffurfio ag Aseidiadau Risg a gymeradwywyd, yn ogystal â Chanllawiau Pellter Cymdeithasol a Chanllawiau'r Llywodraeth mewn cysylltiad â gwaith adeiladu yn ystod y pandemig coronafeirws ac fe barheir i weithredu yn y fath fodd. Yn anochel, cafodd y datblygiadau hyn effaith ddifrifol ar wariant disgwyliedig yn ystod chwarteri 1-3 ac arweiniodd at ganslo rhaglenni buddsoddi cyfalaf a oedd yn cynnwys gwaith mewnol yn ystod gweddill 2020/21. Yn ystod chwarter 3, ailddechreuwyd gwario ar gynlluniau cynnal a chadw traddodiadol dan y rhaglen gynnal yn dilyn ailgychwyn gwaith ar ddau gontract mawr. Disgwylir y bydd proffiliau gwariant y ddau gynllun hyn yn parhau i ennill momentwm yn ystod chwarter 4.

Mae effeithiau Covid-19 yn dal i gael eu teimlo ar brosiectau adeiladu newydd a chynlluniau caffael eiddo. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Medi 2020, nid oedd modd ymweld â thair yr oedd pobl yn byw ynddynt ac felly nid oedd modd 'prynu yn ôl' unrhyw dai yn ystod y cyfnod hwn a bu oedi hefyd o ran medru gwneud gwaith adnewyddu arnynt. Y nod yw prynu'n ôl 15 o hen dai Cyngor bob blwyddyn ond, ar hyn o bryd, mae'n rhagdybiaeth fwy rhesymol mai dim ond hanner y ffigwr hwnnw y gellir eu caffael yn ystod 2020/21, a bydd hynny'n cael sgil-ffaith ar y gyllideb. Mae Covid-19 yn dal i achosi oedi o ran gwaith ar safleoedd adeiladu newydd, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd rhai deunyddiau penodol a'u danfon. Mae hyn wedi arafu cynnydd ac wedi lleihau gwariant. Mae rhai prosiectau hefyd wedi gweld oedi y gellir ei briodoli i gwmnïau cyfleustodau. Yn gyffredinol, disgwylir i'r materion hyn gael effaith eithaf sylweddol ar gyllideb 2020/21. Hefyd, gohiriwyd cychwyn un prosiect am dri mis oherwydd disgwyl am gadarnhad o grant gan Lywodraeth Cymru sydd wedi lleihau'r gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn.

### **3. CYLLIDO**

#### **3.1 Grantiau Cyfalaf**

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod: -

- **Isadeiledd Strategol Llangefni** – Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu pum uned ddiwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r pump wedi'u gosod. Mae'r gwaith ar y Ganolfan Fusnes bellach wedi'i gwblhau ac mae'r swyddfa ar y llawr isaf wedi'i gosod ac mae'r gofod swyddfa sy'n weddill yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Oherwydd oedi o ganlyniad i Covid, mae Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru bellach wedi caniatáu ymestyn yr amserlen hyd at Fawrth 2021. Mae'r gwariant sy'n weddill wedi'i neilltuo ar gyfer uwchraddio'r cladin a gwneud mân waith arall ar y Ganolfan Fusnes gyfredol ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei adolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd gwaith ar y cladin yn dod i ben ac ystyrir defnyddio'r tanwariant hwnnw i ddibenion TG i gwrdd ag anghenion tenantiaid.

- **Isadeiledd Strategol Caergybi** - Cynllun yw hwn i adeiladu deng uned ddiwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'r contractwr a benodwyd bellach wedi cwblhau'r prif waith ac wedi gadael y safle. Mae yna fân waith cywiro diffygion a gwaith comisiynu ar ôl. Cafwyd problemau yn ymwneud â'r hawddfreintiau cysylltiad trydan ar y safle sydd wedi arwain at ffioedd cyfreithiol uwch. Cwblhawyd y mater ar 22 Ionawr 2021 ac mae'r gwaith sy'n weddill bellach yn symud ymlaen ar fyrder. Sicrhawyd arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac ymrwymwyd i Gyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru, sy'n darparu'r arian cyfatebol ar gyfer y cynllun. Mae'r holl unedau wedi'u gosod yn llwyddiannus.
- **Grant Covid i Drawsnewid Trefi** - Mae holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru wedi derbyn £0.108m o'r rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio sydd wedi ei ail-bwrpasu i gefnogi addasiadau yng nghanol trefi oherwydd Covid. Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, dyfarnwyd y cyllid ar ffurf grantiau o £10k yr un i'r pum cyngor tref a grantiau o £5k i bum cyngor cymuned mewn ardaloedd pentrefi glan môr prysur. Ymhlith yr eitemau dan sylw mae addasiadau i doiledau cyhoeddus, meinciau, potiau blodau addurniadol, byrddau picnic, gorsafoedd diheintio dwylo ac arwyddion. Mae'r Cyngor wedi defnyddio rhan o'r gronfa hefyd ar arwyddion pellter cymdeithasol a mesurau cysylltiedig. Mae'r £0.108m bellach wedi'i ymrwymo'n llawn a gofynnwyd am yr holl hawliadau erbyn diwedd Ionawr 2021.
- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** - O'r Prosiectau Band A, mae ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen i gyd wedi'u cwblhau, ynghyd ag estyniad i Ysgol Parc y Bont a gwaith adnewyddu ar Ysgol Brynsiencyn. Ymgynghorwyd ar y cynllun Band A olaf, sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni, dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod chwarter 4 2019/20. Ym mis Rhagfyr penderfynodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fwrw ymlaen â chynllun i adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir. Mae'r Achos Busnes Terfynol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a dylid cael penderfyniad ganol mis Chwefror gyda'r bwriad o gychwyn ar y gwaith adeiladu ym mis Ebrill.
- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** - Sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd i alluogi'r Cyngor i ddarparu digon o leoedd gofal plant i gwrdd â'r galw yn sgil y cynnig gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol y Tywyn £0.216m, ynghyd â £0.165m i gyflawni Cynllun Grant Bach a Rheoli Prosiect. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Morswyn, Ysgol Pencarnisiog, Ysgol y Tywyn ac Ysgol Esceifiog. Mae arolygon wedi'u cynnal ar safleoedd ysgolion eraill i benderfynu ble y bydd gweddill yr arian grant yn cael ei ddyrannu. Derbyniwyd £122k ychwanegol ar gyfer grantiau cyfalaf bach - a rhannwyd £86,280 ohono ar ffurf grantiau. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda LIC ynghylch tanwariant posib o £35,720
- **Neuadd y Farchnad** - Mae'r mân-waith cywiro diffygion a oedd ar ôl wedi ei gwblhau i raddau helaeth ac roedd disgwyl i'r elfennau olaf gael eu cwblhau erbyn canol mis Ionawr 2021. Bu peth oedi o ran cael caniatâd cynllunio ar gyfer y rheseli beiciau a'r storfa finiau gan fod yn rhaid i geisiadau mewnol fynd i'r Pwyllgor ac roedd disgwyl iddynt gael eu hystyried yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021. Archebir y gwaith ar gyfer yr elfen hon unwaith y sicrhawyd y caniatâd cynllunio. Mae'r dehongliad clywedol mewn perthynas â'r materion treftadaeth bellach wedi'i gwblhau. Mae darpar ddeiliad wedi cadarnhau ei fod am gymryd 60% o'r gofod swyddfa ar y llawr cyntaf ac mae penawdau telerau'n cael eu llunio gan y tîm Cyfreithiol. Bydd mwy o fanylion ar gael yn y chwarter nesaf ynghylch yr amserlen ar gyfer symud i mewn.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II y Fenter Treftadaeth Treflun)** - Derbyniwyd y cais grant cyntaf ddiwedd Tachwedd 2020 ac ar ôl asesiad trylwyr dyfarnwyd grant cyn y Nadolig, gan hwyluso cychwyn gwaith ar y safle yn y Flwyddyn Newydd. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn chwarter 1 2021/22. Bydd y buddsoddiad yn cefnogi troi hen le storio gwag ar ddau lawr uchaf, a ddefnyddiwyd ddiwethaf yn 2010, yn bedwar fflat rhent marchnad yng nghanol y dref a fydd yn cynorthwyo i ychwanegu at fywiogrwydd a bwrlwm canol y dref ac yn cynyddu'r cyflenwad tai. Mae prosiectau eraill yn cael eu datblygu ar gyfer canol y dref ac mae ymgeiswyr posib ar gyfer gwneud defnydd o fannau eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Gwnaed cynnydd gyda chynigion yn Eglwys Sant Cybi ar gyfer y tŵr Gogledd Ddwyreiniol yn y fynwent uchaf a chafwyd y caniatadau terfynol yn chwarter 3, a bydd dogfennau contract drafft manwl yn cael eu hadolygu cyn gwahodd y tendr yn chwarter 4.
- Mae cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen **Targedu Buddsoddi mewn Adfywio**. Pwrpas yr arian yw dod â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag a Chynllun Byw Canol Tref. Cyflawnir y cynlluniau gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Gwynedd, fel partner cyflawni ar y cyd. Cyhoeddwyd Llythyr Cynnig diwygiedig yn neilltuo £1.001m ar gyfer Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf, Cynllun Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Byw yng Nghanol Tref ac Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag. Yn ystod chwarter 3 nodwyd bod tanwariant ar draws y Rhanbarth a gwnaed cais am gyllid ychwanegol i'w ddefnyddio yn ardaloedd Môn a Gwynedd. Gofynnwyd am £284k o gyllid ychwanegol i gefnogi creu dau Hyb Cymunedol yn Amlwch a Phenygroes ac i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf. Hyd ddiwedd chwarter 3, mae £566,805 wedi'i hawlio a rhagwelir y bydd y grant yn cael ei hawlio'n llawn erbyn diwedd chwarter 4.
- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** - Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o £1.146m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Roedd disgwyl caniatâd i ddechrau gan y Loteri yn chwarter 3 2019/20, ond cafodd y gwaith ei ohirio yn dilyn cais am estyniad 6 mis i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. Mae'r estyniad wedi'i ganiatáu ac felly gellir gwario hyd at fis Rhagfyr 2021. Derbyniwyd y Caniatâd i Ddechrau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn chwarter 3 2020/21 a phenodwyd Rheolwr Rhaglen a Swyddog Prosiect gyda'r bwriad y byddant yn ymgymryd â'u rolau newydd ym mis Ionawr 2021. Ailbroffiliwyd y cyllid a bydd y Rhaglen nawr yn rhedeg tan 2024-25.
- **Cynllun Hwb - Grant Seilwaith Mewn Ysgolion** - Er gwaethaf pwysau Covid-19 a gwaith ychwanegol mewn perthynas â Disgyblion sydd wedi eu Heithrio'n Ddigidol, mae'r gwaith wedi parhau ar y Prosiect HWB. Cyflawnwyd y nod o 80% erbyn diwedd y flwyddyn galendr ar gyfer yr ysgolion cynradd yn ogystal â'i osod yn rhannol mewn dwy ysgol uwchradd. Rhagwelir y bydd modd cadw at yr amserlen o gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r 2,941 o Chromebooks bellach wedi'u dosbarthu i ysgolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth Menig Gwyn a ddarperir fel rhan o'r Cynllun Prynu Deinamig a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan Gyngor Caerffili. Felly mae'r dyfeisiau hyn wedi bod ar gael i ysgolion eu defnyddio yn syth heb fod angen gwneud unrhyw waith ffurfweddu.



- **Porth Twristiaeth** - Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaid) Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi yn becyn o brosiectau sy'n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu hariannu'n bennaf trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae dyluniadau ar gyfer arwyddion cyfeirio yng Nghaergybi wedi'u cwblhau a disgwylir iddynt gael eu gosod yn ystod chwarter 4. Yn ystod chwarter 3 ymgwymerwyd â threfniadau caffael ar gyfer dyluniadau manwl mewn perthynas â'r gwaith a drefnwyd ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi. Oherwydd na dderbyniwyd unrhyw gynigion, ailwahoddir tendrau am y gwaith yn chwarter 4 yn ogystal â chwblhau'r broses dendro ar gyfer y gwaith adeiladu.
- **Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** - dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid mewn perthynas â'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Dyfarnwyd £0.100m ar gyfer dylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Penodwyd cwmni i ddylunio ac adeiladu'r maes chwarae antur. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau'r prosiect i chwarter 1 2021/22.
- **Cerbyd Trydan** – Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid mewn perthynas â'r Rhaglen Tirweddau Cynaliadwy a Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Dyfarnwyd £0.05m ar gyfer prynu cerbyd trydan gwybodaeth i dwristiaid a rhagwelir y bydd hyn wedi ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Cronfa Ffyrdd Gwydn** - Mae hon yn ffrwd arian grant newydd, a gyflwynwyd eleni. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid o dan y grant hwn i astudio pa fesurau gwytnwch y gellid eu gweithredu ar yr A545 a'r B5109 y naill ochr a'r llall i Fiwmares. Mae gan y ddwy ffordd hyn hanes o gau ar adegau o dywydd garw ac ni fydd y tywydd stormus cynyddol sy'n gysylltiedig â Newid Hinsawdd ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae gwaith wedi cychwyn i gaffael ymgynghorwyr allanol i gynnal yr astudiaeth hon ond rhagwelir y bydd y gwariant yn digwydd yn ystod y chwarter olaf eleni.
- **Cynlluniau draenio yng Nghaergybi ac Amlwch** - Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi gwnaed cynnydd o ran datblygu cytundeb gweithredol gyda Dŵr Cymru a rhannwyd data modelu a fydd yn caniatáu i'r astudiaeth ymchwilio i'r risgiau o lifogydd y mae ein systemau ni a rhai Dŵr Cymru yn eu hwynebu yn y dref. Yn Amlwch mae angen gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, fel bod modd ystyried y brif risg llifogydd afon yn yr astudiaeth. Ar hyn o bryd disgwylir am gytundeb Llywodraeth Cymru i ganiatáu i hyn ddigwydd. Bydd y ddwy astudiaeth yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- **Mân waith grant (25 lleoliad)** - Y grant hwn yw'r grant mwyaf a ddyfarnwyd erioed i'r Cyngor ar gyfer cynlluniau bach. Yn anffodus fe'i dyfarnwyd yn ystod pandemig Covid-19 ac o ganlyniad, ni allai gwaith adeiladu ddechrau ar unwaith. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo ac mae'r rhan fwyaf ohono bron wedi ei gwblhau. Gyda llai o amser bellach ar gael i gyflawni'r gwaith hwn (rhaid ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol) a'r anawsterau o weithio o dan reolau pellhau cymdeithasol mewn cyfnodau clo pellach, erys risg o beidio medru cwblhau dau o'r 25 cynllun. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hyn.
- **Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** – Cwblhawyd bron i'r cyfan o'r gwaith safle yn yr haf ond gohiriwyd rhyw ychydig ohono. Mae'r gwaith hwnnw hefyd wedi ailgychwyn erbyn hyn. Ni fydd y gwaith adeiladu yn dechrau tan yn hwyr yn 2021 ar y cynharaf.

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth** - Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth yn ei rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd y cynllun hwn ar y safle ond yna daeth ar draws amodau daear annisgwyl. Sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer yr amodau tir anodd ac ar gyfer goblygiadau Covid. Cwblhawyd y gwaith safle sylweddol yn yr haf.
- **Traeth Coch** – Mae gwaith Dylunio a Datblygu gan ymgynghorwyr ar y cynllun Risg Arfordirol yn Nhraeth Coch yn mynd rhagddo. Mae rhai rhwystrau i'w goresgyn, yn arbennig mewn perthynas â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cyfyngiadau presennol. Mae ystyried y gwaith adeiladu yn amodol ar bod y Cyngor yn cymeradwyo'r arian cyfatebol.
- **Achos Busnes Llawn Llanfair, Porthaethwy a'r Fali** - Mae'r tri chynllun yn mynd rhagddynt. Mae pryderon ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffafrir ar gyfer Llanfair PG a rhagwelir y bydd angen gwaith ychwanegol yma. Mae'n debygol y bydd Achos Busnes Llawn (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfair PG yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae llai o risgiau yn gysylltiedig â'r cynlluniau ym Mhorthaethwy a'r Fali a rhagwelir y gallai'r hyn fod yn barod ar gyfer y gwaith adeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Unwaith eto, mae hyn yn amodol ar y Cyngor yn cymeradwyo darparu'r arian cyfatebol sydd ei angen.
- **Galluogi** – Sicrhawyd grant o £0.093m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Arian Cyfalaf ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd** - Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori dau brosiect sydd yn werth cyfanswm o £0.478m. Mae un prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ar ran o ffordd yr A5025, o'r Fali i Borthaethwy ac mae'r llall yn cyflwyno parthau 20mya y tu allan i ysgolion ynghyd â gwell cysylltiadau i gerddwyr. Gwariwyd £0.254m hyd at chwarter 3 ar yr A5025. Bydd y gwaith ar yr A5025 yn parhau yn chwarter 4 i sicrhau gwell cyfleusterau i gerddwyr ac arwyddion diogelwch ar y ffyrdd. Yn chwarter 3 ymwelwyd â safleoedd ac archebwyd gwaith ar gyfer cyflwyno parthau 20mya y tu allan i ysgolion ar draws yr Ynys. Bydd y gwaith yn cael ei roi i'r contractwr yn gynnar yn chwarter 4.
- **Teithio Llesol** - Sicrhawyd grant o £0.200m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mân welliannau i'r seilwaith, gan gynnwys gosod arwyddion, parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau, yn ogystal â datblygu'r mapiau Teithio Llesol Integredig. Pwrpas y grant yw hyrwyddo a chynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i'r gwaith, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gwnaed mân welliannau cyfyngedig hyd yn hyn, ond mae'r Awdurdod wedi caffael ymgynghoriaeth allanol sydd wedi cychwyn astudiaethau dichonoldeb ar gynlluniau gwella Teithio Llesol y gellid eu cyflawni yn y dyfodol. Mae mân welliannau pellach i'w gwneud yn chwarter 4 yn unol â'r gyllideb sy'n weddill.
- **Cyllid Economi Cylchol** - Mae'r Adain Rheoli Gwastraff wedi llwyddo gyda chynnig am gyfran o'r grant economi gylchol ac wedi derbyn dau grant cyfalaf (£0.439m a £0.478m). Pwrpas yr arian hwn yw galluogi'r Cyngor i gyflawni prosiect cyfalaf i gefnogi'r symudiad i economi gylchol yng Nghymru - er mwyn osgoi gwastraff a lle mae deunyddiau'n cael eu defnyddio am gyhyd ag y bo modd. Mae hon yn rhan bwysig o'r camau sydd raid eu cymryd ynghylch atal newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn dod â llawer o gyfleoedd newydd fel rhan o'r newid i economi carbon isel. Mae gan y sector cyhoeddus ran allweddol i'w chwarae i helpu i symud 'Cymru' i economi gylchol a darparu gwasanaeth gwell i bobl Cymru. Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo'n llawn a disgwylir y byddant wedi eu defnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Cyllid Trafnidiaeth Leol** – Sicrhawyd grant o £0.509m gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Drafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn. Pwrpas y cronfeydd hyn yw datblygu systemau trafndiaeth integredig, effeithiol, hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy a datblygu a darparu cynlluniau sy'n cefnogi tacsis / PHV nad ydynt yn cynhyrchu allyriadau, a hynny erbyn 2028 fel sy'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru.
  - **Cronfa Drafnidiaeth Leol** - sicrhawyd £0.375m ar gyfer cwblhau'r gwaith o adeiladu safle Parcio a Rhannu Gaerwen. Bu cynnydd mewn costau oherwydd ffactorau annisgwyl ar y safle a gofynnir am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Cwblhawyd tua 95% o'r gwaith a bydd y gwaith tirlunio/plannu sy'n weddill yn cael ei wneud yn ystod chwarter 4.
  - **Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol** - sicrhawyd £0.049m ar gyfer gwella safleoedd bws a datblygu cynllun ar gyfer cyfleusterau i deithwyr bws ar gyffordd Pencarnisiog ar yr A4080. Gwnaed mân waith yn chwarter 3 a bydd gweddill y gyllideb yn cael ei wario yn chwarter 4 i gaffael cysgodfannau aros am fws ac i wneud gwaith yn y gwahanol leoliadau ynghyd â'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cyffordd Pencarnisiog.
  - **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn** - sicrhawyd £0.085m ar gyfer darparu manau gwefru cerbydau trydan yn y cyfleuster Parcio, Teithio a Rhannu yn Llanfairpwll fel hyb trafndiaeth gynaliadwy. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol yn chwarter 3 i wneud gwaith dichonolrwydd a dylunio ar gyfer y safle. Gwneir gwaith hwyluso a chaffaelir gwefrwyr Cerbydau Trydan yn chwarter 4.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

3.2.1 Mae'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer fel a ganlyn:-

	<b>Cyllideb 2020/21 £'000</b>	<b>Derbyniwyd hyd at 31-Rhagfyr-20 £'000</b>	<b>Rhagolwg i 31-Mawrth-21 £'000</b>
<b>Cronfa'r Cyngor:</b>			
Mân-ddaliadau	0	20	20
Cyffredinol	314	459	629
Diwydiannol	0	0	0
Ysgolion	554	370	562
<b>Cyfanswm</b>	<b>868</b>	<b>849</b>	<b>1,211</b>

3.2.2 Y derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £1.211m, a derbyniwyd £0.849m erbyn 31 Rhagfyr 2020 (70%).

3.2.3 Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £1.211m, mae £2.541m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £1.330m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2019/20 yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf. Gellir defnyddio £1.808m o'r arian hwn i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gyda'r £0.733m arall ar gael i gyllido rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o gyllid cyfatebol a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn.

#### 4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2020/21

4.1 Isod mae tabl gydag amcangyfrif o'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2021 a'r cyllid diwygiedig:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant a Ragwelir £'000	(Tan) / Gor Wariant a Ragwelir £'000	Amrywiant %
Cronfa Gyffredinol - Tai	1,928	1,462	(466)	(24)
Tai - CRT	19,032	11,010	(8,022)	(42)
Dysgu Gydol Oes	11,849	4,133	(7,716)	(65)
Economaidd ac Adfywio	3,844	2,831	(1,013)	(26)
Priffyrdd	7,539	5,253	(2,286)	(30)
Rheoli Gwastraff	5,399	4,007	(1,392)	(26)
Eiddo	2,673	2,673	0	0
Trawsnewid	529	341	(188)	(35)
Cynllunio	1,324	220	(1,104)	(83)
Gwasanaethau Oedolion	1,867	1,867	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>55,984</b>	<b>33,798</b>	<b>(22,186)</b>	<b>(40)</b>
<b>Cyllidwyd gan:</b>	<b>Cyllideb Flynyddol £'000</b>	<b>Cyllid a Ragwelir £'000</b>	<b>Amrywiant £'000</b>	<b>Amrywiant %</b>
Grant Cyfalaf	22,775	14,976	(7,799)	(34)
Derbyniadau Cyfalaf	793	665	(128)	(16)
Benthyca â Chefnogaeth	7,955	4,652	(3,303)	(42)
Benthyca Digefnogaeth	6,278	3,226	(3,052)	(49)
Cyfraniad Refeniw	16,163	8,391	(7,772)	(48)
Cronfeydd wrth Gefn	619	487	(133)	(21)
Benthyciad	1,401	1,401	0	0
<b>Cyfanswm Cyllid</b>	<b>55,984</b>	<b>33,798</b>	<b>(22,186)</b>	<b>(40)</b>

4.2 Fel y gwelir yn nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yw £22.186m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2021/22. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2021/22 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22. Y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario ydi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, lle bu oedi oherwydd ymgynghori pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i wneud bellach a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn chwarter 1 2021/22. Ar hyn o bryd mae oedi cyn prynu naw cerbyd Gwastraff a bydd y rhain yn cael eu hariannu yn chwarter 1 2021/22 bellach. Bydd y cyllid ar gyfer y rhain hefyd yn llithro i 2021/22, a'r swm a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn y cyswllt hwn yw £1.392m. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y trosglwyddiad i'r contract newydd gan fod y contract yn caniatáu ar gyfer parhau i ddefnyddio'r fflyd bresennol o gerbydau.

Rhagwelir hefyd y bydd gan y CRT danwariant eithaf sylweddol, fel yr eglurir ym mharagraff 2.3 uchod.

4.3 Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £142.685m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae'r benthyciad allanol yn £135.526m, sy'n golygu bod angen i'r Awdurdod fenthyca £7.159m yn y bôn i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgwymerir â'r benthyciad hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 (Atodiad 11).

## **5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL**

- 5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2020/21 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chymorth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2021/22 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chymorth yn cael eu defnyddio i ariannu prynu Cerbydau newydd bob blwyddyn fel y bydd angen, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu'r asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ailwynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu hariannu, efallai y bydd rhywfaint o arian ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

Cyflwynwyd y Gyllideb Gyfalaf ddrafft i'r Pwyllgor hwn ar 18 Ionawr 2021 a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo yn y dyfodol agos. Bydd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2021.

## **6. CASGLIAD**

- 6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos effaith Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar gynnydd a chwblhau rhai cynlluniau. Mae mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Oherwydd oedi gyda'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mae risg o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae'r Cyngor wedi sicrhau llawer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £1.211m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

## Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcener (£)	(Tan)Gorwariant a Ragamcener	Amrywiad (%)
<b>Cronfa Dai Gyffredinol</b>											
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	636,000	185,000	184,999	0	184,999	(1)	100	29	636,000	0	0
Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	523,506	60,000	57,911	85	57,996	(2,004)	97	11	57,996	(465,510)	(89)
Cynllun Prynw Gorfodol	135,000	135,000	150,114	0	150,114	15,114	111	111	135,000	0	0
Grant Enable	93,200	25,000	24,344	0	24,344	(656)	97	26	93,200	0	0
Grant TRIP Cynllun Landlord	147,576	105,000	105,986	0	105,986	986	101	72	147,576	0	0
Grant TRIP Prynwr tro cyntaf	362,000	362,000	361,646	0	361,646	(354)	100	100	362,000	0	0
Tai fforddiadwy	30,650	0	0	0	0	0	0	0	30,650	0	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,927,932</b>	<b>872,000</b>	<b>884,999</b>	<b>85</b>	<b>885,084</b>	<b>13,084</b>	<b>102</b>	<b>46</b>	<b>1,462,422</b>	<b>(465,510)</b>	<b>(24)</b>
<b>CRT Tai</b>											
Contract Gwres Canolog	400,000	0	0	0	0	0	0	0	0	(400,000)	(100)
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	6,120,000	3,500,000	2,932,129	140,428	3,072,558	(427,442)	88	50	4,500,000	(1,620,000)	(26)
Gwella Perfformiad Ynni	537,000	0	0	3,978	3,978	3,978	0	1	150,000	(387,000)	(72)
Gwaith Amgylcheddol	750,000	65,000	63,813	96	63,909	(1,091)	98	9	100,000	(650,000)	(87)
Prynw Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd	9,230,000	3,500,000	3,496,439	63,371	3,559,810	59,810	102	39	5,250,000	(3,980,000)	(43)
Ailfodelu Llawr Y Dref	2,218	0	50,485	0	50,485	50,485	0	2,276	50,485	48,267	2,176
Addasiadau Sector Cyhoeddus	350,000	90,000	61,428	22,254	83,682	(6,318)	93	24	150,000	(200,000)	(57)
Risg Tân	450,000	60,000	38,619	0	38,619	(21,381)	64	9	100,000	(350,000)	(78)
Tir Halogedig	20,000	0	0	0	0	0	0	0	9,573	(10,427)	(52)
SATC	1,172,875	500,000	482,305	0	482,305	(17,695)	96	41	700,000	(472,875)	(40)
<b>CYFANSWM</b>	<b>19,032,093</b>	<b>7,715,000</b>	<b>7,125,220</b>	<b>230,127</b>	<b>7,355,346</b>	<b>(359,654)</b>	<b>95</b>	<b>39</b>	<b>11,010,058</b>	<b>(8,022,035)</b>	<b>(42)</b>
<b>Dysgu Gydol Oes</b>											
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol	500,000	400,000	101,786	5,104	106,890	(293,110)	27	21	500,000	0	0
Adnewyddu Adeiladau Addysg	2,034,000	1,500,000	1,460,265	37,003	1,497,268	(2,732)	100	74	2,034,000	0	0
Diogelwch Ysgolion	200,000	0	0	0	0	0	0	0	20,000	(180,000)	(90)
Dymchwel ysgolion	324,620	290,000	291,288	0	291,288	1,288	100	90	324,620	0	0
Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band A	5,409,861	43,700	72,424	1,115	73,539	29,839	168	1	515,065	(4,894,796)	(90)
Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band B	2,050,000	0	1,620	0	1,620	1,620	0	0	0	(2,050,000)	(100)
Grant Cyfalaf Dechra'n Deg	39,276	29,457	30,224	0	30,224	767	103	77	39,276	0	0
Cynyddu'r capasiti ar gyfer grant gofal plant	1,291,197	550,000	536,607	17,468	554,075	4,075	101	43	700,000	(591,197)	(46)
<b>CYFANSWM</b>	<b>11,848,954</b>	<b>2,813,157</b>	<b>2,494,214</b>	<b>60,690</b>	<b>2,554,904</b>	<b>(258,253)</b>	<b>91</b>	<b>22</b>	<b>4,132,961</b>	<b>(7,715,993)</b>	<b>(65)</b>
<b>Economaidd ac Adfywio</b>											
Gwaith ar Ystafell Ffitrwydd Plas Arthur	102,864	102,864	116,010	356	116,366	13,502	113	113	116,366	13,502	13
Gwelliannau Hamdden	250,000	10,000	2,658	4,200	6,858	(3,142)	0	3	250,000	0	0
Porth Twristiaeth	1,076,233	100,000	54,168	27,758	81,926	(18,074)	82	8	110,000	(966,233)	(90)
Isadeiledd Strategol Caerbybi	1,553,764	1,350,000	1,335,911	0	1,335,911	(14,089)	99	86	1,553,764	0	0
Isadeiledd Strategol Llangedfn	231,360	200,000	160,691	9,798	170,489	(29,511)	85	74	231,360	0	0
Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio	15,252	8,000	5,077	2,250	7,327	(673)	92	48	15,252	0	0
Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol	95,000	0	0	0	0	0	0	0	95,000	0	0
Liithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi	30,000	0	0	0	0	0	0	0	0	(30,000)	(100)
Datblygu Safle Ysgol TRIP	7,222	0	0	0	0	0	0	0	7,222	0	0
Datblygu Economaidd - I Geisio Cyllid Cyfatebol	64,150	0	0	0	0	0	0	0	64,150	0	0
Porth Twristiaeth	160,000	200,000	197,179	0	197,179	(2,821)	99	123	200,000	40,000	25
Grant Covid Trawsnewid Trefi	108,000	30,000	23,289	0	23,289	(6,711)	78	22	108,000	0	0
Grant AHNE - cerbyd trydan	50,000	0	0	0	0	0	0	0	50,000	0	0
Grant AHNE - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd	100,000	0	0	0	0	0	0	0	30,000	(70,000)	(70)
<b>CYFANSWM</b>	<b>3,843,845</b>	<b>2,000,864</b>	<b>1,894,983</b>	<b>44,362</b>	<b>1,939,345</b>	<b>(61,519)</b>	<b>97</b>	<b>50</b>	<b>2,831,114</b>	<b>(1,012,731)</b>	<b>(26)</b>

ATODIAD B

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirionedd ol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcendir (£)	(Tan)/Gorwariant a Ragamcendir (£)	Amrywiad (%)
<b>Priffyrdd</b>											
Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio	30,000	30,000	9,932	20,375	30,307	307	101	101	30,307	307	1
Cerbydau	593,367	300,000	217,662	99,471	317,133	17,133	106	53	417,133	(176,234)	(30)
Ailwynebu Priffyrdd	1,363,582	1,138,581	932,740	0	932,740	(205,841)	82	68	1,263,582	(100,000)	(7)
Grant Adnewyddu Priffyrdd	599,414	400,000	385,327	0	385,327	(14,673)	96	64	599,414	0	0
Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mwmmares (LIC)	683,371	90,000	87,061	0	87,061	(2,939)	97	13	107,061	(576,310)	(84)
Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC)	325,581	250,000	255,467	0	255,467	5,467	102	78	305,467	(20,114)	(6)
Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn	34,922	7,695	7,695	0	7,695	(0)	100	22	7,695	(27,227)	(78)
Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi	69,845	2,500	2,349	0	2,349	(151)	94	3	9,349	(60,496)	(87)
Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch	104,952	1,000	908	0	908	(92)	91	1	20,908	(84,044)	(80)
Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair	406,034	6,000	6,387	0	6,387	387	106	2	55,419	(350,615)	(86)
Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai	161,801	1,000	624	0	624	(376)	62	0	10,624	(151,177)	(93)
Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali	150,913	1,000	2,010	0	2,010	1,010	201	1	9,010	(141,903)	(94)
Strwythur Mill Lane	201,250	45,000	43,472	0	43,472	(1,528)	97	22	113,472	(87,778)	(44)
Dwyran - cwrs dŵr cyffredinol - NFM	213,192	10,000	9,140	0	9,140	(860)	91	4	19,140	(194,052)	(91)
Mill Lane - NFM	245,525	1,000	978	0	978	(22)	98	0	978	(244,547)	(100)
Buddsoddi i Arbed - Cerbydau	72,980	41,000	40,993	24,179	65,172	24,172	159	89	65,172	(7,808)	(11)
Gwaith Grant Graddfa Fechan	739,921	369,961	308,210	0	308,210	(61,750)	83	42	680,000	(59,921)	(8)
Teithio Llesol	200,000	50,000	35,318	23,813	59,131	9,131	118	30	200,000	0	0
A545 Biwmares	24,727	10,132	5,635	0	5,635	(4,497)	56	23	20,635	(4,092)	(17)
Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd	478,000	250,000	255,696	0	255,696	5,696	102	53	478,000	0	0
Cronfa Ffyrdd Gwydyn	105,000	0	2,227	0	2,227	2,227	0	2	105,000	0	0
Cronfa Trafnidiaeth Lleol - Parcio a Rhannu a Gaerwen	375,000	300,000	296,222	0	296,222	(3,778)	99	79	375,000	0	0
Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol - Gwaith gwella'r Arhosfan Bysiau	49,000	5,000	6,930	0	6,930	1,930	139	14	49,000	0	0
Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan	85,000	2,000	1,472	0	1,472	(528)	74	2	85,000	0	0
Hyb Porth Caergybi	225,443	150,000	155,053	0	155,053	5,053	103	69	225,443	0	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>7,538,820</b>	<b>3,461,869</b>	<b>3,069,508</b>	<b>167,837</b>	<b>3,237,345</b>	<b>(224,523)</b>	<b>94</b>	<b>43</b>	<b>5,252,809</b>	<b>(2,286,011)</b>	<b>(30)</b>
<b>Rheoli Gwastraff</b>											
Contract Gwastraff	4,482,000	0	0	0	0	0	0	0	3,090,186	(1,391,814)	(31)
Cyllid Economi Cylchol (266)	439,100	420,000	13,995	408,009	422,004	2,004	100	96	439,100	0	0
Cyllid Economi Cylchol (265)	477,830	0	0	0	0	0	0	0	477,830	0	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>5,398,930</b>	<b>420,000</b>	<b>13,995</b>	<b>408,009</b>	<b>422,004</b>	<b>2,004</b>	<b>100</b>	<b>8</b>	<b>4,007,116</b>	<b>(1,391,814)</b>	<b>(26)</b>
<b>Eiddo</b>											
Adnewyddu Asedau Cyfredol	918,773	500,000	352,427	0	352,427	(147,573)	70	38	918,773	0	0
Eiddo - Buddsoddi i Arbed	1,650,921	1,250,000	1,254,754	0	1,254,754	4,754	100	76	1,650,921	0	0
Adnewyddu Mänddaliadau	100,000	0	0	1,488	1,488	1,488	0	1	100,000	0	0
Fferm Cromlech	3,172	0	0	0	0	0	0	0	3,172	0	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>2,672,866</b>	<b>1,750,000</b>	<b>1,607,181</b>	<b>1,488</b>	<b>1,608,668</b>	<b>(141,332)</b>	<b>92</b>	<b>60</b>	<b>2,672,866</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Trawsnewid</b>											
TGCh - Isadeiledd Craidd	292,662	89,000	23,000	0	23,000	(66,000)	26	8	104,935	(187,727)	(64)
TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron	121,000	121,000	59,990	61,504	121,494	494	100	100	121,000	0	0
TGCh - Cysylltu Môn i drosqlywyddo PSBA	32,405	24,304	10,345	12,455	22,800	(1,504)	94	70	32,405	0	0
TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod	19,964	10,000	0	0	0	(10,000)	0	0	19,964	0	0
Hwb TG Isadeiled	63,124	20,000	0	20,450	20,450	450	102	32	63,124	0	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>529,155</b>	<b>264,304</b>	<b>93,335</b>	<b>94,409</b>	<b>187,744</b>	<b>(76,560)</b>	<b>71</b>	<b>35</b>	<b>341,428</b>	<b>(187,727)</b>	<b>(35)</b>

ATODIAD B

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Cyllideb a Broffiliwyd (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant a Ymrwymwyd (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Amrywiad i'r Proffil (£)	Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%)	Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragamcenir (£)	(Tan)/Gorwariant a Ragamcenir (£)	Amrywiad (%)
<b>Cynllunio</b>											
Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi	281,000	95,000	0	35,000	35,000	(60,000)	37	12	35,000	(246,000)	(88)
Partneriaeth Tirwedd Caergybi	143,300	0	0	0	0	0	0	0	0	(143,300)	(100)
Adfywio Caergybi (THI Cam II)	900,000	50,000	25,943	15,955	41,898	(8,102)	84	5	185,000	(715,000)	(79)
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,324,300</b>	<b>145,000</b>	<b>25,943</b>	<b>50,955</b>	<b>76,898</b>	<b>(68,102)</b>	<b>53</b>	<b>6</b>	<b>220,000</b>	<b>(1,104,300)</b>	<b>(83)</b>
<b>Gwasanaethau Oedolion</b>											
ICF	1,732,800	350,000	278,430	72,388	350,818	818	100	20	1,732,800	0	0
Hyb Cymunedol Bryn Hwfa	13,155	5,000	3,484	0	3,484	(1,516)	70	26	13,155	0	0
Adnewyddu Plas Crigyll	37,978	0	1	0	1	1	0	0	37,978	0	0
Adnewyddu Plas Mona	83,371	0	0	0	0	0	0	0	83,371	0	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,867,304</b>	<b>355,000</b>	<b>281,915</b>	<b>72,388</b>	<b>354,303</b>	<b>(697)</b>	<b>100</b>	<b>19</b>	<b>1,867,304</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM</b>	<b>55,984,199</b>	<b>19,797,194</b>	<b>17,491,292</b>	<b>1,130,349</b>	<b>18,621,641</b>	<b>(1,175,552)</b>	<b>94</b>	<b>33</b>	<b>33,798,078</b>	<b>(22,186,121)</b>	<b>(40)</b>







<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>1 MAWRTH 2021</b>
<b>PWNC:</b>	<b>ADRODDIAD MONITRO'R CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 3 2020/21</b>
<b>AELOD(AU) PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	<b>MARC JONES</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD:</b>	<b>STEPHEN MOORE</b>
<b>FFÔN:</b>	01248 752634
<b>E-BOST:</b>	StephenMoore@ynysmon.gov.uk
<b>AELOD(AU) LLEOL:</b>	<b>Amherthnasol</b>

#### **A - Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-
  - (i) Y sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2020/21.
  - (ii) Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020/21.
2. **Cefndir**
  - (i) Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.8m.
  - (ii) Roedd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 yn £19.1m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2019/20.
  - (iii) Rhoddodd y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £7.1m a fydda'n cael ei gyllido o Gronfa wrth gefn y CRT.
  - (iv) Mae gwariant o'r CRT wedi ei gyfyngu i ddibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT 'chwaith.
3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Rhagfyr 2020.
4. **Trosolwg**
  - (i) Mae'r sefyllfa refeniw ar gyfer Ch3 yn dangos tanwariant o £238k, o'i gymharu â £324k ar ddiwedd Ch2. Mae'r incwm a ragwelir £150k yn is na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir y bydd y gwariant £181k yn is na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.
  - (ii) Mae'r gwariant Cyfalaf £360k yn is na'r gyllideb broffiliedig (£1,250k yn Ch2). Mae'r gwariant a ragwelir £8,022k yn is na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad B.
  - (iii) Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £8,053k yn llai na'r gyllideb o'i gymharu â'r diffyg a ragwelwyd o £6,256k yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd Ch2. Mae hyn i raddau helaeth yn ganlyniad i wariant cyfalaf is na'r gyllideb. Mae hyn yn golygu y rhagwelir gwarged o £965k ar gyfer y flwyddyn, sy'n gadael cronfa wrth gefn y CRT o £9,562k fydd ar gael i gyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

## 5. Incwm

- (i) Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd yn £197k (£140k yn well yn Ch2) yn is na'r gyllideb broffiliedig fel y nodir isod.
- (ii) Roedd incwm rhent £203k yn is na'r gyllideb (£105k yn Ch2). Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn rhagdybio y bydd eiddo newydd yn dod i mewn yn ystod y flwyddyn sydd wedi cael eu dal yn ôl (gweler hefyd yr adran 'cyfalaf' isod). O ganlyniad, rhagwelir y bydd incwm £150k yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.
- (iii) Mae incwm o dâl gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, yn unol â'r gyllideb. Adolygwyd y gyllideb yn llwyr yn dilyn tanwariant sylweddol yn y gyllideb hon y llynedd.
- (iv) Mae incwm arall £12k yn well na'r gyllideb broffiliedig o ganlyniad i amseriad derbyn arian o'r Tariff Cyflenwi Trydan. Nid yw'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn wedi newid.
- (v) Mae'r cynllun 30 mlynedd yn cynnwys darpariaeth o £280k tuag at ddyledion drwg, sef 1.5% o'r cyfanswm incwm rhent. Roedd hyn yn gynydd o gymharu â'r 1.25% yn y flwyddyn flaenorol a hynny er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol. Dim ond pan nad oes gobaith realistig o adennill ôl-ddyledion rhent y mae dyled ddrwg yn codi. Y ddarpariaeth wirioneddol yng nghyfrif blynyddol 2019/20 oedd £118k, sef dim ond 0.65% o'r cyfanswm incwm rhent, sy'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed i sicrhau bod y rhent sy'n ddyledus yn cael ei adennill. Gwnaed y darpariaethau hyn cyn i bandemig Covid 19 effeithio ar Ynys Môn. Ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd yr ôl-ddyledion rhent yn 2.41% o'r incwm rhent (£438k). Ddiwedd mis Mehefin, roedd hyn wedi codi i 3.4% (£625k), sef cynnydd o 50%, ac ar ddiwedd mis Medi roedd wedi gostwng i 3.33% (£612k). Erbyn diwedd mis Rhagfyr, roedd wedi gostwng ymhellach i 3.14% (£578k). Mae Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiau Covid ar yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc dai, a dengys y dadansoddiad diweddaraf (hyd at ddiwedd mis Rhagfyr) fod lefelau dyledion yn amrywio rhwng thua 2.5% a 5.5% ymhlith yr 11 awdurdod lleol, ac Ynys Môn oedd y 4ydd gorau allan o'r 11. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch faint o arian y bydd modd ei adennill dros amser, ynteu a fydd hwn yn arian na ellir ei adennill ac yn ddyled y bydd raid ei dileu. Mae'n ymddangos bod profiad blaenorol yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn ddigonol ar hyn o bryd, ond cedwir llygad ar y sefyllfa.
- (vi) Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer incwm bellach yn ostyngiad o £150k o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol erbyn diwedd y flwyddyn (gostyngiad o £100k ar ddiwedd Ch2).

## 6. Gwariant ac eithrio ar Waith Atgyweirio a Chynnal a Chadw

- (i) Ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd gwariant ar waith ac eithrio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw £47k yn is na'r gyllideb broffiliedig (£59k yn uwch yn Ch2). Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith y gwnaed llai o waith oherwydd Covid (yn enwedig atal diwrnodau glanhau ar stadau), wedi'i wrthbwyso gan gost flynyddol system Gyfrifiadurol Orchard sy'n cael ei ymrwymo yn awr. Adolygwyd y rhagolwg, ac mae bellach £21k yn well na'r gyllideb (o'i gymharu â £12k yn well yn Ch2), gan gymryd i ystyriaeth y gostyngiad yng ngwaith y tîm Cyfranogiad Tenantiaid (£35k) a'r costau ychwanegol yn sgil datblygu'r modiwl gwaith symudol (£14k).

## **7. Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

- (i) Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (Uned Cynnal Tai) yn dangos tanwariant o £259k (£332k yn Ch2). Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i sefyllfa Covid 19 gan mai dim ond gwaith atgyweirio hanfodol sy'n cael ei wneud. Mae hyn wedi lleihau costau deunyddiau a'r defnydd a wneir o isgcontractwyr. Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth i ddangos bod gwaith sylweddol yn aros i gael ei wneud. Mae'n anodd mesur beth fydd effaith mwy o weithgaredd unwaith y bydd y cyfyngiadau Covid wedi cael eu llacio, ond gwnaed amcangyfrif ceidwadol y bydd gostyngiad o £200k (£70k yn Ch2) mewn gwariant o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.
- (ii) Mae gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn staff yr Uned Cynnal Tai £67k (£36k yn Ch2) yn is na'r gyllideb broffiledig ar ddiwedd Ch3. Mae recriwtio wedi bod yn arafach na'r disgwyl, felly, erbyn diwedd y flwyddyn rhagwelir y dylai gwariant fod £60k yn is na'r gyllideb (£30k yn Ch2).
- (iii) Mae gorwariant o £134k (£124k yn Ch2) ar gostau Atgyweirio a Chynnal a Chadw eraill o gymharu â'r gyllideb broffiledig. Y prif feysydd lle cafwyd gorwariant yw cynnal a chadw tiroedd a gwaith brys ar systemau trin carthion. Erbyn hyn, mae'n amlwg nad oedd y gyllideb wreiddiol yn ddigonol, felly, rhagwelir erbyn hyn y bydd gorwariant o £100k. Adolygir y gyllideb ar gyfer 2021/22.

## **8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

- (i) Mae'r pennawd hwn yn ymdrin ag eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf a thaliadau a godir o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

## **9. Gwariant Cyfalaf**

- (i) Cyfanswm y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020, oedd £19,114k, i'w gyllido gan y Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr (£2,660k), grantiau cyfalaf eraill (£1,450k) a chyfraniad o £15,034 o gronfa wrth gefn y CRT. Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2019/20. Fel y digwyddodd pethau, nid oedd angen yr holl arian a oedd i'w ddwyn ymlaen, felly, erbyn hyn mae cyllideb ddiwygiedig o £19,032k (£14,992k ar ôl caniatáu ar gyfer £4,110k o gyllid grant). Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol ar ôl grantiau yn £6,900k, sydd £8,022k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig (£6,244k yn Ch2).
- (ii) Mae Covid 19 wedi effeithio'n ddifrifol ar brosiectau cyfalaf, gan arwain at oedi sylweddol gyda phrosiectau. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos prynu'n ôl hen dai Cyngor, a hynny oherwydd bod y farchnad dai wedi dod i stop i bob pwrpas. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod Ch3 serch hynny, gyda'r gwariant gwirioneddol bron yn dyblu o £3,680k i £7,355k. Gwnaed gwaith ychwanegol wrth ailfodelu Llawr y Dref (newid 6 uned fach yn 4 uned fwy) sydd wedi arwain at wariant ychwanegol ar y prosiect hwn. Ar hyn o bryd mae 3 uned ar ôl i'w gosod yn y cynllun yn dilyn yr ailfodelu.
- (iii) Adolygwyd y rhagolwg cyfalaf yn llwyr i gymryd i ystyriaeth y cyfan o'r uchod ac, erbyn hyn, rhagwelir y bydd gwariant £8,022k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Dangosir manylion pellach yn Atodiad B.
- (iv) Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT yn gostwng yn yr un modd. Yna mae'r balans ar gael i gyllido'r prosiectau sydd wedi'u gohirio i'r flwyddyn nesaf.

## 10. Balans y CRT

- (i) Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,597k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £7,088k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y tanwariant a ragwelir yn arwain at drosglwyddo £965k i'r gronfa wrth gefn, sef y gwarged a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi balans wrth gefn o £9,562k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i gyfyngu i ddibenion penodol, felly nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT.

### B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

### C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

### CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

### D - A ydy'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

### DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

### Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli (gorfodol)	Ystyriwyd yr adroddiad drafft gan yr UDA ac mae unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol.
2	Swyddog Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Ymgynghorir â'r swyddog fel rhan o'r UDA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	

### E - Risgiau a Chamau Lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	
2	Gwrthdlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

### F - Atodiadau:

Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hydd ddiwedd chwarter 3.  
Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 3.

### FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):

- Cyllideb CRT 2020/21 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2020).
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am y cyfnod 2020/50 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2020).

**CYFRIF CRT 2020/21**

	<b>Cyllideb Flynyddol 2020/21</b>	<b>Cyllideb wedi ei phroffilio hyd at Fis 9</b>	<b>Gwirioneddol hyd at Fis 9</b>	<b>Amrywiad hyd at Fis 9</b>	<b>Rhagolygon Diwedd Blwyddyn</b>	<b>Amrywiad Diwedd Blwyddyn</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>CYFRIF REFENIW</b>						
<b>Incwm</b>						
Anheddau	(18,407,000)	(13,805,251)	(13,601,786)	203,465	(18,257,000)	150,000
Modurdai	(218,000)	(163,501)	(157,696)	5,805	(218,000)	0
Taliadau Gwasanaeth	(212,000)	(159,000)	(159,302)	(302)	(212,000)	0
Arall	(199,000)	(117,000)	(129,201)	(12,201)	(199,000)	0
Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg	280,000	0	0	0	280,000	0
<b>CYFANSWM INCWM</b>	<b>(18,756,000)</b>	<b>(14,244,752)</b>	<b>(14,047,985)</b>	<b>196,767</b>	<b>(18,606,000)</b>	<b>150,000</b>
<b>Gwariant ac eithrio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw</b>						
Cyfranogiad Tenantiaid	136,170	102,053	63,489	(38,564)	101,170	(35,000)
Gweinyddu Rhenti	450,220	337,161	363,717	26,556	450,220	0
Rheoli Stadau	247,430	185,330	123,800	(61,530)	247,430	0
Gwariant Refeniw Arall	899,340	640,382	666,866	26,484	913,340	14,000
<b>Cyfanswm Gwariant ac eithrio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw</b>	<b>1,733,160</b>	<b>1,264,926</b>	<b>1,217,872</b>	<b>(47,054)</b>	<b>1,712,160</b>	<b>(21,000)</b>
<b>Atgyweirio a Chynnal a Chadw</b>						
Uned Cynnal Tai (UCT)	3,112,000	2,333,510	2,074,241	(259,269)	2,912,000	(200,000)
Staff Cynnal a Chadw Tai (dim UCT)	926,020	693,511	626,790	(66,721)	866,020	(60,000)
Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw arall	448,200	336,157	470,899	134,742	548,200	100,000
<b>Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw</b>	<b>4,486,220</b>	<b>3,363,178</b>	<b>3,171,930</b>	<b>(191,248)</b>	<b>4,326,220</b>	<b>(160,000)</b>
<b>Addasiadau Diwedd Blwyddyn</b>						
Taliadau Cyllido Cyfalaf	3,093,000	0	0	0	3,093,000	0
Ad-daliad o'r Gwasanaeth Tai	790,630	0	0	0	790,630	0
Ad-daliad o'r Gwasanaethau Canolog	818,990	0	0	0	818,990	0
<b>Cyfanswm yr Addasiadau Diwedd Blwyddyn</b>	<b>4,702,620</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>4,702,620</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM GWARIANT REFENIW</b>	<b>10,922,000</b>	<b>4,628,104</b>	<b>4,389,802</b>	<b>(238,302)</b>	<b>10,741,000</b>	<b>(181,000)</b>

<b>CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG</b>	<b>(7,834,000)</b>	<b>(9,616,648)</b>	<b>(9,658,183)</b>	<b>(41,535)</b>	<b>(7,865,000)</b>	<b>(31,000)</b>
<b>CYFRIF GWARIANT CYFALAF</b>						
Gwariant 2020/21	19,032,093	7,715,000	7,355,346	(359,654)	11,010,058	(8,022,035)
Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Mawr	(2,660,000)	0	0	0	(2,660,000)	0
<b>Grantiau Eraill</b>	<b>(1,450,000)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1,450,000)</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG</b>	<b>14,922,093</b>	<b>7,715,000</b>	<b>7,355,346</b>	<b>(359,654)</b>	<b>6,900,058</b>	<b>(8,022,035)</b>
<b>(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT</b>	<b>7,088,093</b>	<b>(1,901,648)</b>	<b>(2,302,837)</b>	<b>(401,189)</b>	<b>(964,942)</b>	<b>(8,053,035)</b>
<b>Balans Agoriadol y CRT</b>	<b>(8,597,000)</b>				<b>(8,597,000)</b>	
<b>(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn y CRT</b>	<b>7,088,093</b>				<b>(964,942)</b>	
<b>Balans Cau'r CRT</b>	<b>1,508,907</b>				<b>(9,561,942)</b>	



ATODIAD B

<b>Gwasanaeth</b>	<b>Cyllideb Flynyddol (£)</b>	<b>Cyllideb a Broffiliwyd (£)</b>	<b>Cyfanswm Gwariant (£)</b>	<b>Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£)</b>	<b>Gwariant a Ragamcendir (£)</b>	<b>Tan/Gorwariant a Ragamcendir (£)</b>
<b><u>CRT Tai</u></b>						
Contract Gwres Canolog	400,000	0	0	0	0	(400,000)
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	6,120,000	3,500,000	3,072,558	(427,442)	4,500,000	(1,620,000)
Gwella Perfformiad Ynni	537,000	0	3,978	3,978	150,000	(387,000)
Gwaith Amgylcheddol	750,000	65,000	63,909	(1,091)	100,000	(650,000)
Prynu Eiddo Presennol / Datblygu Eiddo Newydd	9,230,000	3,500,000	3,559,810	59,810	5,250,000	(3,980,000)
Ailfodelu'r Stoc Gyfredol	2,218	0	50,485	50,485	50,485	48,267
Addasiadau Sector Cyhoeddus	350,000	90,000	83,682	(6,318)	150,000	(200,000)
Risg Tân	450,000	60,000	38,619	(21,381)	100,000	(350,000)
SATC	1,172,875	500,000	482,305	(17,695)	700,000	(472,875)
Gwaith Adfer	20,000	0	0	0	9,573	(10,427)
<b>Cyfansymiau ar gyfer y CRT</b>	<b>19,032,093</b>	<b>7,715,000</b>	<b>7,355,346</b>	<b>(359,654)</b>	<b>11,010,058</b>	<b>(8,022,035)</b>

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>01 MAWRTH 2021</b>
<b>PWNC:</b>	<b>DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2021/22</b>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	<b>MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>JEMMA ROBINSON, UWCH GYFRIFYDD</b>
<p><b>Natur a rheswm dros adrodd</b> Ar gyfer sgrwtini – yn gyson â chyngor proffesiynol.</p>	

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer materion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell y dylai'r Aelodau graffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys) cyn i'r cyfryw Ddatganiad gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.
2. Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) a'r atodlenni cysylltiedig, ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgrwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi cynhyrchu ARhT ysgrifenedig a awdurdodwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 11 Chwefror 2020.
3. O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, does dim newidiadau yn cael eu cynnig i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2020/21.
4. Fel y nodwyd yn Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2020/21, a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 14 Rhagfyr 2020, oherwydd y grantiau mawr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddelio ag argyfwng Covid ac argaeledd cyfrifon galw i'r Cyngor, mae balansau'r Cyngor mewn cyfrifon galw wedi bod yn uwch na'r terfynau a gymeradwywir yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21. Wrth gynhyrchu Strategaeth ar gyfer 2020/21 nid oedd modd rhagweld y cyfnod digynsail hwn. Yn wyneb hynny, mae terfynau gwrthbartïon wedi'u hasesu a'u hadolygu wrth gynhyrchu'r Strategaeth ar gyfer 2021/22. Mae Atodiad 8 wedi'i ddiwygio (gan gyfeirio'n benodol at derfyn arian parod Banc NatWest).
5. O dan y Côd Ymarfer diwygiedig, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthycy a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddwy strategaeth yn cael eu gweithredu mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd a chan gymryd i ystyriaeth yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.

## **6. Argymhellion**

- Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor llawn.
- Ystyried y cynnydd yn y terfynau trafodion yn Atodiad 8 (fel y nodwyd ym mhwynt 4 uchod) a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor llawn.

## DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

## STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD AR Y POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (DIR) A'R DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2021/22

## 1. CEFNDIR

## 1.1. Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

*“The management of the local authority’s borrowing, investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks.”*

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisïau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

**1.2.** Rhaid i'r Cyngor redeg cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel neu offerynnau sy'n gydnaws ag archwaeth risg isel y Cyngor, gan roi blaenoriaeth i hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn yr elw o'r buddsoddiadau.

**1.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthycar'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor.

**1.4** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 2. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

**2.1.** Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar y Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion am unrhyw risgiau cysylltiedig a'r modd y byddant yn cael eu rheoli, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Nod y strategaeth gyfalaf hon yw sicrhau bod pob aelod etholedig ar y Cyngor llawn yn deall yn llawn yr amcanion polisi tymor hir cyffredinol a'r gofynion strategaeth gyfalaf, y gweithdrefnau llywodraethu a'r archwaeth risg sy'n deillio o hynny.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf ac sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthycar, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus ac yn penderfynu archwaeth risg y Cyngor mewn perthynas â buddsoddiadau.

2.2. Nodir prif egwyddorion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

### 3. CYD-DESTUN ALLANOL

3.1. Ni feddir llunio Strategaeth Rheoli Trysorlys heb ystyried y sefyllfa economaidd hefyd, a hynny oherwydd bod cyflwr yr economi'n cael effaith ar gyfraddau llog a geir o fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrthbartion. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Mae twf ariannol y byd wedi bod mewn dirwasgiad yn 2020 ac mae hyn yn debygol o barhau i hanner cyntaf 2021 cyn gwella yn yr ail hanner.
- Disgwylir i chwyddiant gyrraedd uchafswm ychydig dros 2% am gyfnod byr tuag at ddiwedd 2021, ond ffactor byrhoedlog dros dro yw hwn.
- Ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU ac Ardal yr Ewro. Fodd bynnag, mae cytuno ar fargen fasnach ym mis Rhagfyr 2020 wedi dileu risg anfantais sylweddol i economi'r DU.
- Mae enillion ar fuddsoddiadau'n debygol o barhau i fod yn eithriadol o isel yn ystod 2020/21 a heb fawr o gynnydd yn y ddwy flynedd ddilynol.

3.2. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y Cyngor ynghylch lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

**Tabl 1**  
**Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2024**

Cyfartaledd Blynnyddol	Cyfradd Banc (%)	Cyfraddau Benthycyca BBGC (gan gynnwys addasiad cyfradd sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 mlynedd	50 mlynedd
Mawrth 2021	0.10	0.80	1.50	1.30
Mehefin 2021	0.10	0.80	1.60	1.40
Medi 2021	0.10	0.80	1.60	1.40
Rhagfyr 2021	0.10	0.80	1.60	1.40
Mawrth 2022	0.10	0.90	1.60	1.40
Mehefin 2022	0.10	0.90	1.70	1.50
Medi 2022	0.10	0.90	1.70	1.50
Rhagfyr 2022	0.10	0.90	1.70	1.50
Mawrth 2023	0.10	0.90	1.70	1.50
Mehefin 2023	0.10	1.00	1.80	1.60
Medi 2023	0.10	1.00	1.80	1.60
Rhagfyr 2023	0.10	1.00	1.80	1.60
Mawrth 2024	0.10	1.00	1.80	1.60

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Asset Services ynghlwm yn **Atodiad 4**.

Gostyngodd cyfraddau llog ar fenthyciadau i gyfraddau isel iawn o ganlyniad i argyfwng COVID ac yn sgil gweithrediadau lleddfu meintiol gan Fanc Lloegr. Roedd y cynnydd annisgwyl o 100 bps yng nghyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar ben yr elw ar y pryd ynghylch enillion o giltiau o 80 bps ym mis Hydref 2019, yn golygu y bu angen, ar y dechrau, ailystyried strategaethau rheoli trysorlys a rheoli risg yr awdurdod i raddau helaeth iawn. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2020, cychwynnodd y Llywodraeth broses ymgynghori ar gyfer adolygu'r elw dros gyfraddau gilt ar gyfer benthyciadau BBGC mewn perthynas â gwahanol fathau o wariant cyfalaf gan awdurdodau lleol. Ar 25.11.20, cyhoeddodd y Canghellor gasgliad yr adolygiad hwnnw a gostyngwyd yr elwon safonol a sicrwydd 1% ond cyflwynwyd gwaharddiad i nadu unrhyw awdurdod lleol a oedd wedi prynu asedau ar gyfer elw yn eu rhaglenni cyfalaf tair blynedd rhag cael benthyca gan y BBGC.

**3.3.** Mae'n annhebygol y bydd y Gyfradd Banc yn codi o 0.10% am gyfnod sylweddol. Mae'n anodd iawn dweud pryd y gallai ddechrau codi. O ystyried y rhagolygon ar gyfer y gyfradd banc sylfaenol, mae'r cyfraddau elw tybiedig ar fuddsoddiadau am gyfnodau hyd at oddeutu dri mis yn ystod pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn (mae'r rhagolwg tymor hir ar gyfer cyfnodau dros 10 mlynedd yn y dyfodol):-

2020/21: 0.10%;  
 2021/22: 0.10%;  
 2022/23: 0.10%;  
 2023/24: 0.10%;  
 2024/25: 0.25%;  
 Blynyddoedd y tymor hir: 2.00%.

**3.4** Mae'n debygol bod y cydbwysedd cyffredinol o ran risgiau i dwf economaidd yn y DU bellach yn gogwyddo tuag at sefyllfa sy'n fwy ffafriol, ond mae ansicrwydd mawr oherwydd y firws a pha mor gyflym y gall brechlynnau llwyddiannus fod ar gael a pha mor gyflym y gellir eu rhoi i'r boblogaeth ehangach. Mae ansicrwydd ynghylch Brexit mewn perthynas ag effaith economaidd y fargen y cytunwyd arni rhwng y DU a'r UE. Mewn termau cymharol, nid oes ond ychydig o risg ddomestig yn y DU o godiadau neu ostyngiadau yn y Gyfradd Banc a newidiadau sylweddol yng nghyfraddau tymor byrrach y BBGC. Mae Banc Lloegr i bob pwrpas wedi diystyru defnyddio cyfraddau llog negyddol yn y tymor byr iawn ac mae codiadau yn y Gyfradd Banc yn debygol o fod rai blynyddoedd i ffwrdd o ystyried y disgwyliadau economaidd sylfaenol. Fodd bynnag, mae bob amser yn bosib y gallai arian sy'n llifo i hafanau diogel, oherwydd datblygiadau domestig annisgwyl a datblygiadau mewn economïau mawr eraill, neu gynnydd yn lefelau hyder buddsoddwyr mewn ecwitiâu, effeithio ar elw o giltiau, (ac felly gyfraddau'r BBGC), yn y DU.

**3.5** Mae'r cyfraddau ar gyfer cymryd benthyg a rhoi benthyg arian rhwng awdurdodau lleol hefyd wedi gostwng oherwydd y cynnydd mawr yn lefelau'r arian parod y ceisir cartref tymor byr ar eu cyfer ar adeg pan mae'n debygol bod llawer o awdurdodau lleol yn cael anawsterau wrth ragweld yn gywir pryd y byddant yn talu arian a dderbynnir neu pryd y byddant yn derbyn rhagor o ddyraniadau ariannol mawr gan y Llywodraeth.

**4. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR**

**4.1. Benthycia**

**4.1.1** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

**Tabl 2**  
**Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd**

<b>BENTHYCIADAU BBGC</b>					
	<b>BBGC / BBGC – Aeddfedu</b>	<b>BBGC/ Blwydd-dal</b>	<b>Benthyciadau Marchnad</b>	<b>BBGC Amrywiol</b>	<b>Cyfanswm Aeddfedu</b>
Benthyciad sy'n weddill	£121,684k	£208k	£0k	£0k	£121,892k
Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd)	30.62	5.28	0.00	0.00	30.57
Cyfradd ar gyfartaledd (%)	4.58	9.42	0.00	0.00	4.59

<b>BENTHYCIADAU ERAILL</b>						
	<b>Salix Benthyciad 1</b>	<b>Salix Benthyciad 2</b>	<b>Salix Benthyciad 3</b>	<b>Salix Benthyciad 4</b>	<b>Salix Benthyciad 5</b>	<b>Cyfanswm</b>
Balans sy'n Weddill	£58k	£228k	£509k	£224k	£1,614k	£2,633k
Dyddiad Ad-dalu	2024/25	2025/26	2028/29	2029/30	2030/31	
Cyfradd Llog (%)	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	

## 4.2 Buddsoddiadau

4.1.1. Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuon tymor byr, cyfrifon 'ar alw' a chydag awdurdodau lleol eraill yn y DU. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2020 oedd £34.8m).

4.1.2. Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau yn y lle cyntaf ddiogelwch yr adneuon, eu hylifedd yn yr ail le ac yna'r enillion ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd yr enillion ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac, ar hyn o bryd, mae'r elw cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.09% (fel ar 31 Rhagfyr 2020).

## 5. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

5.1. Caiff gwariant cyfalaf ei gyllido'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf, fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, i'w gweld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**  
**Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2021/22 – 2023/24**

	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>	<b>2022/23</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Gwariant nad yw'n ymwneud â'r CRT</b>	<b>15,842</b>	<b>16,380</b>	<b>17,721</b>
<b>Cyfrif Refeniw Tai (CRT)</b>	<b>20,313</b>	<b>18,816</b>	<b>22,670</b>
<b>Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM Y GWARIANT</b>	<b>36,155</b>	<b>35,196</b>	<b>39,891</b>
<b>Yn cael eu cyllido drwy</b>			
<b>Grantiau Cyfalaf</b>	<b>12,042</b>	<b>9,181</b>	<b>10,282</b>
<b>Derbyniadau Cyfalaf</b>	<b>0</b>	<b>100</b>	<b>100</b>
<b>Arian Wrth Gefn</b>	<b>921</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Refeniw</b>	<b>15,639</b>	<b>10,156</b>	<b>10,510</b>
<b>Y Balans a Gyllidir o Fenthyciadau</b>	<b>7,553</b>	<b>15,759</b>	<b>18,999</b>



- 5.2. Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthycia ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia. Nid yw benthycia wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC (PWLB) gan ei fod hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthycia mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.
- 5.3. Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthycia.
- 5.4. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2021/22 yn **Atodiad 6**. Cafodd DRI y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2021/22. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r lefel o fenthycia mewnol.
- 5.5. Bydd y polisi'n darparu ar gyfer tâl cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac, yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y tâl DRI yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei chyllido o'r benthyciad, e.e. os cafodd £1m ei fenthycia i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DRI blynyddol ar y benthyciad hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth gymryd benthyciadau newydd, bydd y tâl DRI yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor. Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DRI hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod ar gyfer ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2020, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £212k ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a ariannwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.
- 5.6. Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthycia allanol a mewnol yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**  
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2020/21 i 2023/24**

	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000
<b>Gofyniad Cyllido Cyfalaf</b>				
<b>Balans Agoriadol y GCC</b>	<b>136,904</b>	<b>142,687</b>	<b>146,084</b>	<b>157,552</b>
Gwariant Cyfalaf	33,798	36,155	35,196	39,981
Grantiau Cyfalaf Allanol	(14,976)	(12,042)	(9,181)	(10,283)
Derbyniadau Cyfalaf	(665)	0	(100)	(100)
Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn	(8,878)	(16,560)	(10,156)	(10,510)
Darpariaeth Refeniw Isaf	(3,496)	(4,156)	(4,291)	(4,590)
<b>BALANS CAU'R GCC</b>	<b>142,687</b>	<b>146,084</b>	<b>157,552</b>	<b>171,960</b>

	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000
<b>Benthyciadau Allanol</b>				
<b>Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol</b>		<b>139,232</b>	<b>133,803</b>	<b>140,991</b>
Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf		9,279	7,553	15,759
Benthyca i Gyllido Ad-daliadau ar Fenthyciadau		0	0	0
Benthyciadau yn lle Benthyca'n Fewnol		0	0	0
Ad-dalu Benthyciadau		(14,708)	(365)	(2,651)
<b>Balans Cau Benthyciadau Allanol</b>		<b>133,803</b>	<b>140,991</b>	<b>154,099</b>
<b>Benthyciadau Mewnol</b>				
<b>Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol</b>		<b>(2,328)</b>	<b>8,884</b>	<b>5,093</b>
Amnewid Benthyca Mewnol		0	0	0
Cyllido Ad-daliadau o Fenthyciadau Allanol		0	0	0
Ad-dalu Benthyciadau Allanol		14,708	365	2,651
Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf			0	0
Darpariaeth Refeniw Isaf		(3,496)	(4,156)	(4,291)
<b>Balans Cau Benthyciadau Mewnol</b>		<b>8,884</b>	<b>5,093</b>	<b>3,453</b>
<b>CYFANSWM Y BENTHYCIADAU</b>		<b>142,687</b>	<b>146,084</b>	<b>157,552</b>
				<b>171,960</b>

## 6. STRATEGAETH FENTHYCA

6.1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) heb ei gyllido'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus oherwydd bod enillion ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrthbartion yn fater sy'n parhau i fod angen ei gymryd i ystyriaeth. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau, petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £8.884m yn allanol petai angen brys. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

6.2. Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2021/22. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- Os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr nag a ragwelir ar hyn o bryd, efallai oherwydd cyflymu dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn yr UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir y byddant yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y bo modd.

### 6.3. Benthycia Mewnol yn erbyn Benthycia Allanol

- 6.3.1.** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthycia mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisiau blaenorol i allanoli'r holl fenthycia yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-
- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.
- 6.3.2.** Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-
- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu o ran y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
  - Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthycia a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.
- 6.3.3** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthycia allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthycia mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.
- 6.3.4** Fodd bynnag, rhaid pwysu a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthycia allanol tymor hir yn 2021/22 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthycia mewnol.

### 6.4 Benthycia ymlaen llawn i gwrdd ag Anghenion

- 6.4.1** Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.
- 6.4.2** Wrth benderfynu a ddylid benthycia cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn:-
1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthycia cyn i'r angen godi;
  2. sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol, wedi eu hystyried;
  3. pwysu a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthycia;
  4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
  5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; ac
  6. ystyried effaith benthycia ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrthbarti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

**6.4.3** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd i fenthycia cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

## **6.5. Aildrefnu Dyledion**

**6.5.1** Mae'n annhebygol y byddir yn aildrefnu'r benthyciadau yn ein portffolio dyled ar hyn o bryd gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthycia newydd, er bod yr elw cyffredinol o ran cyfraddau BBGC dros gynnyrch enillion gilt wedi ostwng 100 bps ym mis Tachwedd 2020.

**6.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
- gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

**6.5.3** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng i ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

**6.5.4** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddynt ddiwydd.

## **6.6. Proffil Dyledion**

**6.6.1** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthycia yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwyddal) a chyfnod y benthyciad.

## **7. STRATEGAETH FUDDSODDI**

**7.1** Cyllid mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Er bod angen y rhan fwyaf o falansau ariannol i reoli cynnydd a gostyngiadau mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

- Os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy.
- Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar yr cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy.

## 7.2 Rheoli Risg

**7.2.1.** Mae CIPFA wedi ehangu ystyr ‘buddsoddiadau’ i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y tîm rheoli trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, sef, yn ei hanfod, prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

**7.2.2** Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (“y Canllawiau”);
- Côt Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus 2017 (“y Côt”);
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2018;
- Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion).

**7.2.3** Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Awdurdod hwn wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg ac mae'n diffinio ei archwaeth risg fel a ganlyn: -

1. Defnyddir **meini prawf sylfaenol ran statws credyd** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartion sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartion yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.
2. **Gwybodaeth arall:** nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd (“**credit default swaps**”) ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y graddfeydd credyd.
3. Bydd **ffynonellau gwybodaeth eraill** a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgrwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrthbartion y gellir bod yn buddsoddi ynddynt.
4. Mae'r Awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae gan y tîm rheoli trysorlys awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** dan y categorïau ‘penodol’ ac ‘amhenodol’.
  - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn. Mae'r holl fuddsoddiadau gydag awdurdodau lleol hefyd yn fuddsoddiadau penodol waeth beth yw hyd y cyfnod tan y byddant yn aeddfedu.
  - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio. Mae buddsoddiadau, [heblaw buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol], a fyddai'n fuddsoddiadau penodol ar wahân i fod yn wreiddiol am gyfnod hwy na 12 mis, yn parhau i fod yn rhai amhenodol hyd yn oed pan fydd y cyfnod sy'n weddill tan iddynt aeddfedu yn llai na deuddeg mis.)

5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol.** Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol drwy sicrhau na wneir unrhyw fuddsoddiad amhenodol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau amhenodol, nac yn meddwl am wneud hynny yn ystod 2021/22 (gweler **Atodiad 7**).
6. Bydd **cyfyngiadau benthyca** (symiau ac aeddfedrwydd) ar gyfer pob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrices fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.
7. Nodir **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad yn **Atodiad 8**.
8. Bydd yr Awdurdod hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod** (gweler **Atodiad 11**).
9. Ni fydd buddsoddiadau ond yn cael eu gwneud mewn gwrthbartion o wledydd sydd â graddfa sofraniaeth sylaenol (gweler **Atodiad 9**).
10. Mae'r Awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw ac yn wyneb afrchwaeth risg yr Awdurdod hwn yng nghyd-destun lefel ddisgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.
11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.
12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2020/21 dan **IFRS 9**, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau buddsoddi a allai arwain at newid andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r taliadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo darpariaeth statudol sy'n rhoi amser i awdurdodau lleol Cymru addasu eu portffolios o'r holl fuddsoddiadau cyfun trwy ohirio gweithredu IFRS 9 am bum mlynedd tan 31.03.23.

### 7.3 Polisi Teilyngdod Credyd

**7.31.** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau, er bod elw neu enillion ar fuddsoddiadau hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol, a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodol ac amhenodol; a
- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.

**7.3.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartion yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo pan fo angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu pa fathau o offerynnau buddsoddi sy'n offerynnau penodol neu'n offerynnau amhenodol, a hynny oherwydd eu bod yn darparu cronfa gyffredinol o wrthbartion yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio, yn hytrach na'u bod yn feini prawf sy'n diffinio'r math o offerynnau buddsoddi a fydd yn cael eu defnyddio.

**7.3.3** Caiff gwybodaeth am statws credyd ei darparu gan Link Group, ein hymgyngorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrthbartion sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrthbartion sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrthbartion. Bydd manylion am newidiadau i'r graddfeydd, manylion am y duedd tymor hwy, newidiadau tebygol i'r graddfeydd (Watches), gwybodaeth ynghylch y duedd tymor hwy y tu allan i'r farn graddfa ganolog (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrthbarti sydd yn cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

**7.3.4** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf staws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu statws credyd gwrthbartion:-

- Ystyrir rhagolygon credyd (Watches) a gweithgareddau monitro credyd (Outlook) gan asiantaethau statws credyd;
- Taenu yswirio colledion credyd (credit default swaps) i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartion o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng o gael credyd yn unig.

**7.3.5** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd (Watches) a rhagolygon credyd (Outlook) mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o yswiriannau colledion credyd a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o greddyd yw gwrthbartion. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartion o fewn y cyfnodau canlynol:-

Melyn: 5 mlynedd \*

Pinc tywyll: 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.25

Pinc golau: 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.5

Piws: 2 flynedd

Glas: 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led- wladolwyd)

Oren: 1 flwyddyn

Coch: 6 mis

Gwyrdd: 100 diwrnod

Dim Lliw: Dim i'w ddefnyddio

**7.3.6** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

**7.3.7** Fel arfer, y meini prawf isaf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer credyd fydd graddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 a graddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysuron pan fydd graddfeydd un asiantaeth ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyriaeth i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael, neu wybodaeth berthnasol arall am y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnyddio.

**7.3.8** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth oherwydd ei fod yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

- Os bydd cwmp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.
- Yn ogystal â graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y gweithgareddau 'yswirio colledion credyd' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad drwy ei wefan 'Passport', a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link Asset Services. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.

**7.3.9** Ni fyddir yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data a gwybodaeth am y farchnad, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol a roddwyd i fanciau i'w helpu gyda'i broses gwneud penderfyniadau.

**7.3.10** Er i'r asiantaethau statws credyd newid eu rhagolygon ar gyfer llawer o fanciau'r DU o Sefydlog i Negyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30.06.20 oherwydd y risgiau yn y dyfodol i enillion ac ansawdd asedau banciau yn ystod y dirywiad economaidd a achoswyd gan y pandemig, cadarnhawyd mwyafrif y cyfraddau oherwydd bod proffiliau credyd sefydliadau ariannol mawr yn parhau i fod yn gryf, gan gynnwys banciau'r DU. Fodd bynnag, yn ystod Ch1 a Ch2 2020, gwnaeth banciau ddarpariaethau ar gyfer colledion credyd yr oeddent yn eu disgwyl ac roedd y newidiadau yn y graddfeydd yn adlewyrchu'r darpariaethau hyn. Wrth i ni symud i chwarteri'r dyfodol, bydd mwy o wybodaeth yn dod i'r amlwg am y colledion credyd a gafwyd mewn gwirionedd. (Cyhoeddir adroddiadau chwarterol ar enillion fel arfer yn ail hanner y mis ar ôl diwedd y chwarter.) Gallai hyn beri i asiantaethau ailedrych ar eu haddasiadau cychwynol i'r graddfeydd a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn gyfredol. Gallai'r addasiadau hyn olygu bod y graddfeydd yn mynd i fyny neu i lawr, er y dylid cofio hefyd bod banciau wedi mynd i'r pandemig hwn gyda mantolenni cryf. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i newidiadau rheoliadol a orfodwyd ar fanciau yn dilyn yr Argyfwng Ariannol Mawr. Yn wir, yn adroddiad y Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC) ar 6 Awst mae'r Pwyllgor hwnnw wedi adolygu'r colledion credyd disgwylidig ar gyfer sector bancio'r DU ac wedi gostwng y ffigwr disgwylidig i "ychydig yn llai na £80bn". Nododd, yn ei asesiad "banks have buffers of capital more than sufficient to absorb the losses that are likely to arise under the MPC's central projection". , Nododd y Pwyllgor, i'r sector fod dan straen go iawn, y byddai angen i'r allbwn economaidd fod ddwywaith yn waeth nag amcangyfrif y Pwyllgor Polisi Ariannol, gyda diweithdra'n codi i dros 15%.

**7.3.11** Mae'r tair asiantaeth graddfeydd wedi adolygu banciau ledled y byd ac wedi dod i ganlyniadau tebyg ar gyfer llawer o wledydd, sef bod y mwyafrif yn cael graddfa Rhagolwg Negyddol, ond dim ond nifer fach o israddiadau sydd wedi cael eu gwneud mewn gwirionedd.

**7.3.12** Er bod prisiau CDS banciau, (dangosyddion o risgiau credyd yn farchnad), wedi codi ddiwedd mis Mawrth / dechrau Ebrill 2020 oherwydd bod mwy o ansicrwydd yn y farchnad a'r argyfwng hylifedd a effeithiodd ar farchnadoedd ariannol, maent wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol ers hynny. Serch hynny, mae prisiau'n dal i fod yn uchel o gymharu â rhai diwedd mis Chwefror 2020. Mae prisiau'n debygol o barhau i fod yn gyfnewidiol wrth i'r ansicrwydd barhau. Fodd bynnag, gall y sefyllfa newid yn sydyn, felly bydd yn parhau i fod yn bwysig i ni ddal ati i fonitro pob agwedd ar risg ac elw o dan yr amgylchiadau presennol. Mae Link yn monitro prisiau CDS fel rhan o'u gwasanaeth teilyngdod credyd i awdurdodau lleol ac mae gan y Cyngor fynediad i'r wybodaeth hon trwy ei borth 'Passport' a ddarperir gan Link.



## 7.4 Cyfyngiadau Gwleidydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn **yn Atodiad 9**. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

## 8. LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

**8.1** Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at hunanreoleiddio ar gyfer awdurdodau lleol ac mae llywodraethiant corfforaethol effeithol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

**8.2** Mae Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli Trysorlys i Aelodau.

### 8.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

**8.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**8.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**8.3.3.** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgrwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys ar 7 Tachwedd 2019. Trefnir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**8.3.4** Mae'r Mae'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys ac eglurhad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 ar gael yn **Atodiad 10**.

## 8.4 Cyngor Rheoli Trysorlys

**8.4.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Asset Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar gyfer materion rheoli trysorlys. Hysbysebwyd tendr ar gyfer y gwasanaeth ymgynghorol Rheoli Trysorlys am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd, a Link Asset Services (Capita Asset Services gynt) a gyflwynodd y tendr llwyddiannus. Penderfynodd y Cyngor wneud defnydd o'r opsiwn i ymestyn y contract am ddwy flynedd. Yn unol â rheoliadau caffael, bydd y Cyngor yn ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021 am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2026 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd.

**8.4.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgyngorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod hefo'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli trysorlys.

**8.4.3** Mae hefyd yn cydnabod gwerth cyflogi cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn medru manteisio ar sgiliau ac adnoddau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau o asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.

## 8.5 Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

**8.5.1** Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn **Atodiad 11** yn ymwneud â fforddiadwyedd a darbodusrwydd ac yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond hefyd i ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn **Atodiad 12**.

## 8.6 Adrodd

**8.6.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Mae angen i'r adroddiadau hyn gael sylw digonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethant sy'n gyfrifol am y rôl hon.

**8.6.2 Dangosyddion Rheoli Darbodus a'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys** adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn ymwneud â'r isod:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthychiadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**8.6.3 Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn** – bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, yn diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**8.6.4 Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys** – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn darparu manylion am ddetholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a'r gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

## **ATODIADAU**

- 1** Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
- 2** Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
- 3** Cefndir economaidd
- 4** Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
- 5** Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
- 6** Datganiad Polisi DRI
- 7** Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
- 8** Meini Prawf Gwrthbartïon
- 9** Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
- 10** Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151.
- 11** Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
- 12** Eglurhad ar y Dangosyddion Darbodus
- 13** Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

## Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys

- 1 Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : “Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr Awdurdod, ei fancio, trafodion marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf: rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny”.
- 2 Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.
- 3 Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion ennill gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg mewn modd effeithiol.

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA *Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2011)*, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**

Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

**Egwyddor Allweddol 2:**

Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd wrth fuddsoddi arian.

**Egwyddor Allweddol 3:**

Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:

“Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli trysorlys sy'n perfformio'n gryf”.

“Er ei fod yn dyddio'n ôl i 1991, mae CIPFA yn ystyried bod yr adroddiad gan Bwyllgor y Trysorlys a'r Gwasanaeth Sifil o Dŷ'r Cyffredin ar gau'r BCCI yn dal i fod yn berthnasol, ac yn yr adroddiad fe ddywedwyd :

*“Wrth gydbwyso'r risg yn erbyn elw, dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio mwy ar osgoi risgiau nag ar wneud yr elw mwyaf.”*

“Yn wir, cefnogwyd y farn hon gan adroddiad Pwyllgor Dethol Cymunedau a Llywodraeth Leol ar fuddsoddiadau awdurdodau lleol yn 2009.”

“Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael gydbwysedd a chyfrifoldeb brwd am arian cyhoeddus.”

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog;

1. Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-
  - Datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli trysorlys; a
  - Arferion Rheoli Trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.


2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, ymarferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.
3. Y Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisïau ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod ar yr ARhT ac os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli Trysorlys.
4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar y polisïau, yr arferion a'r perfformiad yn y maes rheoli trysorlys.

## ECONOMIC BACKGROUND

- **UK.** The key quarterly meeting of the Bank of England Monetary Policy Committee kept **Bank Rate** unchanged on 5.11.20. However, it revised its economic forecasts to take account of a second national lockdown from 5.11.20 to 2.12.20 which is obviously going to put back economic recovery and do further damage to the economy. It therefore decided to do a further tranche of **quantitative easing (QE) of £150bn**, to start in January when the current programme of £300bn of QE, announced in March to June, runs out. It did this so that “announcing further asset purchases now should support the economy and help to ensure the unavoidable near-term slowdown in activity was not amplified by a tightening in monetary conditions that could slow the return of inflation to the target”.
- Its forecasts appeared, at that time, to be rather optimistic in terms of three areas:
  - The economy would recover to reach its pre-pandemic level in Q1 2022
  - The Bank also expected there to be excess demand in the economy by Q4 2022.
  - CPI inflation was therefore projected to be a bit above its 2% target by the start of 2023 and the “inflation risks were judged to be balanced”.
- Significantly, there was no mention of **negative interest rates** in the minutes or Monetary Policy Report, suggesting that the MPC remains some way from being persuaded of the case for such a policy, at least for the next 6 -12 months. However, rather than saying that it “stands ready to adjust monetary policy”, the MPC this time said that it will take “whatever additional action was necessary to achieve its remit”. The latter seems stronger and wider and may indicate the Bank’s willingness to embrace new tools.
- One key addition to **the Bank’s forward guidance in August** was a new phrase in the policy statement, namely that “it does not intend to tighten monetary policy until there is clear evidence that significant progress is being made in eliminating spare capacity and achieving the 2% target sustainably”. That seems designed to say, in effect, that even if inflation rises to 2% in a couple of years’ time, do not expect any action from the MPC to raise Bank Rate – until they can clearly see that level of inflation is going to be persistently above target if it takes no action to raise Bank Rate. Our Bank Rate forecast currently shows no increase, (or decrease), through to quarter 1 2024 but there could well be no increase during the next five years as it will take some years to eliminate spare capacity in the economy, and therefore for inflationary pressures to rise to cause the MPC concern. **Inflation** is expected to briefly peak at just over 2% towards the end of 2021, but this is a temporary short lived factor due to base effects from twelve months ago falling out of the calculation, and so is not a concern. Looking further ahead, it is also unlikely to be a problem for some years as it will take a prolonged time for spare capacity in the economy, created by this downturn, to be used up.
- **Public borrowing** was forecast in November by the Office for Budget Responsibility (the OBR) to reach £394bn in the current financial year, the highest ever peace time deficit and equivalent to 19% of GDP. In normal times, such an increase in total gilt issuance would lead to a rise in gilt yields, and so PWLB rates. However, the QE done by the Bank of England has depressed gilt yields to historic low levels, (as has similarly occurred with QE and debt issued in the US, the EU and Japan). This means that new UK debt being issued, and this is being done across the whole yield curve in all maturities, is locking in those historic low levels through until maturity. In addition, the UK has one of the longest average maturities for its entire debt portfolio, of any country in the world. Overall, this means that the total interest bill paid by the Government is manageable despite the huge increase in the total amount of debt. The OBR was also forecasting that the government will still be running a budget deficit of £102bn (3.9% of GDP) by 2025/26. However, initial impressions are that they have taken a pessimistic view of the impact that vaccines could make in the speed of economic recovery.
- Overall, **the pace of recovery** was not expected to be in the form of a rapid V shape, but a more elongated and prolonged one. The initial recovery was sharp after quarter 1 saw growth at -3.0% followed by -18.8% in quarter 2 and then an upswing of +16.0% in quarter 3; this still left the economy 8.6% smaller than in Q4 2019. While the one month second national lockdown that started on 5<sup>th</sup> November caused a further contraction of 5.7% m/m in November, this was much better than had been feared and showed that the economy is adapting to new ways of working. This left the economy ‘only’ 8.6% below the pre-crisis level.

- Vaccines – the game changer.** The Pfizer announcement on 9<sup>th</sup> November of a successful vaccine has been followed by approval of the Oxford University/AstraZeneca and Moderna vaccines. The Government has set a target to vaccinate 14 million people in the most at risk sectors of the population by 15th February; as of mid-January, it has made good, and accelerating progress in hitting that target. The aim is to vaccinate all adults by September. This means that the national lockdown starting in early January, could be replaced by regional tiers of lighter restrictions, beginning possibly in Q2. At that point, there would be less reason to fear that hospitals could become overwhelmed any more. Effective vaccines have radically improved the economic outlook so that it may now be possible for GDP to recover to its pre-virus level as early as Q1 2022. These vaccines have enormously boosted confidence that **life could largely return to normal during the second half of 2021**. With the household saving rate having been exceptionally high since the first lockdown in March, there is plenty of pent-up demand and purchasing power stored up for when life returns to normal.
- Provided that both monetary and fiscal policy are kept loose for a few years yet, then it is still possible that in the second half of this decade, the economy may be no smaller than it would have been if COVID-19 never happened. The significant risk is if another mutation of COVID-19 appears that defeats the current batch of vaccines. However, now that science and technology have caught up with understanding this virus, new vaccines ought to be able to be developed more quickly to counter such a development, and vaccine production facilities are being ramped up around the world.


Chart: Level of real GDP (Q4 2019 = 100)



e.e.: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gadael troli siopa a bagiau</li> <li>• Cael gwared ar fagiau sbwriel</li> <li>• Llogi biniau olwynion ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd</li> <li>• Cyfleusterau cyhoeddus - agor atodol</li> </ul>	Costau atodol sy'n codi a thâl gweinyddol 20%	Amrywiol

## Cyfreithiol

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
<b>Taliadau Tir Lleol</b>		
Chwilio (CON29R)	£150.38	S
Ffurflen LLC1	£4 neu £6 ond yn amodol ar gynnydd i £15 gan Llywodraeth Cymru	O/S
Con 29O (ac eithrio cwestiwn 22)	£14.83	S
Con 29O: Cwestiwn 22	£20.29	S
<b>Ffioedd Cyfreithiol Dewisol</b>		
<b>Rhwymedigaethau cynllunio (cytundebau adran 106)</b>		
Annedd fforddiadwy sengl hunan adeiladu	£608.73	O/S
Bydd yr holl drefniadau eraill (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£913.61	O/S
Gweithredoedd rhyddhau syml	£290.46	O/S
<b>Gwerthu tir neu Ganiatáu prydlesau</b>		
Os na phenodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£659.21	S
Os penodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 6 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 6 awr, gweler y cyfraddau isod)	£1,318.01	S
Grantiau o brydlesi (i gynnwys amrywiadau, aseiniadau a datganiadau) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp.	Gwir amser a dreuliwyd ar raddfa yr awr perthnasol*	S
Cytundebau adran 38 a 278 (Deddf Priffyrdd)	£913.61	O/S
Gorchmynion rheoleiddio traffig, os ceir cais gan drydydd parti (ar gyfer 4.5 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 4.5 awr, gweler y cyfraddau isod)	£551.05	O/S
<b>Cofrestr Tir Comin</b>		
Cywiro camgymeriad arall dan Adran 19(2)(b)	£345.05	Gweler nodyn
Diweddarau enwau a chyfeiriadau dan Adran 19 (2)(d)	£57.47	Gweler nodyn
Cydgrynhoi dilysiad dan Adran 19 (2)(e)	£57.47	Gweler nodyn
Ceisiadau dan Atodiad 2, paragraffau 6 i 9 cynhwysol (adeiladau a gofrestrir fel tir comin neu grîn tref a phentref neu tir a gofrestrwyd yn anghywir fel tir comin neu grîn tref neu phentref)	£2,229.95	Gweler nodyn
Sylwer: Mae Treth Ar Werth yn daladwy ar rhai ffioedd sy'n ymwneud â thrafodion eiddo. Lle mae'r eiddo wedi ei gofrestru ar gyfer TAW. Nid yw'r ffioedd uchod yn cynnwys TAW a bydd angen ychwanegu'r gyfradd TAW priodol lle'n berthnasol.		
<b>*Cyfraddau fesul awr priodol</b>		
Pennaeth Swyddogaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol neu Gyfreithiwr	£183.34	Codir TAW yn gyson â'r ymholiad mae'n ymwneud â hi
Unrhyw staff eraill sy'n ennill ffi	£110.21	
SYLWER - bydd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig.		

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	1 MAWRTH 2021
PWNC:	Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB 2021/22
AELOD (AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS
PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:	MARC JONES
AWDUR YR ADRODDIAD: RHIF FFÔN: E-BOST:	MARC JONES 01248 752601 <a href="mailto:rmjfi@ynysmon.gov.uk">rmjfi@ynysmon.gov.uk</a>
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol

## A - A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau

## 1. Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2020/21

## 1.1 Pwrpas

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2021/22. Bydd hynny wedyn yn golygu y gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2021. Y materion y mae gofyn eu cytuno yw: -

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor sy'n deillio ohoni ar gyfer 2021/22;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi iddi gael ei diweddarau;
- Y defnydd a wneir o unrhyw arian unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

## 1.2 Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2021/22 i'w hadolygu a'u cytuno'n derfynol, ynghyd â'u heffaith ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r adroddiad hefyd yn diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol, sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd mwy o wybodaeth ar gael am gyflwr yr economi a phan fydd mwy o eglurder efallai ynghylch y setliadau ariannol a gynnigir ar gyfer llywodraeth leol i'r dyfodol.

## 2. CYLLIDEB REFENIW 2021/22 AC ARGYMHELLION AR GYFER Y DRETH GYNGOR

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd, fel yr amlinellir yn Adran 3 o Atodiad 1 ac Atodiad 2;
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 9 o Atodiad 1 ac Atodiad 3;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio tuag at sicrhau balansau cyffredinol o £7.3m ar y lleiaf;
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir hwy yn Adran 7 o Atodiad 1;

- Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir o £147.420m a chynnydd o 2.75% yn lefel y Dreth Gyngor yn sgil hynny (£35.91 - Band D) i gyfarfod o'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau a godir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2021;
- Gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol trwy ddefnyddio'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2021/22, neu drwy wneud cyfraniad i / o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol ;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo grym i'r Swyddog Adran 151 ryddhau cyllid o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol, sef hyd at £50k ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni cheir cymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k heb gytundeb y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn aros ar 35% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer cartrefi gwag.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol, y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn i'r Cyngor ei ystyried.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

**D - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**

**Beth oedd eu sylwadau?**

1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)</b>	Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses gosod cyllideb o'r cychwyn ac yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol.
2	<b>Swyddog Cyllid / Adran 151 (mandadol)</b>	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)</b>	Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac mae'r UDA wedi ystyried ei sylwadau.
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	-
5	<b>Eiddo</b>	-
6	<b>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</b>	-
7	<b>Sgriwtini</b>	Ystyriwyd y cynigion terfynol gan y Pwyllgor Sgrwitini yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2021. Rhoddir diweddariad ar ganlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor Gwaith ar lafar.

<b>8</b>	<b>Aelodau Lleol</b>	Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i'r holl Aelodau ac ymgynghorwyd â'r Aelodau trwy gydol y broses gosod cyllideb.
<b>9</b>	<b>Unrhyw gyrff allanol / eraill</b>	Gweler Adran 2 yr adroddiad.
<b>E - Risgiau a Chamau Lliniaru (os yn berthnasol)</b>		
<b>1</b>	<b>Economaidd</b>	
<b>2</b>	<b>Gwrthdodi</b>	Bydd codi'r Dreth Gyngor yn effeithio ar lefelau incwm gwario trethdalwyr. Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynorthwyo'r rheini sydd ar incwm isel trwy ostwng y swm sy'n ddyledus yn rhannol neu'n llawn.
<b>3</b>	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	-
<b>4</b>	<b>Amgylcheddol</b>	-
<b>5</b>	<b>Cydraddoldebau</b>	Gweler Adran 11 yn Atodiad 1.
<b>6</b>	<b>Cytundebau Canlyniadau</b>	-
<b>7</b>	<b>Arall</b>	-
<b>F - Atodiadau:</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Atodiad 1 - Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb</li> <li>• Atodiad 2 - Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori</li> <li>• Atodiad 3 - Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2021/22 fesul Gwasanaeth</li> </ul>		
<b>FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2021/22 - Pwyllgor Gwaith - 18 Ionawr 2021</li> <li>• Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2021/22 - Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol - 16 Chwefror 2021</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canol ar gyfer 2021/22 i 2023/24 - Pwyllgor Gwaith - 28 Medi 2020</li> </ul>		

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

- 1.1. Mae'r adroddiad canlynol yn nodi cynigion ar gyfer cyllideb referniw 2021/22 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei neilltuo i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.
- 1.2. Gyrrir y gyllideb referniw a'r angen parhaus i nodi arbedion referniw gan y Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2020, a gellir ei chrynhof fel a ganlyn:-

**Tabl 1**  
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2021/22 i 2023/24**

	2021/22 £'m	2022/23 £'m	2023/24 £'m
Cyllideb Referniw Net a ddygwyd ymlaen	142.146	148.205	151.402
Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant	6.059	3.197	3.009
<b>Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig</b>	<b>148.205</b>	<b>151.402</b>	<b>154.411</b>
Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer 2020/21	101.005	101.005	101.005
Y Dreth Gyngor	41.141	41.141	41.141
<b>Cyfanswm</b>	<b>142.146</b>	<b>142.146</b>	<b>142.146</b>
<b>Y Cyllid Ychwanegol sydd raid wrtho / Arbedion y mae'n rhaid eu gwneud</b>	<b>6.059</b>	<b>9.256</b>	<b>12.265</b>
<b>Prif Ragdybiaethau</b>			
Dyfarniadau Tâl – ac eithrio athrawon	2.6%	2.0%	2.0%
Dyfarniadau Tâl – Athrawon	2.8%	2.0%	2.0%
Chwyddiant Cyffredinol	1.5%	2.0%	2.0%

- 1.3. O ystyried y diffyg gwybodaeth, roedd yn anodd amcangyfrif y newid yn lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22, a hyd yn oed yn anos amcangyfrif y newidiadau yn 2022/23 a 2023/24. Mae'r AEF yn swm sylweddol y mae'r Cyngor wedyn yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor ac unrhyw arbedion y mae'n rhaid iddo eu gwneud bob blwyddyn.
- 1.4. Yn flaenorol, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno ar strategaeth a oedd yn sicrhau cynnydd blynyddol o 5% yn y Dreth Gyngor. Byddai cynnydd o'r fath yn cynhyrchu £2.06m ychwanegol o'r Dreth Gyngor yn 2021/22, £2.16m yn 2022/23 a £2.27m yn 2023/24. Byddai hyn yn cyllido ychydig dros 50% o'r cynnydd o £12.265m mewn costau erbyn 2023/24 gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o unrhyw gynnydd yn y AEF ac arbedion.

## 2. Y CYNNIG CYCHWYNNOL AR GYFER Y GYLLIDEB

- 2.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2021, trafododd y Pwyllgor Gwaith ei gynnig gwreiddiol ar gyfer y gyllideb a'r setliad dros dro yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar 22 Rhagfyr 2020.
- 2.2. Roedd y setliad dros dro yn well na'r disgwyl a byddai'n rhoi £104.825m i'r Cyngor, sy'n gynydd o £3.545m (3.5%) o ran arian parod, ond, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid yn sylfaen dreth y Cyngor, y cynnydd wedi'i addasu oedd £3.456m (3.4%).

- 2.3. Derbyniodd y Pwyllgor Gwaith mai'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2021/22 fyddai £147.076m ac o ystyried yr AEF amodol o £104.825m, byddai hyn yn golygu y byddai angen cynnydd o 2.65% yn y Dreth Gyngor i gydbwysu'r gyllideb.
- 2.4. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn nifer o feysydd i gynyddu capasiti staffio, buddsoddi mewn gwasanaethau i ysgolion ac i ymateb i newidiadau yn y galw o ganlyniad i gynnydd yn nifer y twristiaid a'r angen i ymateb i newid yn yr hinsawdd. Cynigiodd y Pwyllgor hefyd y dylid rhewi pris prydau ysgol. Byddai'r newidiadau hyn yn golygu cynnydd o £0.653m yn y gyllideb refeniw a byddent yn cael eu cyllido o gynnydd mewn ffioedd parcio yn y meysydd parcio tymhorol mewn lleoliadau glan môr (£100k o incwm ychwanegol) a thrwy godi'r Dreth Gyngor 1.1% ychwanegol. Byddai hyn yn golygu cyllideb arfaethedig o £147.531m a chynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.75%.
- 2.5. Nid oedd y cynnig ar gyfer y gyllideb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaethau wneud arbedion ar gyfer 2021/22.
- 2.6. Er na chafodd ei fwriadu fel mesur o'r hyn y dylai cyllideb refeniw net y Cyngor fod, mae'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) yn rhoi rhyw syniad a yw cyllideb y Cyngor ar lefel resymol i'r Cyngor. Yr AGS ar gyfer 2021/22 yw £148.168m ac, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn 99.6% o'r AGS.

### 3. CYFANSODDIAD Y CYNGOR

- 3.1 Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 19 Ionawr 2021 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 3 Chwefror 2021. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, cydranddeiliaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy holiadur ar wefan y Cyngor. Hysbysebwyd y broses ymgynghori yn eang ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.
- 3.2 O ystyried y cyfnod byr a oedd ar gael i ymgynghori, a hynny oherwydd y cyhoeddiad hwyr am y setliad dros dro a'r ffaith bod y pandemig a'r cyfnod clo cysylltiedig wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd gyda'i bartneriaid a'i gydranddeiliaid, yr unig gyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd i drafod y gyllideb oedd gyda'r Fforwm Cyllid Ysgolion, a gyfarfu ar 10 Chwefror 2021 i drafod y cynigion.
- 3.3 Mae canlyniadau'r broses ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 2.

### 4. Y GYLLIDEB DDISYMUDD DDIWYGIEDIG AR GYFER 2021/22 A'R BWLCH CYLLIDEBOL

- 4.1 Ers cwblhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, gwnaed gwaith pellach i adolygu a diwygio'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2021/22. Nid yw hyn wedi arwain at unrhyw newidiadau ac mae'r cynnig cychwynnol wedi'i nodi yn Nhabl 2 isod: -

**Tabl 2**  
**Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud**

	£m	£m
Cyllideb Ddisymud ar 13 Ionawr 2020		147.076
Cyllid Ychwanegol ar gyfer Pwysau ar y Gyllideb		0.630
Cynnydd mewn ffioedd Meysydd Parcio		(0.100)
Rhewi Prisiau Prydau Ysgol		0.023
Addasu Cyllideb CGDG i adlewyrchu cynnydd arfaethedig o 3.75% yn y Dreth Gyngor		(0.075)
Addasiad i'r Gronfa Hapddigwyddiadau Gyffredinol		(0.023)
<b>Cynnig Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2021/22 ar 18 Ionawr 2021 (yn rhagdybio cynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor)</b>		<b>147.531</b>

- 4.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol ar 2 Mawrth 2021, a fydd yn rhy hwyr i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried yn ei gynigion terfynol. Ni ragwelir y bydd unrhyw newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, ond gwneir cyfrif am unrhyw newid trwy addasu lefel y gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol os yw'r gwahaniaeth yn fach neu drwy cyllido o / cyfrannu at falansau cyffredinol y Cyngor pe bai'r gwahaniaeth yn fwy. O'r herwydd, ni fydd lefel arfaethedig y Dreth Gyngor yn newid hyd yn oed os yw'r Cyllid Allanol Cyfun terfynol yn wahanol i'r ffigur a ddangosir yn y setliad dros dro.

## 5. Y DRETH GYNGOR

- 5.1 Y Dreth Gyngor ar gyfer Band D yn 2020/21 oedd £1,248.57, a oedd yn 16eg o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac yn is na'r cyfartaledd trwy Gymru, sef £1,319. Yn bwysicach fyth i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**  
**Cymharu'r Dreth Gyngor a godir gan Awdurdodau yng Ngogledd Cymru**

Awdurdod	Tâl Band D 2020/21 £	Swm yn uwch / is nag Ynys Môn £	Canran yn uwch / is nag Ynys Môn %
Ynys Môn	1,305		
Gwynedd	1,430	+ 125	+ 9.6%
Conwy	1,344	+ 39	+ 3.0%
Sir Ddinbych	1,384	+ 79	+ 6.1%
Sir y Fflint	1,342	+ 37	+ 2.8%
Wrecsam	1,233	- 72	- 5.5%

- 5.2 Y gyllideb ar gyfer y Dreth y Cyngor yn 2021/22 (cyn cynnydd yn y Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor a'r premiwm) yw £41.14m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £411k ychwanegol.

Ar ôl cymryd i ystyriaeth y setliad dros dro o £104.825m, byddai'r gofyniad cyllideb diwygiedig o £147.531m (gweler Tabl 2) yn golygu y byddai angen £42.706m o gyllid o'r Dreth Gyngor. Er mwyn cyllido'r gofyniad cyllideb diwygiedig, y cynnydd lleiaf yn lefel y Dreth Gyngor fyddai 3.75%, gan fynd â'r tâl Band D i £1,353.69, sef cynnydd o £48.96 neu £0.94 yr wythnos.

- 5.3 Yn y setliad dros dro, gosodwyd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor h.y. y ffigur Dreth Gyngor safonol ledled Cymru, a ddefnyddir i bennu'r AEF ar gyfer pob Cyngor, ar £1,403.57, sydd 5.1% yn uwch na ffigur 2020/21.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, CRONFEYDD HAPDDIGWYDDIADAU A RISG ARIANNOL

- 6.1 Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran lefelau incwm a gwariant tebygol yn y blynyddoedd i ddod. Felly, yn anochel mae nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Amlygir y risgiau ariannol allweddol isod:-

- Oherwydd y pandemig byd-eang, cynyddodd gwariant y Cyngor yn sylweddol (amcangyfrifir bod y ffigur ar gyfer 2020/21 yn £5.1m) a chyfyngwyd ar ei allu i godi incwm trwy ffioedd a thaliadau (amcangyfrifir bod y ffigur ar gyfer 2020/21 yn £1.75m). Yn ogystal, mae'r gyfradd gasglu ar gyfer y Dreth Gyngor tua 2% yn is na'r lefelau arferol ar hyn o bryd ac er y rhagwelir y bydd y Cyngor yn casglu rhywfaint o'r diffyg hwn, rhagwelir y bydd lefel y dyledion Dreth Gyngor a fydd yn cael eu dileu ar gyfer 2020/21 yn sylweddol uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido'r gwariant ychwanegol a'r colled incwm ac mae disgwyl y bydd cyllid ychwanegol yn parhau yn 2021/22. Fodd bynnag, os bydd y pandemig yn parhau i fod yn risg sylweddol yn 2021/22 a bod angen cyfnodau clo pellach, neu fod mesurau pellhau cymdeithasol yn parhau, yna mae risg y bydd y gwariant ychwanegol gan y Cyngor a'r colledion incwm yn uwch na'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae risg sylweddol y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn ei hun i gwrdd ag unrhyw ddiffyg.



- Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi arwain at ostyngiad dros dro mewn rhai gwasanaethau sydd wedi arwain, fe amcangyfrifir, at danwariant o rhwng £1m a £1.5m yng nghyllideb referniw'r Cyngor. Bydd y tanwariant hwn yn rhoi hwb i falensau cyffredinol y Cyngor, er bod y Pwyllgor Gwaith wedi clustnodi peth o'r tanwariant i gynyddu'r gyllideb gyfalaf yn 2021/22. Mae'n anodd ar hyn o bryd amcangyfrif beth fydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau wrth i'r Cyngor ddod allan o'r cyfnod clo a dychwelyd i ryw lefel o normalrwydd yn 2021/22. Ystyrir mai rhywbeth dros dro yw'r tanwariant a ragwelir yn 2020/21 a disgwylir y bydd gwasanaethau, ar y lleiaf, angen eu dyraniad cyllidebol llawn yn 2021/22.
  - Mae'r galw am Wasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a gwasanaethau addysgol arbenigol ychwanegol a chostau cysylltiedig wedi cynyddu dros y ddwy i dair blynedd diwethaf a chynyddwyd y cyllidebau ar eu cyfer i adlewyrchu hynny. Mae'r gyllideb ddisymud yn seiliedig ar y galw cyfredol, ond erys risg sylweddol y bydd y galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i dyfu o ystyried bod gennym boblogaeth sy'n heneiddio ac oherwydd y gwelliant mewn prosesau o fewn y Gwasanaethau Plant a allai ddwyn sylw at ragor o blant a fyddai'n destun cynlluniau ymyrraeth gan yr Awdurdod, yn enwedig wrth i ni ddychwelyd i ryw normalrwydd yn ystod 2021/22.
  - Cytunwyd y dyfarniad tâl i athrawon hyd at fis Medi 2021, ac mae'r swm sydd raid wrtho wedi'i gynnwys yn y cynnig ar gyfer y gyllideb. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad ar gyfer y cyfnod o Fedi 2021 ymlaen wedi ei gytuno. Mae'r Canghellor wedi cyhoeddi y rhewir cyflogau ar gyfer staff y sector cyhoeddus yn 2021/22, ond mae dyfarniad cyflog yr athrawon yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac nid yw hi wedi dweud a fydd yn dilyn yr un drefn ag a nodwyd gan y Canghellor. O ganlyniad, caniatwyd ar gyfer cynnydd o 1%. Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer tâl athrawon oddeutu £30m ac, os bydd y dyfarniad tâl gwirioneddol o fis Medi 2021 yn 2% yna bydd y gost yn £175k yn uwch na'r hyn a ddarparwyd amdano yn y cynnig ar gyfer y gyllideb. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido codiadau a oedd yn uwch na lefel chwyddiant ond nid oes unrhyw sicrwydd y bydd hynny'n digwydd ar gyfer 2021/22.
  - Ni chytunwyd ar y dyfarniad tâl i staff nad ydynt yn athrawon ac a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae'r Canghellor wedi nodi mai dim ond y gweithwyr hynny sy'n ennill llai na £24,000 ddylai dderbyn dyfarniad tâl o £250. Mae'r Undebau wedi galw am godiad o £2,000 neu 6%, p'un bynnag yw'r mwyaf. Nid Llywodraeth y DU sy'n pennu'r dyfarniad tâl ar gyfer staff llywodraeth leol yn y grŵp hwn, felly, unwaith eto, gall y dyfarniad cyflog gwirioneddol fod yn wahanol i'r hyn a fwriedir gan y Canghellor. Caniatwyd ar gyfer cynnydd o 1% yn y gyllideb ond, yn seiliedig ar gyllideb o tua £50m ar gyfer tâl i staff heblaw athrawon, pe bai'r Undebau'n llwyddiannus gyda'u cais am godiad cyflog o 6%, yna byddai'r cynnydd yn y costau tâl £2.5m yn fwy na'r ddarpariaeth a wnaed yn y gyllideb. Nid yw'r gost ychwanegol hon fel arfer yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a byddai'r gost yn disgyn ar y Cyngor i'w gyllido.
  - Gwnaed darpariaeth ar gyfer cynnydd chwyddiant o 1.5% yn achos yr holl wariant nad yw'n ymwneud â thâl (oni bai bod y cynnydd chwyddiant cytundebol yn hysbys). Er bod y mwyafrif o ragolygon yn awgrymu y bydd chwyddiant yn aros ar 2% neu'n is am y dyfodol rhagweladwy, gall yr ansicrwydd ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU arwain at chwyddiant yn codi'n uwch na'r ffigwr y gwnaed darpariaeth ar ei gyfer yn y gyllideb.
  - Codwyd ffioedd a thaliadau anstatudol 3% ar gyfartaledd ym mhob gwasanaeth. Ni wnaed unrhyw addasiad am newid yn y galw am y gwasanaethau a, phe bai'r cynnydd mewn ffioedd yn arwain at ostyngiad yn y galw, yna mae risg na chyflawnir cyllidebau incwm.
- 6.2** O ran unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd hapddigwyddiadau, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych i'r tymor canol lle bo angen a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am a'r defnydd o adnoddau unwaith ac am byth.
- 6.3** Mabwysiadwyd safbwynt cadarn o ran rheoli risgiau cyllidebol a gwarchod iechyd ariannol y Cyngor yn y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cronfeydd unwaith ac am byth yn ddigonol i fedru cyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.

- 6.4** Ystyriwyd yr angen i gyfyngu i'r eithaf y gostyngiadau mewn gwariant sy'n digwydd ar hyn o bryd ac effaith hynny ar wasanaethau, ond rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, ac i wneud arbedion dros y blynyddoedd i ddod mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser o wariant annisgwyl neu orwariant oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, a rhaid i gronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i ymdopi â'r fath bwysau.
- 6.5** Ar 31 Mawrth 2020, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £7.060m, sy'n cyfateb i 4.97% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2020/21 - neu 7.0% os nad yw'r gyllideb datganoledig ysgolion yn cael ei chynnwys. Mae'r Cyngor yn penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar sail argymhelliad gan y Swyddog Adran 151 ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refeniw arfaethedig 2021/22, byddai hyn yn golygu y byddai angen cronfeydd wrth gefn cyffredinol oddeutu £7.3m. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd unrhyw gronfeydd wrth gefn i ddisgyn yn ôl arnynt bellach a bod ysgolion cynradd yn dibynnu fwyfwy ar eu cronfeydd wrth gefn i gydbwysu eu cyllidebau. Os tynnir y gyllideb ddatganoledig i'r ysgolion allan o'r cyfrifiad, byddai angen cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £5.24m.
- 6.6** Rhagwelir y bydd y gyllideb refeniw yn tanwario £1.47m (fel ar ddiwedd chwarter 3) ac, os mai dyna fydd y canlyniad gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, byddai hyn yn cynyddu'r balansau cyffredinol i £8.53m (5.8% o'r gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2021/22). Fodd bynnag, dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith i ddechrau wedi cynnig defnyddio £0.921m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i gyllido gyfalaf 2021/22. Byddai hyn yn gostwng lefel y balansau cyffredinol yn ôl i lawr i £7.609m (5.16% o'r gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2021/22).
- 6.7** Ar adegau o lymder ariannol, mae cyllidebau'n gostwng ac nid oes ganddynt y capasiti i ddelio â chynnydd yn y galw, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, gellir dadlau bod mwy o angen am gronfeydd wrth gefn cyffredinol oherwydd bod y risg o orwario'n cynyddu a bydd y Cyngor angen lefel uwch o adnoddau ariannol i leihau'r risg.
- 6.8** Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw bod lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddigonol ar hyn o bryd i gwrdd â'r risgiau ariannol y bydd y Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi bod cyrraedd y lefel a ragwelir o gronfeydd wrth gefn a nodir ym mharagraff 6.6 uchod yn dibynnu ar y canlyniadau ariannol dros chwarter olaf blwyddyn ariannol 2020/21 ac mae risg y gall y sefyllfa alldro derfynol fod yn wahanol i'r rhagolwg hwn. Dylid nodi hefyd bod lefel y cronfeydd wrth gefn o £7.6m yn ddigonol i gwrdd â'r risgiau ariannol arferol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, ond mae'r pandemig yn creu lefel uwch o ansicrwydd a mwy o risgiau ariannol wrth symud ymlaen. Bydd y risgiau ariannol a achosir gan y pandemig yn cael eu lliniaru os yw Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Cyngor gyda chyllid ychwanegol i gwrdd â'r costau ychwanegol a geir a'r incwm a gollir.
- 6.9** Mae gan y Cyngor hefyd £10.29m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chyfyngedig, ynghyd â balansau ysgol (ar 31 Mawrth 2020). Mae mwyafrif y cronfeydd wrth gefn hyn yn angenrheidiol ac fe'u defnyddir i gyllido prosiectau penodol, neu maent yn ymwneud â balans grantiau sydd heb eu dyrannu neu maent ar gael i gyllido risgiau posib a all godi. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn sydd wedi'u clustnodi neu'r cronfeydd y mae cyfyngiad arnynt yn parhau i gael eu defnyddio a bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar y cronfeydd wrth gefn hyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cedwir mwyafrif y cronfeydd wrth gefn i gwrdd â risgiau posib e.e. risgiau sydd heb eu hyswirio, i gadw grantiau sydd heb eu dyrannu ac i gyllido prosiectau sydd wedi cychwyn ac a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod 2021/22. Efallai y bydd modd rhyddhau ychydig bach o'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn ôl i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a fydd yn cynyddu'r balansau cyffredinol ymhellach.

**6.10** Mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22 yn cynnwys £1.294m o arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi a chyffredinol. Ymhlith yr eitemau o dan y pennawd hwn mae cronfa hapddigwyddiadau gyffredinol o £350k, cronfa wrth gefn ar gyfer thâl a graddfeydd o £150k a £155k ar gyfer cyllid â therfyn amser, gan gynnwys cais Twf Rhanbarthol a phrosiect STEM Gogledd Cymru. Mae'r cyllidebau wrth gefn hefyd yn cynnwys y £640k a gynigir i gwrdd â phwysau ar y gyllideb. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i gyllidebau gwasanaeth pan fyddant yn dechrau mynd i wariant. Mae cyllidebau wrth gefn yn lliniaru rhywfaint yn erbyn y risg y bydd y Cyngor yn cael costau annisgwyl neu uwch yn ystod y flwyddyn. Byddai gostwng lefel y cyllidebau wrth gefn cyffredinol yn arwain at orfod cyllido costau annisgwyl neu uwch o falansau cyffredinol.

## **7. CADERNID YR AMCANGYFRIFON**

**7.1.** Yn unol ag Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.

**7.2.** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac maent yn cynnwys elfen o risg oherwydd rhagdybio. Gellir lliniaru effaith y risg hon drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**7.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt wedi eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu neu a fydd modd cyflawni'r targedau. Caiff amrywiol risgiau i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** - Dyma'r risg y gallai chwyddiant gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wneir yn y gyllideb. Ar gyfer 2021/22, caniatawyd ar gyfer chwyddiant o 1% i gwrdd â dyfarniadau tâl i staff (athrawon a staff Cyd-Gyngor Cenedlaethol) a manylir ar y risgiau ariannol sy'n ymwneud â chyflogau yn 6.1 uchod. Nid yw'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd chwyddiant yn codi'n sylweddol yn ystod 2021/22 a disgwylir iddo fod o gwmpas targed y Llywodraeth o 2% ac, o'r herwydd, mae 1.5% wedi'i gynnwys yn y gyllideb i gwrdd â chwyddiant prisiau cyffredinol. Mae oddeutu £60m o gyllideb y Cyngor ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau lle bydd y pris yn codi wrth i chwyddiant gynyddu. Gall cynnydd o 1% mewn chwyddiant ychwanegu £600k at gostau'r Cyngor (tua 0.4% o'r gyllideb net). Er bod chwyddiant yn dal i fod yn risg, mae gan y Cyngor ddigon o gronfeydd wrth gefn i ariannu cynnydd sydyn a mawr mewn chwyddiant.
- **Risg Cyfraddau Llog** - Risg Cyfraddau Llog - Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yr ystyriaethau cyntaf wrth fuddsoddi fydd diogelwch a hylifedd y buddsoddiad – bydd yr elw ar y buddsoddiad yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb felly'n dibynnu ar gael elw mawr o'r buddsoddiadau a wneir. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn ac, er y gallant ddechrau codi, ni fydd y cynnydd yn sylweddol yn 2021/22. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfraddau sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel, fel yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hon yn risg y mae'r risg chwyddiant yn ei lliniaru, oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risgiau Grantiau** – Mae'r rhain yn risgiau gyda nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, gan Ewrop neu gan gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu dileu yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y sefyllfa'n eglurach hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd yn bosib pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm, neu os oes costau diswyddo sydd heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r gweithgaredd a gyllidir mor bwysig ar gyfer cyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael am bob un o'r grantiau, ond ni feddir diystyru'n gyfan gwbl y posibilrwydd y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn.
- **Risgiau Incwm** – Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac os na lwyddir i gyrraedd targedau incwm, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro sefyllfa'r gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, bydd rhaid torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm.
- **Risg o fod yn rhy optimistaidd** – Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n debyg mai'r risg fwyaf oedd bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd yn yr arbedion a gyflawnir neu na fyddai'r galw am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, yn cynyddu'n sylweddol. Ar gyfer 2021/22, nid oes unrhyw arbedion yn cael eu cynnig ac, o'r herwydd, nid yw'r risg hon yn berthnasol i gyllideb 2021/22.
- **Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod: y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy wylidwrus ac, o'r herwydd, eu bod yn fwy nag sydd ei angen, gan arwain at osod y Dreth Gyngor ar lefel uwch nag sydd raid - rhywbeth y mae Aelodau yn awyddus i'w osgoi.
- **Costau Diswyddo Staff** - Oherwydd lefel yr arbedion y bu'n rhaid eu gwneud mewn blynyddoedd blaenorol, rhyddhawyd staff addysgu a staff nad ydynt yn staff addysgu trwy'r broses ddiswyddo. Cyllidwyd costau diswyddo o arian wrth gefn canolog. 'Roedd £400k yn y gronfa wrth gefn yn 2019/20 ond, oherwydd bod yr angen i wneud arbedion wedi gostwng yn 2020/21 ac na chynigir arbedion yn 2021/22, mae'r gronfa hon i gyllido diswyddiadau wedi gostwng i £150k. Er nad oes angen cyffredinol i ostwng niferoedd staff ar hyn o bryd, mae risg y gallai ysgolion unigol, oherwydd eu sefyllfa, orfod ostwng costau staffio er mwyn cydbwysu eu cyllidebau neu i glirio diffygion ariannol. Dylai'r gronfa wrth gefn fod yn ddigon i gwrdd ag unrhyw gostau diswyddo sy'n codi yn ystod y flwyddyn.
- **Premiwm y Dreth Gyngor**– Wrth gyfrifo sylfaen y dreth gyngor, derbynnir y gall nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o'r herwydd, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sydd wedi'u cynnwys yn y sylfaen dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor pe bai gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr eiddo gwag a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r sylfaen dreth wedi codi o 336 eiddo ym mis Hydref 2019 i 394 eiddo ym mis Hydref 2020, a chynyddodd nifer yr ail gartrefi o 2,044 i 2,067 dros yr un cyfnod.

- **Incwm o'r Dreth Gyngor** – Mae'r gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sylfaen y dreth ym mis Tachwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sylfaen y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a disgowntiau pobl sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac yn ddiethriad maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y debyd gwirioneddol a godir a'r gyllideb. Dylid nodi bod nifer yr eiddo sy'n cael eu nodi fel llety hunanarlwyo a'u trosglwyddo i'r gofrestr trethi busnes wedi cynyddu o 718 eiddo ym mis Mawrth 2020 i 927 eiddo ym mis Chwefror 2021, sef cynnydd o 209 eiddo. Pan fydd eiddo'n symud ar draws, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisiol yn pennu dyddiad y daw'r eiddo yn atebol am drethi busnes, a gall y dyddiad hwnnw gael ei ôl-ddyddio nifer o flynyddoedd. Nid yn unig y mae'r Cyngor yn colli'r Dreth Gyngor ar yr eiddo hyn, ond rhaid iddo hefyd ad-dalu unrhyw Dreth Gyngor a phremiwm a dalwyd o'r dyddiad pan roddir yr eiddo ar y gofrestr Trethi Busnes. Gall y symudiadau hyn gael effaith sylweddol ar incwm o'r Dreth Gyngor mewn unrhyw flwyddyn.
- **Risgiau sy'n gysylltiedig â galw** - Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, ac fel y gwelwyd yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, bu cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn arbennig gwasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r cynnydd yn y meysydd hyn wedi rhoi straen ariannol ar yr Awdurdod ac wedi arwain at orwariant sylweddol yn y gyllideb. Mae'r gyllideb ddigsymud ar gyfer 2021/22 wedi cymryd y cynnydd yn y galw a welwyd yn 2020/21 i ystyriaeth, ond ni fyddai unrhyw gynnydd pellach wedi ei gyllido a byddai'n cynyddu'r risg o orwariant pellach yn 2021/22 gan y gwasanaethau a arweinir gan y galw.

7.4. Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn ac y gellir eu cyflawni.

## 8. PWYLLGOR SGRIWTINI

8.1 Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliadau dros dro a therfynol, bu'n rhaid cywasgu amserlen y gyllideb ar gyfer 2021/22 er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i osod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddff Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30 (6)). Cafodd cyllideb 2021/22 ei hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, 2021 a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod.

## 9. Y GYLLIDEB A'R DRETH GYNGOR ARFAETHEDIG

9.1. Ar ôl ystyried y cyllid sydd ar gael, canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymateb y Pwyllgor Sgriwtini, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi diwygio ei gynnydd ar gyfer y gyllideb derfynol ac wedi cynnwys y newidiadau canlynol: -

- Yng ngoleuni'r cyllid ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, gellir cyllido y £300k o gronfeydd wrth gefn a oedd i gael eu defnyddio i brynu Chromebooks ar gyfer ysgolion o gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru. Bydd y cronfeydd wrth gefn o £300k bellach yn cael eu defnyddio fel cyfraniad at gyllido'r gyllideb refeniw yn 2021/22, ac mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.75% yn y Dreth Gyngor.
- Mae'r Cyngor hefyd wedi llwyddo i gael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am rywffaint o gost prynu cerbydau casglu sbwriel newydd. Mae hyn, yn ei dro, yn lleihau'r swm o fenthycia digefnogaeth y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei wneud, sy'n lleihau'r gofyniad cyllidebol am ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) a thaliadau llog. Mae'r gostyngiadau hyn yn y gyllideb yn caniatáu i'r gyllideb refeniw net gael ei gostwng £102k arall, sy'n cyfateb i ostyngiad o 0.25% yn y Dreth Gyngor.
- Bod y cynnydd ar gyfer cyllideb derfynol 2021/22 yn gyllideb refeniw net o £147.420m.
- Bod y Dreth Gyngor yn cynyddu 2.75% yn 2021/22, sy'n gynydd o £35.91 i Dreth Gyngor Band D i £1,340.64.

- Gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw wahaniaeth rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol trwy naill ai addasu lefel y gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol yn y gyllideb flynyddol neu drwy gymryd cyfraniad o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor neu wneud cyfraniad atynt.

9.2. Mae Tabl 4 isod yn crynhoi'r symudiad yng nghyllideb 2021/22 ac yn cymryd i ystyriaeth y cynigion a nodir ym mharagraff 10.1 uchod:-

**Tabl 4**  
**Gofynion Arfaethedig o ran y Gyllideb a Chyllido yn 2021/22**

Gofynion Cyllideb		£'m
Cyllideb Terfynol 2020/21		142.146
Ffioedd a Chwyddiant ymrwymedig		4.930
<b>Cyllideb Ddisymud ar 18 Ionawr 2021</b>		<b>147.076</b>
Cyllid Ychwanegol ar gyfer Pwysau Cyllidebol		0.630
Incwm Ychwanegol o Ffioedd Uwch Meysydd Parcio		(0.100)
Rhewi Cost Prydau Ysgol		0.023
Gostyngiad yn y Gyllideb Cyllido Cyfalaf ar ôl derbyn cyllid grant ar gyfer cerbydau sbwriel		(0.086)
Addasiad i Gyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor		(0.139)
CGDG i adlewyrchu cynnydd o 2.75% yn y Dreth Gyngor		
Addasiad i Arian Wrth Gefn Cyffredinol		(0.016)
<b>Gofynion Cyllideb Arfaethedig Terfynol</b>		<b>147.420</b>
<b>Cyllidir gan :</b>		
Grant Cymorth Refeniw	81.345	
Trethi Annomestig	23.480	
Cyfanswm AEF		104.825
Arian Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor		0.300
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm)		42.295
<b>Cyfanswm Cyllid</b>		<b>147.420</b>

## 10. ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEBAU

10.1 Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchoddedig a rhaid rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiad o'r fath.

10.2 Ni fydd yr arbedion cyllidebol arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, nid ystyrir bod angen cynnal unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## 11. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

11.1 Roedd y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Ionawr 2021, yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (y Strategaeth) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2020 (gweler Tabl 1). Nid oedd y Strategaeth yn cynnwys unrhyw ragdybiaeth o ran y cynnydd yn yr AEF a'r Dreth Gyngor yn y dyfodol, ond nododd wahanol godiadau yn y AEF a sut y byddent yn effeithio ar lefel y Dreth Gyngor a fyddai'n ofynnol er mwyn cydbwysu'r cyllidebau a amcangyfrifir ar gyfer 2022/23 a 2023/24.

11.2 Mae'r setliad dros dro ar gyfer 2021/22 ar ben uchaf y codiadau posib a fodelwyd yn y Strategaeth ac, o'r herwydd, mae wedi caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y cynnydd isaf yn y Dreth Gyngor ers 2017/18 ac ni fu raid gwneud unrhyw arbedion i'w cynnwys yn y gyllideb. Dylid nodi hefyd bod cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi cynyddu, sy'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen.

- 11.3** Mae'n anodd amcangyfrif newidiadau yn yr AEF yn y dyfodol, a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi'r DU ar ôl Brexit ac ar ôl y pandemig. Bydd Llywodraeth y DU yn nodi ei pholisïau ariannol newydd yn ei chyllideb ar 5 Mawrth 2021. Ar ôl hynny, gall y lefelau cyllid i Lywodraeth Leol Cymru ddod yn gliriach, er y bydd lefel y diogelwch a roddir gan Lywodraeth Cymru i feysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol yn cael effaith sylweddol ar lefel y setliadau i lywodraeth leol yn y dyfodol.
- 11.4** O ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, byddai unrhyw ddiweddariad i'r Cynllun Ariannol Tymor Canoli ar hyn o bryd yn ddyfaliadol ar y gorau, a gallai roi'r argraff bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn well neu'n waeth na'r gwir sefyllfa yn y pen draw. Daw'r sefyllfa'n gliriach dros y misoedd nesaf a bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis Medi 2021.

## **12. CASGLIADAU**

- 12.1** Mae'n bwysig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'n gywir y gofynion sy'n wynebu gwasanaethau ar hyn o bryd, er nodir y bydd ymestyn y cyfnod clo neu'r cyfyngiadau pellhau cymdeithasol sylweddol am gyfnod hir yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor. Ni chymerwyd hyn i ystyriaeth yn y gyllideb arfaethedig. Bydd angen parhau i gael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i gyllido gwariant ychwanegol a'r golled incwm os bydd y pandemig yn parhau am ran sylweddol o 2021/22.
- 12.2** Mae'r gwelliant yng nghronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gryfach wrth symud ymlaen i 2021/22 a thu hwnt.
- 12.3** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, rhaid i'r gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 gyflawni'r amcanion canlynol :-
- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau sydd ar eu cyllidebau ar hyn o bryd ac i gwrdd â'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu cyflawni.
  - Mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylfaenol yn y Gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan gynnydd yn y galw am wasanaethau: Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion.
  - Gosod y Dreth Gyngor ar lefel sy'n debyg i asesiad Llywodraeth Cymru o faint y dylai Treth Gyngor Ynys Môn fod, ac ar lefel gyffelyb hefyd i'r Dreth Gyngor a godir gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran eu maint a'u math.

## **13 ARGYMHELLION**

- 13.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol fel y nodir ym Mharagraff 9, i gyfarfod llawn y Cyngor ar 9 Mawrth 2021.

Ymateb i Gynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2021/22CYNGOR SIR YNYS MÔNChwefror 2021Awdur - Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglenni a PherfformiadPennaeth Gwasanaeth - Carys Edwards, Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**1. Rhagarweiniad**

- 1.1. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori ar y cynigion cyllidebol cychwynnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Gwaith. Rhedodd y cyfnod ymgynghori am bythefnos o 19 Ionawr tan 2 Chwefror 2021 ac roedd yn canolbwyntio ar gynigion a gyflynyddwyd o blith holl wasanaethau'r Cyngor.
- 1.2. Canlyniad y broses flynyddol o osod cyllideb oedd y cynigion hyn ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn cael barn y cyhoedd ac i sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses ddirwyn i ben) yn gallu gwneud argymhellion gwybodus.
- 1.3. Ystyriwyd ystod eang o gynigion megis cynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor ar ben y 2.65% a glustnodwyd eisoes fel cynnydd blynyddol, a hynny er mwyn ariannu gwasanaethau hanfodol y Cyngor ac i fuddsoddi mewn delio â phwysau costau o ganlyniad i'r pandemig.
- 1.4. Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r cynigion hyn mewn sawl ffordd ond defnyddiwyd llawer mwy o dulliau digidol i'w hysbysebu nag mewn blynyddoedd blaenorol;
  - 1.4.1. Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (hafan)
  - 1.4.2. Defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol - Twitter, Facebook ac Instagram i hysbysebu'r cynigion i ystod ehangach o drigolion

Nod pob un o'r sianeli uchod oedd rhoi cyhoedduswydd a chreu brwdfrydedd ymhlith dinasyddion a staff i ymgysylltu â'r cynigion cychwynnol ac ymateb iddynt .

- 1.5. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy'r dulliau canlynol:
  - Arolwg ar-lein ar ein gwefan
  - E-bost

Dilynodd yr ymgynghoriad eleni batrwm tebyg i ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf, ond nid oedd mor eang oherwydd yr amserlen fyrrach a orfodwyd ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ac wrth gwrs effaith y pandemig ar y gallu i ymgynghori wyneb yn wyneb â thrigolion Ynys Môn. O ganlyniad, rhoddwyd y pwyslais eto eleni ar gael ymateb electronig trwy wneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r ffaith na allai cyfarfodydd cyhoeddus arferol gymryd lle.

Cafodd y cynigion eu marchnata fel a ganlyn trwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol -



13 gwaith trwy gyfrif facebook Cymraeg

13 gwaith trwy gyfrif Facebook Saesneg

13 gwaith trwy gyfrif Twitter Cymraeg



13 gwaith trwy gyfrif Twitter Saesneg

3 gwaith trwy gyfrif Instagram dwyieithog

Derbyniodd y Cyngor bron i 600 o ymatebion trwy ddulliau electronig. Derbyniwyd gohebiaeth hefyd trwy e-bost. Mae'r ymatebion hyn yn nifer gweddol fawr o gymharu â'r niferoedd a gafwyd mewn ymateb i'r broses gosod cyllideb flynyddol yn y gorffennol pan gafwyd oddeutu 500 o ymatebion bob blwyddyn ar gyfartaledd. Yr eithriad oedd pan dderbyniwyd mwy na 5,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2019/20








O gofio bod ymgynghoriad eleni wedi rhedeg am bythefnos yn unig, mae hwn yn ymateb priodol gan drigolion Ynys Môn i'r ymgynghoriad ac yn un i'w groesawu.

Mae'r canlyniadau / canfyddiadau fel a ganlyn -

<b>1. Ydych chi'n cytuno i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor gan y Cyngor Sir er mwyn ariannu'r gweithgareddau / gwasanaethau uchod?</b>				
			<b>Canran</b>	<b>Nifer yr ymatebion</b>
1	Ydw		12.33%	72
2	Nac ydw		87.67%	512
			Wedi ateb	584
			Heb ateb	4

Mae'r ymateb uchod yn dangos nad yw'r mwyafrif (bron i 9 o bob 10 o bobl) a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig i gynnydd ychwanegol o 1.1% yn y Dreth Gyngor er mwyn ariannu'r gweithgareddau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

**2.Os nad ydych yn cytuno, pa weithgareddau / gwasanaethau o blith yr isod y credwch y dylai'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth iddynt a'u hariannu o gynnydd yn y Dreth Gyngor ? (dewiswch gynifer o'r opsiynau isod y credwch y dylid eu hariannu)**

			Canran	Nifer yr ymatebion
1	Cyflwyno rhaglen Staff Proffesiynol Lefel Mynediad newydd i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc lleol		14.23%	76
2	Cynyddu Capasiti'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gynnal iechyd y cyhoedd ar Ynys Môn yn y dyfodol		18.54%	99
3	Gwella darpariaeth addysgol ar gyfer y dysgwyr mwyaf bregus yn CA4 drwy wneud buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth Cynhwysiant Addysg		19.10%	102
4	Cymorth TG ychwanegol i Ysgolion i alluogi a chynyddu gweithgarwch TG mewn Addysg		21.54%	115
5	Rheoli traethau a'r blaendraethau yn well ynghyd a gwella trefniadau casglu data er mwyn cynorthwyo buddsoddiad mewn Twristiaeth yn y dyfodol		14.23%	76
6	Addasiadau Newid Hinsawdd		15.17%	81
7	Dim un o'r uchod – parhau fel yr ydych heb fod angen buddsoddiad pellach		45.69%	244
			Wedi ateb	534
			Heb ateb	54

Mae'r uchod yn rhoi darlun o ble y byddai'r rheini nad ydynt eisiau gweld cynnydd o 1.1% yn y Dreth Gyngor i ariannu Gwasanaethau'r Cyngor yn blaenoriaethu pe bai angen. Gellir gweld yn glir y byddai'r mwyafrif yn parhau i nodi na ddylid buddsoddi o gwbl ac y dylai'r Cyngor barhau fel y mae heb yr angen i wneud buddsoddiad pellach. Yr opsiwn hwn a gafodd yr ymateb mwyaf, sef oddeutu 46% a'r ail uchaf oedd buddsoddiad ychwanegol mewn cymorth TG i ysgolion er mwyn galluogi a chefnogi mwy o weithgaredd TG yn y maes addysg.

**2. Er mwyn cefnogi'r mentrau hyn ymhellach a chodi swm arfaethedig o £100,000, mae'r Cyngor hefyd yn cynnig codi ffioedd parcio ceir mewn lleoliadau glan môr gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod y ffioedd presennol yn isel o gymharu ag awdurdodau a chyrchfannau eraill ac mae'n credu bod lle i gynyddu'r ffioedd hyn.**

**Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu'r ffioedd fel a ganlyn –**

**Hyd at 1 Awr – Ffi Bresennol £1.00, Ffi Newydd Arfaethedig £1.00**



**Hyd at 2 Awr – Ffi Bresennol £2.00, Ffi Newydd Arfaethedig £3.00**

**Hyd at 4 Awr – Ffi Bresennol £3.50, Ffi Newydd Arfaethedig £6.00**

**Hyd at 12 Awr – Ffi Bresennol £4.50, Ffi Newydd Arfaethedig £10.00**

**Hyd at 12 Awr (car a threlar) – Ffi Bresennol £6.00, Ffi Newydd Arfaethedig £20.00**

**A fyddech chi'n cytuno â'r cynigion hyn**

			Canran	Nifer yr ymatebion
1	Byddwn		38.50%	226
2	Na fyddwn		61.50%	361
			Wedi ateb	587
			Heb ateb	1

Mae'r cwestiwn uchod sy'n ymwneud â ffioedd parcio uwch yn dangos rhaniad clir ym marn ymatebwyr gyda rhaniad bras o 60:40 yn erbyn cynnig o'r fath. Derbyniwyd gohebiaeth gan Glwb Hwyllo a Chwaraeon Dŵr lleol ynghylch y cynnig uchod, a oedd yn nodi -

“The Club recognise that the Covid 19 Pandemic has put enormous strain on Council budgets and reductions in the support from the UK Government via the Welsh Assembly over the years have forced local councils across Wales to have to make difficult decisions.

However, Members had a number of concerns about the potential impact a substantial increase in car parking fees could have on Club participation levels”. Mae gan y Clwb ei hun dros 600 o aelodau, ac mae tua 250 ohonynt yn blant.

Mae'r Clwb yn ei ymateb yn gofyn i'r Cyngor Sir gydnabod ei bryder, gan fod llawer o'i aelodau yn ddefnyddio maes parcio Traeth Bychan yn rheolaidd am ddiwrnod llawn. Gallai cynnydd afresymol yn y ffi nid yn unig effeithio ar gyfranogiad yng ngweithgareddau'r Clwb, ar y dŵr ac oddi ar y dwr, ond gall hefyd ostwng ffynhonnell o incwm tymor hir i'r Cyngor Sir, sef incwm sicr i bob pwrpas am y tymor cyfan .

Mae hefyd yn deall bod y Cyngor yn cynnig cyflwyno peiriannau tocynnau mwy modern mewn rhai meysydd parcio. Os yw hyn yn wir, byddai'r Clwb yn cynnig y byddai o fudd i'r Clwb a'r Cyngor Sir gyflwyno

cynllun sy'n gwobrwyo'r rheini sy'n defnyddio meysydd parcio'n rheolaidd, fel aelodau'r clwb, trwy gynnig disgownt teyrngarwch i ddefnyddwyr sy'n barod i brynu blociau o docynnau parcio ymlaen llaw.

Mae cynnig tebyg (sef y gellid codi tâl parcio is ar drigolion) hefyd wedi'i gynnig gan aelod etholedig i'w ystyried ymhellach.

**3. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig defnyddio rhywfaint o'i arian wrth gefn cyffredinol i gyllido'r prosiectau gwella unwaith ac am byth canlynol -**



**Prosiectau Datblygu Economaidd a llesiant amgylcheddol. Arian cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd arian grant allanol ar gael i'w hawlio er mwyn gwireddu prosiectau fydd o fudd i'r Ynys- £95,000**

**Cyfrifiaduron Chromebook ar gyfer ysgolion. Cyllido 1,672 o gyfrifiaduron Chromebook ar gyfer ysgolion Uwchradd a Chynradd i sicrhau bod cyfrifiaduron Chromebook ar gael i ddisgyblion, cynyddu cymhareb y cyfrifiaduron Chromebook i ddisgyblion a chyfrannu at gynllun ehangach Hwb 2019-2023 - £305,000**

**Ailwynebu ardaloedd chwarae. Ailwynebu dwy ardal chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi - £300,000**

**Cynlluniau Atal Llifogydd. Darparu arian cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a darparu arian cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr a flaenoriaethwyd er mwyn denu arian grant gan Lywodraeth Cymru. Felly, byddai grant LIC yn dod i gyfanswm o £2.295m ac yn caniatáu adeiladu Cynlluniau Atal Llifogydd yn Nhraeth Coch, Porthaethwy a Fali- £405,000**

**Ydych chi'n cytuno â'r gweithgareddau a gynigir uchod?**

			Canran	Nifer yr ymatebion
1	Ydw		51.55%	300
2	Nac ydw		48.45%	282
			Wedi ateb	582
			Heb ateb	6

Mae'r ymateb i gynnig y Cyngor ynghylch sut i ddefnyddio ei gyllid cyfalaf dros y 12 mis nesaf yn groes i'r sylwadau blaenorol, gyda mwyafrif bach o blaid y cynigion.

Ceir sylwadau pellach ynghylch rhai o'r cynigion hyn a barn ymatebwyr mewn ateb i gwestiwn olaf yr ymgynghoriad fel a ganlyn.

**5. Os nad ydych yn cytuno, ymhle ac ar beth ddylai'r Cyngor fuddsoddi yn ystod y 12 mis nesaf?**

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu rhannu ar sail thematig fel y gellir eu dadansoddi'n rhwyddach. Fe'u rhestrir yn nhrefn nifer yr ymatebion h.y. y nifer fwyaf yn gyntaf / y nifer lleiaf yn olaf.

- **Anfodlon: 69**

Dyma'r nifer a oedd yn anfodlon â'r awgrym o gynyddu'r dreth gyngor. Gwnaed sawl pwynt, ond fe wnaeth ychydig o themâu godi'n amlach na rhai eraill. Ail gartrefi - neu gartrefi gwyliau - oedd y brif thema y cafwyd ymatebion iddi. Roedd teimlad y dylai'r Cyngor fod yn ceisio cynyddu'r dreth ar gyfer y rheini nad ydynt yn byw yn Ynys Môn trwy gydol y flwyddyn ac sy'n berchen ar gartrefi gwyliau, yn hytrach na chynyddu'r dreth gyngor yn gyffredinol. Ar ben hynny, roedd ymatebwyr yn awyddus i nodi bod llawer o'r rhai sy'n berchen ar ail gartrefi yn elwa trwy redeg eu hail gartrefi fel 'AirBnB'. Nododd ymatebwyr hefyd ei bod yn annheg iawn awgrymu cynyddu'r dreth gyngor gan ystyried bod tâl o £35 bellach am wagio biniau gwyrdd, ynghyd â'r baich a'r gost sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Roedd llawer o bobl yn teimlo'n gryf na allent ddelio ag unrhyw gostau pellach. Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr eisiau sicrhau bod eu teimladau'n cael eu clywed o ran pa mor dda y mae rhai o'r cynghorwyr yn cael eu talu.

I ffwrdd o'r dreth gyngor, roedd mwyafrif y bobl a ymatebodd yn hollol yn erbyn y syniad o gynyddu ffioedd parcio ceir ar draethau a chyrchfannau twristiaeth eraill. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo y byddai'n achosi mwy o broblemau - pobl yn parcio ar ochrau ffyrdd a'r pryder y gallai droi rhai twristiaid i ffwrdd. Mae'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd â barn y Clwb Hwyllo a Chwaraeon Dŵr a grybwyllwyd eisoes.

- **Dim Gwariant Pellach - Gwneud gyda'r hyn sydd gennym eisoes: 38**

Yn gyffredinol, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'n well ganddynt, oherwydd Covid, weld dim buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir eleni os yw'n golygu bod yn rhaid cynyddu eu treth gyngor.

- **Priffyrdd 35**

Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus i nodi eu bod am weld gwelliant i'r ffyrdd ar Ynys Môn. Ar ben hynny, nid oedd hon yn farn a leisiwyd mewn rhai ardaloedd o'r ynys yn unig gan mai dyna oedd y farn gyffredinol ledled yr ynys gyfan. Tynnodd ymatebwyr sylw'n aml at y ffaith bod tyllau yn y ffyrdd ac wynebau gwael y ffyrdd wedi achosi difrod i'w ceir.

- **Addysg: 27**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r syniad o sicrhau 'chromebooks' i'r ysgolion. Gellir gweld hyn yn nifer y bobl a gefnogodd welliant mewn addysg. Fodd bynnag, roedd yr ardal chwarae gwerth £300,000 yng Nghaergybi yn cael ei weld fel swm 'hurt' o arian i'w wario ar gyfleuster o'r fath.

- **Cynlluniau Atal Llifogydd: 23**

Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i wneud gwaith ychwanegol ar gyfer cynlluniau lleddfu llifogydd. Cyfeiriodd llawer at y llifogydd diweddar fel eu rheswm dros fod eisiau cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau atal llifogydd mewn gwahanol rannau o'r Ynys.

- **Iechyd a Llesiant: 20**

Mae sawl elfen wahanol i'r ymatebion i'r pwynt hwn. Yn gyntaf, mae llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen cyllid ychwanegol tuag at sicrhau bod oedolion a phlant yn gallu derbyn gwasanaeth cwnsela iechyd meddwl pan fyddant ei angen. Roedd teimlad hefyd bod angen sicrhau bod arian ar gael tuag at les teuluoedd sy'n byw mewn tloidi. Yn olaf, roedd ychydig o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol i'r henoed a'r anabl.

- **Mwy o Weithgareddau: 17**

Roedd llawer yn awyddus i weld mwy o lwybrau beicio a llwybrau cerdded ar yr ynys - yn enwedig ffyrdd o amgylch ardal Llangefni. Nododd pobl hefyd yr hoffent weld mwy o feysydd chwarae, neu feysydd chwarae'n cael eu hadnewyddu - gan dynnu sylw nad oes digon o fannau i blant chwarae mewn sawl ardal. Gellir cyplysu'r pwynt hwn â'r sylwadau a nodir uchod ynghylch iechyd a lles trigolion.

- **Tai: 15**

Gwnaed dau brif bwynt yma. Roedd ymatebwyr yn awyddus i weld cynnydd yn nifer y tai sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf - hoffent weld menter gan y Cyngor sy'n cefnogi pobl iau i brynu eu tŷ cyntaf. Yn ail, roeddent yn awyddus i weld naill ai mwy o dai Cyngor yn cael eu prynu, neu welliant yng nghyflwr amryw o dai Cyngor.

- **Sbwriel a Gwastraff: 13**

Roedd yr ymateb hwn yn canolbwyntio'n enfawr ar faterion baw cŵn yn fwy na dim. Mae pobl wedi cael llond bol ar weld baw cŵn ar draethau a hoffent weld cyllid ychwanegol yn cael ei roi tuag at gael biniau ar draethau.

- **Gwella cymunedau: 11**

Roedd thema gyffredinol - yn enwedig o ran Caergybi - bod ymatebwyr eisiau gweld gwelliannau i drefi. Yn y bôn, roeddent yn awyddus i weld hen adeiladau blinedig yn cael eu hadnewyddu a'u gwneud i edrych yn fwy deniadol.

- **Busnesau Bach: 10**

Teimlai ymatebwyr fod angen cyllid ychwanegol ar fusnesau bach er mwyn eu helpu trwy'r pandemig. Mae effaith Covid wedi bod yn gostus iawn i fusnesau bach sydd wedi gorfod cau o ganlyniad i gyfyngiadau cyfnodau clo.

- **Twristiaeth: 10**

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid sicrhau bod arian ar gael ar gyfer gweithgareddau twristiaeth. Roeddent yn teimlo mai twristiaeth oedd y ffordd orau i chwistrellu arian i'r economi leol ar ôl Covid, ac felly roeddent yn teimlo y dylai'r Cyngor geisio buddsoddi mewn atyniadau a allai ddenu mwy o bobl i ymweld ag Ynys Môn. Roedd hwn yn cael ei weld fel cyfle.

- **Mwy o gyfleon am swyddi: 9**

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn awyddus i weld buddsoddiad yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu cael swyddi. Amlygodd 5 o'r ymatebwyr yr hoffent weld cynnydd yn nifer y cyfleoedd i bobl ifanc yn benodol.

- **Gwella'r Amgylchedd: 6**

Soniodd ychydig o ymatebwyr yr hoffent weld cyllid ar gael er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn fwy ecogyfeillgar. Roedd yr ymatebion yn amrywio o fod eisiau gweld mwy o orsafoedd gwefru ceir trydan, i fod eisiau gweld mwy o goed ac ati yn cael eu plannu.

## Y CYNNIG AR GYFER CYLLIDEB DERFYNOL 2021/22 FESUL GWASANAETH

	<b>Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2021/22 £</b>
Addysg a Diwylliant	54,874,010
Gwasanaethau Oedolion	27,677,674
Gwasanaethau Plant	11,184,105
Gwasanaethau Tai	1,247,378
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	16,126,609
Economaidd Ac Adfywio Cymunedol	4,201,707
Trawsnewid Corfforaethol	5,436,964
Adnoddau	3,235,694
Busnes y Cyngor	1,708,227
Rheoli Corfforaethol	635,849
<b>Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth</b>	<b>126,328,217</b>
Costau Corfforaethol a Democraidaidd	3,009,885
Ad-daliadau i CRT	(700,000)
Ardollau	3,695,207
Cyllido Cyfalaf	7,392,381
Budd-daliadau a Roddwyd	247,989
Rhyddhad Trethi Dewisol	71,050
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	6,180,558
<b>Cyfanswm y Cyllidebau a Ddyrannwyd</b>	<b>146,086,537</b>
Cronfa hapddigwyddiadau cyffredinol ac Eraill	693,428
Pwysau Cyllideb (Cynhaliwyd i ddechrau fel Cyllideb Wrth Gefn)	640,000
<b>Cyfanswm Cyllideb 2020/21</b>	<b>147,419,965</b>
<b>Cyllidir gan :</b>	
Grant Cymorth Refeniw	(81,344,841)
Trethi Annomestig	(23,480,332)
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor)	(42,294,792)
Arian wrth Gefn y Cyngor	(33,000)
<b>Cyfanswm Cyllid</b>	<b>(147,419,965)</b>
<b>Gwahaniaeth Cyllideb i Gyllid</b>	<b>-</b>







This page is intentionally left blank

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>1 MAWRTH 2021</b>
<b>PWNC:</b>	<b>STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22 i 2023/24</b>
<b>AELOD(AU) PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS</b>
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	<b>MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151</b>
<b>AWDUR YR ADRODDIAD:</b>	<b>MARC JONES / CLAIRE KLIMASZEWSKI</b>
<b>FFÔN:</b>	<b>2601 / 2133</b>
<b>E-BOST:</b>	<b><a href="mailto:rmifi@ynysmon.gov.uk">rmifi@ynysmon.gov.uk</a> / <a href="mailto:clkfi@ynysmon.gov.uk">clkfi@ynysmon.gov.uk</a></b>
<b>AELODAU LLEOL:</b>	<b>d/b</b>

**A - Argymhellion a rhesymau**

O dan God Materion Ariannol diwygiedig CIPFA, Medi 2017, mae'n ofynnol bellach fod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth gyfalaf hon, rhaid amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

- Gadarnhau ac argymhell bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 – 2023/24 fel y mae wedi'i dangos yn Atodiadau 1 a 2 isod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ar strategaeth cyllideb y Cyngor yn un i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - Ydi'r penderfyniad hwn yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

**DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?****Beth oedd eu sylwadau?**

<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS) (mandadol)</b>	Mae'r UDA wedi ystyried y strategaeth gyfalaf gyffredinol fel rhan o'r broses i gytuno ar y gyllideb cyfalaf am 2021/22
<b>2</b>	<b>Cyllid / Adran 151 (mandadol)</b>	D/B – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
<b>3</b>	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)</b>	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA, bydd unrhyw sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried fel rhan o'r sylwadau cyffredinol wnaed gan yr UDA.
<b>4</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Dim yn berthnasol
<b>5</b>	<b>Eiddo</b>	Mae'r asesiad o waith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol a baratowyd gan y tîm eiddo wedi ei ystyried wrth lunio'r strategaeth gyfalaf

6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	Mae'r asesiad o fuddsoddiad TG yn y dyfodol a baratowyd gan Bennaeth TG wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r strategaeth gyfalaf
7	<b>Sgriwtini</b>	Cafodd y Rhaglen Gyfalaf am 2021/22 ei ystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2021 a hefyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Chwefror 2021.
8	<b>Aelodau Lleol</b>	Dim yn berthnasol.
9	<b>Unrhyw gyrf allanol / arall/eraill</b>	Ymgynghorwyd ar y Rhaglen Cyfalaf am 2021/22 fel rhan o'r broses gyffredinol o ymgynghori ar y gyllideb.
<b>E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)</b>		
1	<b>Ym mha ffyrdd y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor yn Ynys Môn?</b>	Mae'r strategaeth gyfalaf yn cyfeirio gwariant at flaenoriaethau allweddol y Cyngor (gweler Atodiad 1, Adran 1.2 isod.) Mae hyn yn sicrhau bod asedau'r Cyngor yn helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau sy'n cwrdd â blaenoriaethau'r Cyngor, yn cynnwys anghenion hirdymor Ynys Môn. Bydd prosiectau cyfalaf yn cwrdd â gofynion cynllunio er mwyn sicrhau bod adeiladau a strwythurau'n cydweddu ag amgylchedd adeiledig a naturiol Ynys Môn. Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac mae'n rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodwyd yng nghynllun corfforaethol y Cyngor.
2	<b>A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau i'r Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, ym mha ffordd:-</b>	Drwy barhau i gynnal asedau'r Cyngor, gellir atal costau uwch yn y dyfodol.
3	<b>A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn. Os ydym, nodwch bwy:</b>	Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas ag Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyson â blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.
4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan mewn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Eglurwch ym mha ffordd:-</b>	Gofynnir am farn cydranddeiliaid y Cyngor, yn cynnwys dinasyddion Ynys Môn, am y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn yn rhan o'r ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb. Ceisir ymgynghori'n eang hefyd ar gynlluniau sylweddol fel rhaglen Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif.
5	<b>Eglurwch yr effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg.</b>	Mae'r strategaeth gyfalaf a phrosiectau cyfalaf yn gymorth uniongyrchol i gynyddu cydraddoldeb drwy waith sy'n gwella hygyrchedd i unigolion sydd ag anableddau. Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn darparu cyllid ar gyfer addasiadau i alluogi unigolion i aros yn eu cartref. Darperir cyllid cyfalaf bob blwyddyn i wella hygyrchedd mewn ysgolion.
6	<b>Cytundebau ar Ddeilliannau</b>	
7	<b>Eraill</b>	
<b>F - Atodiadau:</b>		
Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2021/22 i 2023/24 Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2021/22		
<b>FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):</b>		
Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 1 Mawrth 2021 Cynllun Ariannol Tymor Canol 2021/22 i 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 28 Medi 2020 Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 18 Ionawr 2021 Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 1 Mawrth 2021 Cyllideb Refeniw 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 1 Mawrth 2021		



# Strategaeth Gyfalaf 2021/22 i 2023/24



# Cyngor Sir Ynys Môn

## Strategaeth Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Rhan 1, Adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod yr Awdurdod yn penderfynu ac yn parhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthycu. Mae'r Ddeddf wedi'i hategu gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod). Cafodd Cod Materion Ariannol CIPFA ei ddiwygio yn 2017/18. O dan y Cod diwygiedig, roedd gofyniad newydd bod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf, sy'n amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi. Mae gofyn i awdurdodau roi ystyriaeth briodol i risgiau ac enillion ac effaith hynny ar gyflawni deilliannau blaenoriaethol. Roedd CIPFA hefyd wedi diwygio'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys yr un pryd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon ar gyfer 2021/22 yn cwrdd â gofynion Cod Materion Ariannol CIPFA 2017, yn cyd-fynd â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2021/22 ac mae'n cymryd i ystyriaeth God Rheoli Trysorlys CIPFA 2017.

1.2 Diben y strategaeth hon yw pennu'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar wariant a buddsoddiadau cyfalaf yn unol ag amcanion gwasanaethau. Mae Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017/22 yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw ei bod yn cyfeirio gwariant cyfalaf at brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gwrdd â'r amcanion allweddol a ganlyn yng Nghynllun y Cyngor neu'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:-

**Amcan 1:** Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.

**Amcan 2:** Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

**Amcan 3:** Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

1.3 Mae'r strategaeth hon hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf dichonol yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar yr elfen cyllido cyfalaf yn y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2021/22 i 2023/24. Mae hefyd yn gosod egwyddorion tymor hir i ategu cynllunio cyfalaf ymhell i'r dyfodol. Mae'r dull o lywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â'r Prosesau Gosod Refeniw a'r Gyllideb a chyflwynir y strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ar gyfer ei chymeradwyo.

### 2. Amcanion ac Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf

2.1 Mae nifer o amcanion allweddol yn y Strategaeth Gyfalaf i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei dargedu i gwrdd â blaenoriaethau allweddol y Cyngor, gan roi ystyriaeth hefyd i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

2.1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2017/22 yn pennu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2022 a dylid cyfeirio adnoddau at gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y strategaeth gyfalaf hon yn helpu i sicrhau y bydd y rhaglen gyfalaf yn cyfeirio gwariant cyfalaf at brosiectau sy'n cyfrannu fwyaf at gyflawni'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22.

2.1.2 Bob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol.



- 2.1.3** Bydd y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf o gyllid cyfalaf allanol pan fo hynny'n bosibl ac yn fforddiadwy.
- 2.1.4** Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei ddyrannu ar sail blaenoriaeth i asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
- 2.1.5** Mae'r Cyngor yn parhau â'i ymrwymiad i Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o gyllid allanol Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- 2.2** Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn helpu i gyflawni'r amcanion allweddol uchod:-
- 2.2.1** Bod rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn ymrwymiad sylweddol tymor hir i adeiladu a/neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Môn yn addas i bara i'r dyfodol a chwrrd â gofynion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn ategu'r agenda arfoderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon yn unol hefyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn cael ei chyllido o'r derbyniadau cyfalaf a geir o werthu ysgolion gwag, a bydd gweddill y balans yn cael ei gyllido o fenthycy digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid ar gael o'r grant cyfalaf cyffredinol a benthycy â chefnogaeth i gyllido buddsoddiadau mewn asedau presennol a newydd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor 2017/22, ac yn sicrhau bod asedau presennol y Cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw.
- 2.2.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido gwelliannau mawr yng nghyfarpar TG, cerbydau ac adeiladau presennol y Cyngor neu i'w hamnewid.
- 2.2.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â'r gofyniad statudol i'r Cyngor gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
- 2.2.4** Bod lefel o waith gwella ffyrdd yn cael ei chyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen i sicrhau unrhyw warantau ynghylch isafswm gwerth contractau, ar lefel y cyllid sydd ar gael, ac ar asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Hefyd mae hyn yn ategu holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.
- 2.2.5** Bydd prosiectau lle mae angen lefel o gyllid cyfatebol er mwyn gallu cael cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul un gan y Swyddog Adran 151, a gwneir argymhellid i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad ynghylch neilltuo cyllid neu beidio yn dibynnu ar y prosiect, sut mae'n ffitio i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau parhaus o ran refeniw, a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a'r cyllid grant.
- 2.2.6** Yn achos prosiectau sydd i'w cyllido drwy fenthycy digefnogaeth, ac eithrio prosiectau rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, ni fyddant yn cael eu cyflawni oni bai fod y gostyngiad mewn costau refeniw neu'r cynnydd mewn incwm a grëir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a ysgwyddir. Mae'n bwysig bod unrhyw asedau a gyllidir drwy fenthycy digefnogaeth yn rhai hanfodol i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

### **3. Sut mae'r Strategaeth yn cydweddu â dogfennau eraill**

#### **3.1 Cynllun y Cyngor 2017/22**

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2017/22. Mae'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u crynhoi uchod yn 1.2. Un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, amnewid a/neu uwchraddio asedau presennol. Mae nifer o ddogfennau strategol allweddol eraill yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn pennu sut bydd yr Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n effeithio ar y Cyngor.

#### **3.2 Y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT)**

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddwy ddogfen eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn pennu sut bydd y Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn dangos sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca yn rhan allweddol o'r strategaeth gyllido. Mae'r DSRhT hefyd yn rhoi manylion am y dull o fenthycu a sut y caiff ei reoli.

#### **3.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol**

**3.3.1** Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r elfen hanfodol mewn cynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw y Cyngor dros y tair blynedd nesaf a sut y caiff hyn ei gydbwysu yn erbyn y cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw drwy'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**3.3.2** Drwy fonitro cyllidebau ac adolygu'r CATC yn rheolaidd, ceir cymorth i fonitro'r effaith o'r perfformiad ariannol a materion ariannol ar y broses o gyflawni Cynllun y Cyngor. Gwaith sydd hefyd yn gysylltiedig â monitro ariannol yw monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a risgiau gwasanaethau. Bydd rhai o'r risgiau hyn yn cael eu dynodi'n risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Risg yn pennu'r dull o reoli perfformiad a risg.

**3.3.3** Mae'r diagram isod yn crynhoi'r cysylltiad rhwng y strategaethau hyn ac yn dangos sut maent wedi'u seilio ar Gynllun y Cyngor.



## Cynllun y Cyngor 2017/22

Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac wedi'u cysylltu â'i gilydd i helpu i bennu'r lefel fforddiadwy o adnoddau refeniw a chyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22. Mae'r rhain yn darparu fframwaith hefyd ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn ar adnoddau'r Cyngor.

### Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i bennu'r gofyniad tebygol am adnoddau am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwysu'r gofyn am adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

### Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut y dylid gwario gwariant cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2017/22. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar, ac yn cael ei heffeithio gan, y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol.

### Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae hon yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod ar gael ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

### Mae'r Gyllideb Refeniw Flynyddol

yn cael ei hategu gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT. Bob blwyddyn, caiff y costau cyllido cyfalaf refeniw eu hadolygu a'u diwygio wrth osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

### Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol – Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus fel gwaith cynnal a chadw.

## 4. Y Strategaeth Gorfforaethol a'r Broses Rhaglen Gyfalaf

### 4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r pwysau cyllidebol a ddisgwylir a'r Cynllun Rheoli Trysorlys. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn. Mae gwariant cyfalaf yn wariant i gaffael neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol os yw oes yr ased yn hwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn ddiriaethol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu'n anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol sy'n werth £10k neu ragor yn cael eu hystyried yn wariant cyfalaf. £10k yw'r lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys i fod yn rhan o'r rhaglen gyfalaf. Bydd asedau anghyfredol sy'n werth llai na £10k yn cael eu codi i refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hepgor y lefel de minimis os yw hynny'n briodol.

### 4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

#### 4.2.1 Y Broses Gwneud Cais a Sgorio


Wrth benderfynu pa brosiectau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, rhaid i'r cynigion fod nid yn unig yn fforddiadwy ond bod o gymorth hefyd i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau/ceisiadau cyfalaf newydd a diweddarau gwybodaeth am brosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a nodir isod) a byddant yn cynnwys yr holl oblygiadau refeniw parhaus a fydd yn codi o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Drwy sgorio arfarniadau/ceisiadau cyfalaf newydd, ceir elfen o wrthrychedd a sicrheir bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, felly mae mwy o bwysau wedi'i roi i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Wedyn bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgoriau wrth ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

<b>Meini Prawf</b>	<b>Sgôr</b>
Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol	20
Mae'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol	10
Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw	10
Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Gorfforaethol	10
<b>Cyfanswm sgôr uchaf</b>	<b>50</b>

Mae'r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

## 4.2.2 Amserlen

Mae'r broses o gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb referniw a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chrynhai isod:-



## 4.2.3 Awdurdodi

Mae'r cyfrifoldeb am gadarnhau'r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn yn perthyn i'r Cyngor llawn, yn seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan Aelodau fel rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido'n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt yn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os bydd prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i'r prosiectau fod yn rhai sy'n helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

## 5.Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol

### 5.1 Cyfyngiadau Refeniw

- 5.1.1** Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) cychwynnol am 2021/22 i 2023/24 wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym Medi 2020. Roedd hwn yn cydnabod bod anhawster o ran cynllunio ariannol sy'n mynd yn bellach nag un flwyddyn oherwydd diffyg rhagolygon cyllidebol tair blynedd gan Lywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru. Roedd Brexit wedi achosi ansicrwydd sylweddol i'r economi, ac mae'n parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae effaith Brexit yn fach o'i chymharu ag effaith y Pandemig Coronafeirws ac mae'r economi'n fregus iawn ar ôl bron blwyddyn o gyfyngiadau Covid-19. Y benthycia gan y sector cyhoeddus am 2020/21 yw'r uchaf mewn un flwyddyn ers yr Ail Ryfel Byd. Yr amcangyfrif o'r ddyled wladol yw £2.13 triliwn, 99.4% o'r cynnyrch domestig gros GDP). O ganlyniad i'r camau a gymerodd Banc Lloegr i ostwng y gyfradd llog sylfaenol i 0.1% mewn ymateb i effaith economaidd y cyfyngiadau Covid-19, mae'r elw o fuddsoddiadau rheoli trysorlys wedi bod yn bitw. Ar y llaw arall, mae hyn wedi arwain at leihau'r costau llog sy'n daladwy ar fenthyciadau newydd ar gyfer gwariant cyfalaf. Er gwaethaf y cyllid sylweddol hwn i gynnal yr economi, y buddsoddi mewn cyfarpar diogelu personol a brechlynnau, mae nifer sylweddol o swyddi wedi'u colli a nifer mawr o fusnesau wedi cau. Byddai'r pwysau ariannol sydd ar y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru yn gallu amharu ar y swm o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Gynghorau yn y tymor canolig a hir. Felly, mae'n bwysig gosod strategaeth gyfalaf sy'n lleihau'r effaith ar y gyllideb refeniw.
- 5.1.2** Mae'r CATC diwygiedig am 2021/22 i 2023/24, y cafwyd adroddiad amdano i'r Pwyllgor Gwaith y Ionawr 2021, yn dangos bod y setliad dros dro am 2021/22 yn well na'r disgwyl, yn enwedig o ystyried cost sylweddol y Pandemig i Lywodraeth Cymru. Ar ôl bron degawd o doriadau sylweddol mewn cyllid hyd 2019/20, mae'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru am 2021/22 yn gynydd o 3.41% (3.84% yw'r cyfartaledd yng Nghymru), mae hyn yn debyg i setliad terfynol 2020/21. Unwaith eto, mae hyn i'w groesawu wedi'r blynyddoedd o doriadau sylweddol.
- 5.1.3** Mae setliad dros dro Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys manylion am y cyllid cyfalaf a ddarperir i'r Cyngor ar gyfer 2021/22. O dan y setliad dros dro, bydd y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf cyffredinol o £2.163m a benthyciadau â chefnogaeth o £2.158m sydd, gyda'i gilydd, yn dod i £4.321m. Er mwyn cadw'r costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ar gyfer y gyllideb refeniw, gan ystyried yr ansicrwydd am lefelau cyllid refeniw yn y dyfodol yn benodol, un o egwyddorion allweddol y strategaeth hon yw na ddylai rhaglenni cyfalaf wario mwy na'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio benthycia digefnogaeth ar gyfer elfen cyllid y Cyngor i raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r cyllid ar gyfer hyn ar yr un lefel, neu'n is, yn y dyfodol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei neilltuo'n gyntaf at ymestyn oes asedau'r Cyngor ac uwchraddio technoleg. Felly, ni fydd cyllid sylweddol ar gyfer prosiectau newydd. O dan y strategaeth hon, ni ddylid ystyried prosiectau newydd oni bai fod cyllid grant sylweddol ar gael i ymgymryd â phrosiect penodol, neu fod modd ei gyllido drwy fenthycia digefnogaeth os yw'r prosiect yn cwrdd â gofyniad y Cod Darbodus am gyllido'r costau cyllido cyfalaf o incwm ychwanegol neu drwy arbed gwariant/osgoi costau. Gellid cyllido prosiectau cyfalaf o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ond nid yw hyn yn gynaliadwy ac ni ddylid ystyried hyn oni bai fod lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol yn uwch na'r lefel isaf sydd wedi'i hargymell. Gellir ystyried defnyddio arian dros ben mewn cronfeydd wrth gefn fel cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gyllidir drwy grant.
- 5.1.4** Fel y nodwyd o'r blaen, bydd y cyllido ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, a rhoddir ystyriaeth i fforddiadwyedd wrth lunio'r Strategaeth Gyfalaf, ac mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn lleihau i'r eithaf costau benthycia drwy wneud y defnydd gorau o falansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf.

## 5.2 Cyllido gwaith Moderneiddio Ysgolion

- 5.2.1** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor ran o'r ffordd drwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, gyda Band A yn dod i ben yn 2022 a Band B yn rhedeg tan 2026. Os bydd y rhaglen yn cyflawni pob un o'i hamcanion arfaethedig, bydd yn para mwy na 10 mlynedd a gall cyfanswm y costau cyfalaf fod yn sylweddol.
- 5.2.2** Mae pedwar cam i'r rhaglen, sef Bandiau A, B, C a D. Mae dwy ysgol wedi'u cwblhau, sef Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan, ac mae trydedd ysgol, sef Ysgol Santes Dwynwen, bellach wedi'i chwblhau ac yn weithredol. Mae gwaith adnewyddu hefyd wedi'i gwblhau yn Ysgol Parc y Bont a Brynsiencyn. Y disgwyl yw y bydd y prosiectau olaf ym Mand A yn dechrau yn 2021, yn ddibynnol ar ganlyniad y gwaith ymgynghori a datblygu trwyadl.
- 5.2.3** Mae'r Cyngor hefyd yn dechrau ymgynghoriadau ac yn cwmpasu opsiynau ar gyfer Band B yn rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Gallai rhan o'r gwaith hwn ddechrau yn 2020/21, fodd bynnag, rhagwelir y bydd modd dechrau'r gwaith mwyaf yn 2021/22. Cyfanswm yr amcangyfrif presennol o'r gost ar gyfer Band B yw £36m.
- 5.2.4** Mae Band A rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn cael ei gyllido drwy 50% o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% drwy fenthycia digefnogaeth. Mae rhan o'r cyllid o 50% gan Lywodraeth Cymru yn gyllid grant (67% o'r 50%) a rhan ohono'n fenthycia â chefnogaeth (33% o'r 50%). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer Band B wedi cynyddu i 65%, ond ni wyddom ar hyn o bryd sut bydd hyn wedi'i ddyrannu rhwng cyllid grant a benthycia â chefnogaeth. Felly, cymerir y bydd 50% o gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu fel grant a 50% drwy fenthycia â chefnogaeth.
- 5.2.5** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi ar gyfer Band B (MIM), lle mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat a bod y Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (disgwylir y bydd yn 70% o leiaf).
- 5.2.6** Cafodd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (ar ôl ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017). Mae Tabl 1 isod yn dangos amcangyfrif o'r gwariant a'r cyllid ar gyfer 2021/22.

<b>Tabl 1</b> <b>Amcangyfrif o'r Cyllid ar gyfer Band A yn 2021/22</b> <b>a Phrosiectau Arfaethedig Band B</b>					
<b>Band</b>	<b>Rhanbarth</b>	<b>Benthycia Digefnogaeth (net o'r derbyniad cyfalaf) £'m</b>	<b>Benthycia â chefnogaeth £'m</b>	<b>Grant LIC £'m</b>	<b>Cyfanswm £'m</b>
	<b>CYFANSWM BAND A</b>	<b>0</b>	<b>2.5</b>	<b>2.5</b>	<b>5.0</b>
	<b>CYFANSWM BAND B</b>	<b>0.5</b>	<b>0.4</b>	<b>0.7</b>	<b>1.6</b>

- 5.2.7** Tybir y bydd yr holl fenthycia â chefnogaeth a benthycia digefnogaeth yn cael ei wneud drwy gymryd benthyciadau newydd gan PWLB dros gyfnod sy'n cyfateb i oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

- 5.2.8** Bydd unrhyw fenthycia ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor a bydd hyn, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.
- 5.2.9** Byddai'r benthycia digefnogaeth ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 50 mlynedd a llog blynyddol o 3.2%) yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf ychwanegol o £0.658m y flwyddyn i'r gyllideb refeniw (£0.405m o log yn daladwy a DRI o £0.253 miliwn) ar ôl cwblhau'r Rhaglen gyfan. Yn ymarferol, byddai'r costau hyn yn dod i mewn yn raddol wrth i bob prosiect gychwyn ac ar ôl cymryd y benthyciadau i wneud y gwaith. Byddai'r tâl DRI yn cael ei godi wedi i'r ysgolion ddod yn weithredol.
- 5.2.10** Dylid nodi y bydd cyflawni'r prosiectau Band B yn dileu'r angen am gyflawni gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni mewn gwahanol ysgolion. Byddai costau refeniw a chyfalaf ychwanegol pellach yn cael eu hysgwyddo wrth gyflawni gwaith Band C a Band D. Byddai angen i unrhyw symiau a neilltuir i'r camau hyn o'r rhaglen fod yn ymarferol ac yn fforddiadwy.

## 6. Cyllid

### 6.1 Ffynonellau Cyllid – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno. Rhaid i'r grant hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
- **Benthycia â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthycia â Chefnogaeth".
- **Benthycia Digefnogaeth** – Yma eto, mae'r Cyngor yn benthycia'r arian gan PWLB neu o ffynhonnell arall ond mae gofyn iddo gyllido'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Ar y cyfan, mae prosiectau a gyllidir drwy fenthycia digefnogaeth yn brosiectau sy'n sicrhau arbedion refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer bydd cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf o ran y gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pa bryd y mae'n rhaid ysgwyddo'r gwariant.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau gyfrannu o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Gan amlaf, bydd y cyfraniadau hyn ar ffurf cyllid cyfatebol ar gyfer prosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir drwy werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer, bydd derbyniadau o'r fath yn codi o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio cyllid sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

### 6.2 Fel yr eglurwyd yn y paragraff uchod, caiff y rhaglen gyfalaf ei chyllido o sawl ffynhonnell wahanol sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd:-

- 6.2.1** Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor gan fod pob grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Gellir cael gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu na fydd grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y byddant yn cael eu cario o un flwyddyn i'r nesaf drwy fantolen y Cyngor.

**6.2.2** Mae derbyniadau cyfalaf yn ganlyniad i drosi asedau dros ben i arian parod sydd, yn ei dro, yn arwain at greu ased newydd. Yma eto, ychydig iawn o effaith hirdymor a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond fe ddaw adeg pan fydd yr holl asedau dros ben wedi'u gwerthu ac y bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r cyllid dros ben ar y cyfrif CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor.

**6.2.3** Bydd y defnydd o gyllid refeniw yn lleihau gwerth yr arian sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n trosi arian parod dros ben i wneud ased newydd.

**6.2.4** Mae benthycia â chefnogaeth a benthycia digefnogaeth yn effeithio ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor ac mae goblygiadau o hynny, yn ei dro, i'r gyllideb Refeniw gan y bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) a'r taliadau llog blynyddol yn fwy.

**6.2.5** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthycia ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT. Mae'r holl fenthycia yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu dyrannu i'r ddwy gronfa ar sail lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Mae'r dull dyrannu yn cael ei ddal dan sylw drwy'r amser i sicrhau mai hwnnw yw'r dull mwyaf teg.

### **6.3 Cyfyngiadau Cyllido dros y Tair Blynedd nesaf**

**6.3.1** Mae'r cyd-destun ariannol ansicr y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod yn adran 5, ac mae'n dangos bod cyfyngiadau ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyllido gwariant cyfalaf. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, tra'n lleihau'r gostyngiad yng nghyllidebau gwasanaethau i'r graddau mwyaf posibl. Mae'n rhesymol i'r Cyngor leihau'r cynnydd sydd ei angen yn y gyllideb cyllido cyfalaf. Bydd angen darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei chyllido drwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthycia â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido drwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**6.3.2** Ni ddylid ystyried benthycia digefnogaeth (y tu allan i raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif) oni bai fod modd gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol o swm sy'n fwy na'r DRI a'r costau llog.

**6.3.3** Polisi Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd yw cynnal lefel y grant cyfalaf cyffredinol a benthycia â chefnogaeth ar yr un lefel â'r blynyddoedd cynt neu'n agos iddi, a chyfeirio cyllid cyfalaf ychwanegol at ysgolion, gwella ffyrdd ac ati. Er hynny, cafwyd cynnydd yn y cyllid grant cyffredinol ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

**6.3.4** Fel landlord stoc dai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweiriadau mawr yn dilyn cyflwyno a chael cymeradwyaeth i'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae gwariant cyfalaf ar y CRT yn cael ei ategu drwy ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy ddefnyddio pwerau benthycia sydd ar gael i'r CRT.

**6.3.5** Bydd grantiau penodol sydd wedi cael eu cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o bidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol er mwyn sicrhau'r cyllid grant. Mae'r grantiau a'r cyfraniadau a nodwyd fel ffynonellau cyllid ar hyn o bryd ar gyfer 2020/21 yn dod i £8m, gan gynnwys y grant cyfalaf cyffredinol. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid sylweddol gan yr UE mewn blynyddoedd blaenorol. Ni fydd y ffynhonnell cyllid hon ar gael o 2021/22 ymlaen, ond bydd y Cyngor yn ceisio canfod ffynonellau cyllid grant eraill lle bo hynny'n bosibl.



- 6.3.6** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n ofynnol bod unrhyw fenthycy digefnogaeth yn cynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gaiff eu cyllido drwy fenthycy digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun unigol.
- 6.3.7** Yn ogystal â'r ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw sydd heb eu defnyddio eto. Y balans cyfredol yw £0.800m. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r swm hwn yn cael ei defnyddio tuag at gyllido rhaglen 2020/21.
- 6.3.8** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu yn cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 oedd £1.3m. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell gyllido ar gyfer rhaglen 2020/21, neu byddant yn helpu i gyllido gwariant sydd wedi llithro yn 2021/22 ac wedyn fel y bo'r angen.
- 6.3.9** I grynhoi, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2021/22 fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (£2.163 miliwn), benthycy â chefnogaeth (£2.158 miliwn) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu a gynhyrchir yn y flwyddyn. Byddai cyfanswm y gyllideb sydd ar gael oddeutu £4.3m, heb gynnwys grantiau, cyllid Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a chyllid y CRT. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso yn y tymor canol a'r tymor hir i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun y toriadau parhaus mewn cyllid.

#### **6.4 Amcangyfrif o'r Proffil Cyllido 2021/22 i 2023/24**

- 6.4.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru (ac eithrio cyllid Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif) ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2023/24 wedi'i ddangos yn Nhabl 2 isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o grantiau cyfalaf bach.

**Tabl 2**  
**Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2021/22– 2023/24**

	<b>2021/22</b> <b>£'m</b>	<b>2022/23</b> <b>£'m</b>	<b>2023/24</b> <b>£'m</b>
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2.163	1.818	1.818
Benthycy â Chefnogaeth	2.158	2.158	2.158
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	2.660	2.660	2.660
<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru</b>	<b>6.981</b>	<b>6.636</b>	<b>6.636</b>

- 6.4.2** Prin yw'r cyfle i gyllido prosiectau newydd yn 2021/22 drwy'r cyllid a dderbynnir yn rhan o setliad ariannol Llywodraeth Cymru. Roedd y cynnydd yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 i 2021/22 wedi helpu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf ychwanegol ar sail blaenoriaeth. Rhagwelir y bydd y grant cyffredinol yn dychwelyd i lefelau blaenorol o 2022/23. Mae benthycy digefnogaeth yn bosibl ond, oni bai fod y prosiectau yn creu arbedion refeniw, bydd y tâl DRI a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw a bydd yn rhaid cyllido hynny drwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu drwy wneud arbedion refeniw yn rhywle arall. Felly, gall y Cyngor sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy drwy gyfyngu'r gwariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthycy digefnogaeth i Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a phrosiectau cyfalaf sy'n arwain at arbedion refeniw sy'n fwy na'r costau DRI a llog a fydd yn daladwy yn sgil y cyllido cyfalaf. Mae'r Adroddiad ar Raglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22, a grynhoir isod, yn cynnig rhaglen fforddiadwy gyda defnydd cyfyngedig o fenthycy digefnogaeth.



## 7. Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22

7.1 Bydd y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021/22 yn cael ei chyflwyno gyda'r strategaeth gyfalaf hon i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021 ac i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig, yn cynnwys y ffynonellau cyllid. Darparwyd manylion ychwanegol yn Atodiad 2.

### Crynodeb o Raglen Gyfalaf ddrafft 2021/22

	Cyf.	£'000
Cynlluniau 2020/21 a ddygwyd ymlaen	Para 3.1	4,000
Adnewyddu / Amnewid Asedau	Para 3.1	4,137
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau â Blaenoriaeth)	Para 3.3	780
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael)	Para 3.3	325
Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	Gweler adroddiad 18/01/21	6,600
Cyfrif Refeniw Tai	"	20,313
<b>Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf sydd wedi'i hargymell ar gyfer 2021/22</b>		<b>36,155</b>
<b>Wedi'i chyllido drwy:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,163
Benthyca Cyffredinol â Chefnogaeth		2,158
Balansau Cyffredinol		596
Balansau Cyffredinol (os oes digon o gyllid ar gael)		325
Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif - Benthyca â Chefnogaeth		2,897
Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif - Benthyca Digefnogaeth		498
Arian Wrth Gefn y CRT a Gwarged yn y Flwyddyn		15,639
CRT - Benthyca Digefnogaeth		2,000
Grantiau Allanol		5,909
Cynlluniau 2020/21 a ddygwyd ymlaen (Grantiau Allanol)		3,970
<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22</b>		<b>36,155</b>

## 7.2 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf yn y Tymor Hwyr

7.2.1 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft isod yn darparu rhagolygon sy'n gyson â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor 2017/22 a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys. Mae'r strategaeth gyfalaf hon hefyd yn rhoi gwybod am y bwriadau tymor hir mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif sydd wedi'i hamlinellu'n fanwl uchod ac y disgwylir iddi barhau ar ôl 2022/23. Wrth ddatblygu pob cynllun ym Mand B, bydd yr effaith ariannol yn cael ei hasesu ond derbynir y bydd angen i rai prosiectau fynd yn eu blaen er mwyn cwrdd â blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor ac y bydd angen cyllido'r costau refeniw ychwanegol o arbedion refeniw neu o gynnydd yn y Dreth Gyngor. Os bydd y Cyngor yn gweld, wrth fynd drwy Fand B yn Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, fod ystyriaethau'n codi o ran fforddiadwyedd, yna bydd y prosiectau sydd wedi'u cynnwys ym Mand B yn cael eu hadolygu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cyflwyno camau C a D yn y rhaglen. Fodd bynnag, dim ond os oedd y camau hyn yn fforddiadwy y gellid eu cyflawni.

**7.2.2** Dylai'r holl egwyddorion yn adran 2 fod yn sail hefyd i wariant cyfalaf tymor hwy oni bai fod gwahaniaethau sylweddol yn y Cynllun Cyngor newydd ar gyfer 2023/28. Dylai unrhyw brosiectau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion, er enghraifft adnewyddu asedau presennol, gael eu cyllido drwy grant neu fenthycia â chefnogaeth i'r dyfodol, os bydd y ffrydiau cyllido hynny ar gael yn y tymor hir hefyd.

### **7.3 Strategaeth Buddsoddiadau nad yw'n ymwneud â Rheoli Trysorlys**

**7.3.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys wedi'i chynnwys yn y DSRhT a gaiff ei drafod isod. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn dal nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli trysorlys, sef unedau eiddo y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt i ennill incwm rhent. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw hirdymor i'r Cyngor. Roedd tua 70 eiddo yn y portffolio eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2020, a'r rhain wedi'u prisiau ar £6.2m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2019/20, casglwyd incwm rhent o £349k o eiddo buddsoddi. Gwariwyd £140k ar gostau cynnal a chadw ac ati, ac roedd hyn wedi arwain at incwm gweithredol net o £209k o incwm rhent. O ran cynlluniau ar gyfer eiddo buddsoddi yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gynnal yr adeiladau at safonau cyfreithiol. Yn ogystal â hyn, codwyd adeilad unedau diwydiannol newydd yn Llangefni yn ddiweddar ac mae'n weithredol. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i adeiladu Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caerdybi. Mae'n debygol y bydd yr unedau hyn yn weithredol yn 2021/22.

**7.3.2** Mae pŵer gan Awdurdodau Lleol i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgarwch economaidd yn ardal y Cyngor neu fel modd i gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach na'r cynlluniau a nodir uchod, ond mae'r defnydd o'r pwerau hyn yn opsiwn sydd ar gael o hyd ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor ysgwyddo gwariant ar eiddo buddsoddi er mwyn cwrdd ag amcanion allweddol y Cyngor neu er mwyn manteisio ar unrhyw gyllid allanol sylweddol a fydd ar gael.

## **8. Benthycia a Rheoli Trysorlys**

**8.1** Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli Trysorlys (TMP) yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod y benthycia i gyllido rhaglen gyfalaf 2021/22 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021.

**8.2** Mae Atodiad 11 i DSRhT 2020/21 yn darparu'r dangosyddion darbodus a thrysorlys ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2023/24, sy'n gymorth i benderfynu a yw cynlluniau benthycia yn fforddiadwy.

**8.3** Un ffordd i fesur fforddiadwyedd yw'r gymhareb rhwng costau cyllido a ffrydiau refeniw net. Mae'r amcangyfrifon o'r gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrydiau refeniw net fel a ganlyn:-

2019/20 (Gwirioneddol)	6.62%
2021/22(Rhagamcan)	6.18%
2022/23 (Rhagamcan)	5.51%
2023/24 (Rhagamcan)	6.04%

Ar sail yr uchod, mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau'n fforddiadwy yn nhermau goblygiadau refeniw.

Yn 2018/19, diwygiodd y Cyngor ei bolisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ac roedd modd iddo ôl-ddyddio'r newidiadau. Yr amcan wrth ddiwygio'r polisi oedd sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, un canlyniad i'r newid hwn oedd dangos bod gorddarpariaeth yn y blynyddoedd cynt a gellir defnyddio'r orddarpariaeth hon ym mlynyddoedd y dyfodol i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn aros yn fforddiadwy. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y tâl DRI blynyddol.

- 8.4 Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo modd, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, rhaid cynnal balansau arian parod digonol er mwyn cwrdd ag anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

## 9 Risgiau Posibl sy'n codi o'r Strategaeth Gyfalaf

- 9.1 Mae'n debygol y bydd angen gwneud arbedion blynyddol sylweddol dros y tair blynedd nesaf gan beri risg i'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys y rhaglen gyfalaf. Os bydd y targed arbedion yn anodd ei gyrraedd, ac mae hyn yn debygol am fod y rhan fwyaf o gyllidebau wedi'u torri at y craidd, gallai hyn arwain at adolygu'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf sy'n effeithio ar refeniw yn llai.
- 9.2 Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. Gan gofio'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch cyllidebau a'r ffaith y bydd y cyllid grant sylweddol a dderbynnir oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn cael ei golli, mae risg na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn cael ei dderbyn fel y mae wedi'i nodi yn y strategaeth. Os bydd unrhyw newidiadau yn y cyllid, bydd yn rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol.
- 9.3 Mae'r Cyngor wedi defnyddio benthyca mewnol dros nifer o flynyddoedd i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar falansau arian parod. Roedd y Cyngor wedi cymryd £15m o fenthyciadau allanol ym Mawrth 2019 ar gyfraddau isel iawn gan y PWLB. Byddai cynnydd pellach yn y costau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn gallu effeithio ar fforddiadwyedd ac ar allu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf newydd drwy fenthycia allanol ychwanegol.
- 9.4 Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd y gallu i gynnal asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen amnewid yn ddigonol a bod safonau'r asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen lefel uwch o fuddsoddi er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae'n bosibl na fydd y buddsoddi ychwanegol hwn yn fforddiadwy neu y bydd gofyn tynnu prosiectau newydd eraill o'r rhaglen.
- 9.5 Mae Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn un mor sylweddol ac uchelgeisiol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio Bandiau C a D. Bydd angen dal sylw drwy'r amser ar Fand B y rhaglen er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu cadw o fewn y cyllidebau a osodwyd yn yr achosion busnes.
- 9.6 Mae benthyca allanol yn arwain at gostau llog sylweddol bob blwyddyn. Mae'r mwyafrif o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac nid yw codiadau mewn cyfradd llog yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynnydd mawr mewn cyfraddau llog yn gallu effeithio ar fforddiadwyedd prosiectau yn y dyfodol os ydynt yn cael eu cyllido drwy fenthyciadau. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn amlinellu camau sy'n lliniaru'r risg hon i ryw raddau.

## 10. Gwybodaeth a Sgiliau

- 10.1 Mae'r tîm cyfrifeg Adnoddau yn cynnwys pedwar o gyfrifyddion cymwys, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, sy'n gofalu am y rhaglen gyfalaf a'r swyddogaeth rheoli trysorlys. Yn ogystal â hyn, mae technegydd cyfrifeg cymwys sydd â phrofiad helaeth ym maes cyfalaf a rheoli trysorlys. Mae'r tîm yn mynychu cyrsiau CIPFA ar gyfalaf a rheoli trysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am y maes cyfrifeg arbenigol hwn. Hefyd, mae tîm o swyddogion proffesiynol o fewn gwasanaethau, er enghraifft, penseiri, rheolwyr prosiect a pheirianwyr, sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei aildendro ar hyn o bryd yn unol â rheolau caffael. Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyfalaf a rheoli trysorlys ac mae Aelodau'n cael cynnig hyfforddiant ar reoli trysorlys. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi'u hamlinellu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

**Atodiad 2**  
**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2021/22**

CYNLLUN	CYLLIDEB 2021/22 £'000	CYLLIDWYD DRWY						
		Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Digefnogaeth £'000	Cronfa Wrth Gefn y CRT £'000	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol (os oes digon o gyllid) £'000
<b>Cynlluniau ymrwymedig 2020/21 a ddygwyd ymlaen</b>								
Unedau Porth (ERDF)	2,032	2,032						
Porth Twristiaeth	1,290	1,290						
Partneriaeth Tirwedd Caergybi	210	210						
Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflyn)	438	438						
Asedau TG Ysgolion	30	30						
<b>CYFANSWM Cynlluniau ymrwymedig 2020/21 a ddygwyd ymlaen</b>	<b>4,000</b>	<b>4,000</b>	-	-	-	-	-	-
<b>Adnewyddu / Amnewid Asedau</b>								
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	500		500					
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg	300			300				
Adnewyddu Ysgolion	1,000			1,000				
Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion	600			600				
Priffyrdd	1,250		1,250					
Cerbydau	195		195					
Asedau TG	292		218	74				
<b>CYFANSWM Adnewyddu / Amnewid Asedau</b>	<b>4,137</b>	-	<b>2,163</b>	<b>1,974</b>	-	-	-	-

CYNLLUN	CYLLIDEB 2021/22 £'000	CYLLIDWYD DRWY						
		Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthycu â Chefnogaeth £'000	Benthycu Digefnogaeth £'000	Cronfa Wrth Gefn y CRT £'000	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn (os oes digon o gyllid) £'000
<b>Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Blaenoriaeth)</b>								
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd	180			89			91	
Datblygu Economaidd – pot cyllid cyfatebol	95			95				
Chromebooks i ysgolion	305						305	
Ailwynebu manau chwarae (arwynebedd mawr)	200						200	
<b>CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Blaenoriaeth)</b>	<b>780</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>184</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>596</b>	<b>-</b>
<b>Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (os bydd cyllid ar gael)</b>								
Cynllun Llifogydd Traeth Coch	225							225
Ailwynebu manau chwarae (arwynebedd bach)	100							100
<b>CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (os bydd cyllid ar gael)</b>	<b>325</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>325</b>
<b>Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif</b>								
Band A	5,077	2,539		2,538				
Band B	1,523	666		359	498			
<b>CYFANSWM Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif</b>	<b>6,600</b>	<b>3,205</b>	<b>-</b>	<b>2,897</b>	<b>498</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>
<b>CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL</b>	<b>15,842</b>	<b>7,205</b>	<b>2,163</b>	<b>5,055</b>	<b>498</b>	<b>-</b>	<b>596</b>	<b>325</b>

**CYLLIDWYD DRWY**

<b>CYNLLUN</b>	<b>CYLLIDEB 2021/22 £'000</b>	<b>Grantiau Allanol £'000</b>	<b>Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000</b>	<b>Benthycu â Chefnogaeth £'000</b>	<b>Benthycu Digefnogaeth £'000</b>	<b>Cronfa Wrth Gefn y CRT £'000</b>	<b>Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000</b>	<b>Cronfeydd Wrth Gefn (os oes digon o gyllid) £'000</b>
<b>Cyfrif Refeniw Tai</b>								
Rhaglen Gynnal a Chadw Traddodiadol SATC	9,555	2,674				6,881		
Datblygiadau newydd ac aillbrynu unedau eiddo rhentu i brynu	10,758				2,000	8,758		
<b>CYFANSWM y Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>20,313</b>	<b>2,674</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>2,000</b>	<b>15,639</b>	<b>-</b>	<b>-</b>
<b>CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2021/22</b>	<b>36,155</b>	<b>9,879</b>	<b>2,163</b>	<b>5,055</b>	<b>2,498</b>	<b>15,639</b>	<b>596</b>	<b>325</b>

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>		
<b>Adroddiad i:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>	
<b>Dyddiad:</b>	<b>01 MAWRTH 2021</b>	
<b>Pwnc:</b>	<b>CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL AR GYFER 2021/22</b>	
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>CYNGHORYDD R WILLIAMS</b>	
<b>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</b>	<b>R MARC JONES</b>	
<b>Awdur:</b>	<b>JEMMA ROBINSON</b>	
<b>Ffôn:</b>	01248 752675	
<b>E-bost:</b>	JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk	
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Amherthnasol</b>	
<b>A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau</b>		
<b>1. PWRPAS YR ADRODDIAD</b>		
1.1 The Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22, a gyflwynir i'r Cyngor llawn ar gyfer ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2021.		
<b>2. ARGYMHELLION</b>		
2.1 Argymell y Rhaglen Gyfalaf ganlynol ar gyfer 2021/22 i'r Cyngor llawn:-		
	<b>Cyf</b>	<b>£'000</b>
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21	Para 3.1	4,000
Adnewyddu/Amnewid Asedau	Para 3.1	4,137
Prosiectau Cyfalaf Untro (Prosiectau Blaenoriaeth)	Para 3.3	0.780
Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar gael)	Para 3.3	0.325
Ysgolion 21 <sup>ain</sup> Ganrif	Gweler Adroddiad 18/01/21	6,600
Cyfrif Refeniw Tai	"	20,313
<b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2021/22</b>		<b>36,155</b>
<b>Cyllidir Gan:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,163
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,158
Balansau Cyffredinol		291
Balansau Cyffredinol (os oes cyllid digonol ar gael)		325
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif		2,897
Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif		498
CRT wrth gefn a gwarged yn y flwyddyn		15,639
Benthyca Digefnogaeth CRT		2,000
Grantiau Allanol		6,184
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen 2020/21 (Grantiau Allanol)		4,000
<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22</b>		<b>36,155</b>

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf, gyda fforddiadwyedd a gwneud y mwyaf o gyllid grant allanol fel y prif ffactorau cyllidol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y gyllideb gyfalaf.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amh

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**

**C Beth oedd eu sylwadau?**

1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)</b>	Wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
2	<b>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</b>	Amh – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</b>	
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Amh
5	<b>Eiddo</b>	Gofynion cyllideb wedi eu hadlewyrchu yn y gyllideb arfaethedig
6	<b>Technoleg Gwybo0daeth a Chyfathrebu</b>	Gofynion cyllideb wedi eu hadlewyrchu yn y gyllideb arfaethedig
7	<b>Caffael</b>	Amh
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	Amh
10	<b>Arall</b>	

**E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn betrhnasol) Impact on our Future Generations(if relevant)**

1	<b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys</b>	Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor ac yn ffurfio rhan o'r strategaeth i fodloni'r amcanion a nodwyd yng nghynllun corfforaethol y Cyngor.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	Bydd cynnal a chadw parhaus o asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol.
3	<b>A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwng wybod gyda phwy-</b>	Mae prosiectau Cyfalaf o ran Ysgolion 21ain Ganrif a'r CRT yn flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.



4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	Bydd y gyllideb gyfalaf yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb cyn ei chadarnhau gan y Cyngor ym Mawrth 2021.
5	<b>Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg</b>	Mae elfennau o'r rhaglen gyfalaf yn cyfrannu at yr agenda Cydraddoldeb e.e. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Mynediad i'r Anabl i Ysgolion, prynu Chromebooks ar gyfer disgyblion ysgol.
<b>F - Atodiadau:</b>		
<p>Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf 2021/22</p> <p>Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig 2021/22</p>		
<b>FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>		
<p>Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Cyngor llawn 10 Mawrth 2020</p> <p>Cyllideb Cyfalaf 2020/21 – Cyngor llawn 10 March 2020</p> <p>Cyllideb Cyfalaf Drafft – Pwyllgor Gwaith – 18 Ionawr 2021</p>		

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2021, argymhellodd y Pwyllgor Gwaith bod y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ganlynol ar gyfer 2021/22, a ddangosir yn Nhabl 1 isod, yn cael ei chymeradwyo. Mae'r Gyllideb Gyfalaf drafft ar gyfer 2021/22, a nodir isod yn Nhabl 1, yn cymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym Mawrth 2020 a'r Cyngor llawn ym Mawrth 2020. Mae hefyd yn bodloni egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2021/22, a fydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Rhaglen Gyfalaf yma ac a gyflwynir i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021.

**Tabl 1**

**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2021/22 a gafodd ei hargymell yn y Pwyllgor Gwaith ar 18 Ionawr 2021**

	<b>Cyf (o fewn Adroddiad Cyllideb Gyfalaf Drafft 2021/22, y PG 18 Ionawr 2021)</b>	<b>£'000</b>
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21	Para 4.1 a Tabl 2	3,970
Adnewyddu/Amnewid Asedau	Para 4.2.2 a Tabl 3	4,167
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau Blaenoriaeth)	Para 5.2 – 5.6 a Tabl 4	780
Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar gael)	Para 5.6	325
Ysgolion 21ain Ganrif	Para 6	6,600
Cyfrif Refeniw Tai	Para 7	20,313
<b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2021/22</b>		<b>36,155</b>
<b>Cyllidir gan :</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,163
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,158
Balansau Cyffredinol		596
Balansau Cyffredinol (os oes cyllid digonol ar gael)		325
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif		2,897
Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif		498
CRT wrth gefn a Gwarged yn y flwyddyn		15,639
CRT benthyca digefnogaeth		2,000
Grantiau Allanol		5,909
Cyllid a ddygwyd ymlaen 2020/21		3,970
<b>Cyfanswm Cyllid Gyfalaf 2021/22</b>		<b>36,155</b>

## 2. CANLYNIAD Y BROSES YMGYNGHORI GYHOEDDUS

- 2.1. Derbyniwyd nifer o sylwadau perthnasol i'r Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22 yn ystod yr ymgynghoriad ar y gyllideb 2021/22 a ddaeth i ben ar 2 Chwefror 2021.

- 2.1.1** Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn o'r syniad i ddod a Chromebooks i mewn ar gyfer ysgolion. Gellir gweld hyn yn nifer y bobl a gefnogodd gwelliant mewn addysg. Fodd bynnag, roedd y £300,000 ar gyfer lle chwarae yng Nghaergybi yn cael ei ystyried yn swm afresymol o arian i'w wario.
- 2.1.2** Roedd pobl yn gefnogol iawn o gynlluniau ychwanegol ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd. Nododd nifer o bobl y llifogydd diweddar fel eu rhesymeg tu ôl i fod yn dymuno cynlluniau atal llifogydd.
- 2.1.3** Roedd nifer o bobl yn awyddus i weld gwelliant yn nifer y llwybrau beicio a'r llwybrau cerdded ar gyfer yr Ynys – yn enwedig yn ardal Llangedfni. Nododd pobl hefyd sut yr hoffent weld cynnydd yn nifer y meysydd chwarae neu ailwampio nifer o feysydd chwarae – gan nodi nad oedd digon o le i blant chwarae mewn nifer o ardaloedd.
- 2.1.4** Roedd pobl yn awyddus i weld un ai mwy o dai Cyngor yn cael eu prynu, neu welliant i gyflwr nifer o dai Cyngor sydd eisoes yn bodoli.
- 2.1.5** Cafwyd ymateb sylweddol i nifer y bobl a oedd yn dymuno gweld gwelliant i'w ffyrdd. Yn fwy na hynny, nid oedd hyn mewn rhai ardaloedd penodol yn unig, roedd yn gyffredin ledled yr Ynys. Roedd pobl yn aml yn tynnu sylw at y ffaith bod tyllau yn yr arwyneb ffyrdd gwael wedi achosi difrod i'w ceir.
- 2.1.6** Nododd ychydig o bobl yr hoffent weld cyllid ar gael er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn fwy ecogyfeillgar. Roedd ymatebion yn amrywio o fod yn dymuno gweld mwy o fannau gwefru ceir trydan, i fod eisiau gweld mwy o goed yn cael eu plannu ac ati.

### **3. DIWEDDARU'R RHAGLEN GYFALAF ERS I'R RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT GAEL EI CHYFLWYNO YM MIS IONAWR 2021**

- 3.1** Wedi'i gynnwys yn y ffigwr Adnewyddu/Amnewid Asedau o £4,167k, mae ffigwr o £30k y dylid ei gynnwys yn y ffigwr Cynlluniau a ddygwyd ymlaen Oo 2020/21. Mae hwn bellach wedi'i adlewyrchu yn Tabl 2 isod sydd wedi'i ddiweddarau ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar y cyllid.
- 3.2** Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid grant a defnyddio'r dull rhataf o gyllido'r rhaglen gyfalaf, mae angen hyblygrwydd o ran dulliau cyllido. Felly, gall y ffynonellau cyllido a nodwyd fesul cynllun yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 (fel y gwelir yn Atodiad 2) newid yn ystod 2020/21. Mae hyn yn ymarfer arferol ac mae'n caniatáu'r Cyngor i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf o grantiau a gwneir y defnydd lleiaf posib o fenthyca allanol.
- 3.3** Wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft roedd ffigwr o £300k ar gyfer ail wynebu dau le chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi. Awgrymwyd pe na fyddai digon o arian wrth gefn ar gael y gellid lleihau'r cynllun ac i ddim ond un lle chwarae gael ei ail wynebu yn 2021/22, gydag amcangyfrif o gost wedi'i chynnwys yn y gyllideb ddrafft o £200k ar gyfer yr ardal fawr a £100k ar gyfer yr ardal lai. Rhaid nodi fod y gost o £300k ar gyfer y ddwy ardal ar gyfer gwneud y ddwy ardal ar unwaith. Mae dyfynbris diwygiedig bellach wedi'i dderbyn ar gyfer cwblhau'r ddwy ardal ar wahân petai angen, sy'n cadarnhau rhaniad y gost fel £200k a £100k.
- 3.4** Roedd y gyllideb ddrafft yn cynnwys ffigwr o £305k am Chromebooks i ysgolion, oedd wedi ei gyllido o'r arian wrth gefn cyffredinol. Yn dilyn cyhoeddiad fod Llywodraeth Cymru yn dyrannu swm i Awdurdodau Lleol ar draws Cymru i cyllido Trawsnewid Digidol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnig fod y Chromebooks yn cael eu cyllido gan y grant allanol yma. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn Nhabl 2 isod.

3.5 Mae'r newidiadau hyn wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig diwygiedig ar gyfer 2021/22, ac wedi eu crynhoi yn Nhabl 2 isod.

#### 4. LLITHRIANT 2020/21

4.1 Rhagwelir tanwariant o £22.186m ar y Rhaglen Gyfalaf bresennol ar gyfer cynlluniau 2020/21 (£8.022m CRT a £14.164m Cronfa Gyffredinol). Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y sefyllfa alldro arfaethedig ar ddiwedd chwarter 3. Bydd y gwir sefyllfa alldro ar ddiwedd chwarter 4 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn mewn adroddiad alldro cyfalaf ar wahân a bydd unrhyw symiau sydd wedi llithro y gofynnir i'w cario ymlaen i 2021/22 yn destun cymeradwyaeth y Pwyllgor hwn bryd hynny. Mae cynlluniau sydd wedi eu hymrwymo iddynt ac sydd wedi cynllunio i redeg am nifer o flynyddoedd wedi eu cynnwys yn y rhaglen hon o ganlyniad i'r angen am gyllidebau newydd.

**Tabl 2**

#### Rhaglen Gyfalaf Terfynol Arfaethedig 2021/22

	Cyf	£'000
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21	Para 3.1	4,000
Adnewyddu/Amnewid Asedau	Para 3.1	4,137
Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau Blaenoriaeth)	Para 3.3 Para 3.4	780
Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar gael)	Para 3.3	325
Ysgolion 21 <sup>ain</sup> Ganrif	Gweler Adroddiad 18/01/21	6,600
Cyfrif Refeniw Tai	"	20,313
<b>Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2021/22</b>		<b>36,155</b>
<b>Cyllidir Gan:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,163
Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol		2,158
Balansau Cyffredinol		291
Balansau Cyffredinol (os oes cyllid digonol ar gael)		325
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif		2,897
Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif		498
CRT wrth gefn a Gwarged yn y flwyddyn		15,639
Benthyca Digefnogaeth CRT		2,000
Grantiau Allanol		6,184
Cynlluniau a ddygwyd ymlaen 2020/21 (Grantiau Allanol)		4,000
<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22</b>		<b>36,155</b>

Cynllun	CYLLIDEB 2021/22 £'000	CYLLIDIR GAN						
		Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Di- gefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth gefn Cyffredinol £'000	Arian Wrth gefn Cyffredinol (os oes cyllid digonol) £'000
<b>Cynlluniau Ymrwymedig 2020/21 ddygwyd ymlaen</b>								
Unedau Porth (ERDF)	2,032	2,032						
Porth Twristiaeth	1,290	1,290						
Partneriaeth Tirlunio Caergybi	210	210						
Adfywio Caergybi (Menter Trefnadaeth Treflyn Rhan II)	438	438						
Asedau TG Ysgolion	30	30						
<b>CYFANSWM 2020/21 Cynlluniau Ymrwymedig ddygwyd ymlaen</b>	<b>4,000</b>	<b>4,000</b>	-	-	-	-	-	-
<b>Adnewyddu/Amnewid Asedau</b>								
Grantiau Cyfleusterau'r Anabl	500		500					
Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol	300			300				
Ailwampio Ysgolion	1,000			1,000				
Ailwampio Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion	600			600				
Priffyrdd	1,250		1,250					
Cerbydau	195		195					
Asedau TG	292		218	74				
<b>CYFANSWM Adnewyddu/Amnewid Asedau</b>	<b>4,137</b>	-	<b>2,163</b>	<b>1,974</b>	-	-	-	-

CYNLLUN	CYLLIDEB 2021/22 £'000	CYLLIDIR GAN						
		Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthyca â Chefnogaeth £'000	Benthyca Di- gefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth gefn Cyffredinol £'000	Arian Wrth gefn Cyffredinol (os oes cyllid digonol) £'000
<b>Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Blaenoriaeth)</b>								
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd	180			89			91	
Datblygu Economaidd – pot cyllid cyfatebol	95			95				
Chromebooks i ysgolion	305	305						
Ail wynebu ardaloedd chwarae (ardal fawr)	200						200	
<b>CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Blaenoriaeth)</b>	<b>780</b>	<b>305</b>		<b>184</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>291</b>	<b>-</b>
<b>Prosiectau Cyfalaf Untro (yn amodol ar gyllid)</b>								
Cynllun Llifogydd Traeth Coch / Traeth Coch Flood Scheme	225							225
Ail wynebu ardaloedd chwarae (ardal fach) / Resurfacing play areas (small area)	100							100
<b>CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (yn amodol ar gyllid)</b>	<b>325</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>325</b>
<b>Ysgolion 21ain Garrif</b>								
Band A	5,077	2,539		2,538				
Band B	1,523	666		359	498			
<b>CYFANSWM Ysgolion 21ain Garrif</b>	<b>6,600</b>	<b>3,205</b>	<b>-</b>	<b>2,897</b>	<b>498</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>
<b>CYFANSWM CRONFA GYFFREDINOL</b>	<b>15,842</b>	<b>7,510</b>	<b>2,163</b>	<b>5,055</b>	<b>498</b>	<b>-</b>	<b>291</b>	<b>325</b>

CYNLLUN	CYLLIDEB 2021/22 £'000	CYLLIDIR GAN						
		Grantiau Allanol £'000	Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000	Benthycia â Chefnogaeth £'000	Benthycia Di- gefnogaeth £'000	Arian Wrth Gefn CRT £'000	Arian Wrth gefn Cyffredinol £'000	Arian Wrth gefn Cyffredinol (os oes cyllid digonol) £'000
<b>Cyfrif Refeniw Tai</b>								
Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig Traddodiadol SATC	9,555	2,674				6,881		
Datblygiadau Newydd ac ail brynu eiddo Hawl i Brynu	10,758				2,000	8,758		
<b>CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI</b>	<b>20,313</b>	<b>2,674</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>2,000</b>	<b>15,639</b>	<b>-</b>	<b>-</b>
<b>CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2021/22</b>	<b>36,155</b>	<b>10,184</b>	<b>2,163</b>	<b>5,055</b>	<b>2,498</b>	<b>15,639</b>	<b>291</b>	<b>325</b>

